Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 8/2023

Dyddiad Cyhoeddi: 07/02/2023

# Gwerthusiad o'r Rhaglen Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE)

# Effaith, Sefyllfaoedd Gwrthffeithiol a Gwerth am Arian

© Hawlfraint y Goron 2023
ISBN Digidol: 978-1-80535-341-6

Gwerthusiad o’r Rhaglen Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE)

Adroddiad Gwerthuso Diwygiedig Drafft – Effaith, Sefyllfaoedd Gwrthffeithiol a Gwerth am Arian

Einir Burrowes, Dateb / OB3
Rhys Davies, Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd Cymru, Data a Dulliau (WISERD), Prifysgol Caerdydd

Barn yr ymchwilydd yw’r farn a geir yn yr adroddiad hwn, ac nid o anghenraid farn Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Launa Anderson
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: YmchwilCyfiawnderCymdeithasol@llyw.cymru

**Cynnwys**


**1. Cyflwyniad** .... 4

Dull .... 5

*Cryfderau a chyfyngiadau'r dull a ddefnyddiwyd wrth geisio cyflawni amcanion yr elfen hon o'r gwerthusiad* .... 6

Strwythur yr adroddiad hwn .... 9

**2. Pwy sydd wedi ymwneud â'r rhaglen a'r cymorth y maent wedi'i gael** .... 10

Cyflwyniad .... 10

Y perfformiad o dan y prif dargedau ar gyfer ymwneud â phobl .... 10

Y bobl y mae'r rhaglen wedi ymwneud â hwy yn ôl ardal awdurdod lleol .... 11

Y bobl y mae'r rhaglen wedi ymwneud â hwy yn ôl hyd eu cyfnod yn ddi-waith .... 12

Y bobl y mae'r rhaglen wedi ymwneud â hwy yn ôl grŵp targed y cyfranogwyr .... 13

*Rhywedd* .... 13

*Oedran* .... 14

*Ethnigrwydd* .... 15

*Cyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio* .... 16

*Aelwydydd un oedolyn* .... 16

*Lefel cymwysterau* .... 17

*Y Gymraeg* .... 18

Effaith y pandemig COVID-19 ar y modd y mae'r rhaglen wedi ymwneud â phobl 19

Y cymorth ar gyfer gofal plant y mae'r cyfranogwyr sydd wedi ymwneud â'r rhaglen wedi'i gael .... 22

**3. Deilliannau'r rhaglen** .... 25

Cyflwyniad .... 25

Symud i mewn i waith neu hunangyflogaeth .... 25

*Y perfformiad o dan y prif dargedau ar gyfer deilliannau swyddi* .... 25

*Deilliannau swyddi yn ôl ardal awdurdod lleol* .... 26

*Deilliannau swyddi yn ôl hyd y cyfnod yn rhan o'r rhaglen* .... 27

*Deilliannau swyddi yn ôl hyd y cyfnod yn ddi-waith* .... 29

*Deilliannau swyddi yn ôl oedran* .... 29

*Deilliannau swyddi yn ôl ethnigrwydd* .... 30

*Deilliannau swyddi yn ôl cyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio* .... 30

*Deilliannau swyddi yn ôl lefel cymwysterau* ............ 31
*Deilliannau swyddi yn ôl sgiliau Cymraeg* ............ 32
*Deilliannau swyddi yn ôl elfennau o gymorth PaCE* ............ 32
*Nodweddion sy'n gysylltiedig â gwell deilliannau cyflogaeth* ............ 33
*Natur y deilliannau swyddi* ............ 35
*Pa mor gynaliadwy yw'r deilliannau swyddi* ............ 35
Ffactorau sy'n rhwystro cyfranogwyr rhag symud i waith ............ 40
Deilliannau profiad gwaith/gwirfoddoli ............ 40
Deilliannau addysg neu hyfforddiant ............ 41
Cymwysterau neu ardystiadau sy'n gysylltiedig â gwaith a gyflawnwyd ............ 41
Effeithiau ehangach PaCE ............ 41
**4. Y gwahaniaeth a wnaed gan PaCE: Ychwanegedd o ran cyflogaeth** ............ 44
Cyflwyniad ............ 44
Y dull gweithio a ddilynwyd ............ 44
Rhoi cyfranogwyr posibl PaCE yn eu cyd-destun ............ 45
Deilliannau cyflogaeth ymhlith cyfranogwyr posibl PaCE ............ 54
Cymharu deilliannau cyflogaeth ymhlith cyfranogwyr PaCE â'r hyn y gellid ei ddisgwyl ............ 59
**5. COSTAU'R RHAGLEN A GWERTH AM ARIAN** ............ 66
Cyflwyniad ............ 66
Gwariant y rhaglen o'i gymharu â'r cyllidebau ............ 66
Dangosyddion gwerth am arian PaCE ............ 68
Data am berfformiad ochr yn ochr â dangosyddion gwerth am arian PaCE ............ 69
*Y gost fesul cyfranogwr* ............ 69
*Y gost fesul deilliant* ............ 70
Ymyriadau cyflogadwyedd a gwerth am arian ............ 71
**6. Casgliadau** ............ 79
Cyflwyniad ............ 79
I ba raddau y mae rhaglen PaCE wedi cyrraedd ei thargedau a chyflawni'i hamcanion ............ 79
*Y targedau ar gyfer ymwneud â chyfranogwyr* ............ 80
*Y targedau ar gyfer deilliannau* ............ 81

Yr ardaloedd lle bu PaCE yn fwyaf llwyddiannus ac yn lleiaf llwyddiannus ........... 84
Yr ychwanegedd a'r difuddiant sy'n gysylltiedig â PaCE ........................................ 86
Costau'r rhaglen a gwerth am arian ............................................................ 87
*Costau* ........................................................................................................ 87
*Gwerth am arian* ......................................................................................... 88
Atodiad 1: Yr ymwneud yn ôl detholiad o nodweddion personol (%) ...................... 90
Atodiad 2: Cael gofal plant yn ôl detholiad o nodweddion personol (%) ................ 91
Atodiad 3: Deilliannau cyflogaeth yn ôl detholiad o nodweddion personol (%) ..... 92
Atodiad 4: Deilliannau cyflogaeth yn ôl detholiad o nodweddion rhaglen (%) ....... 92
Atodiad 5: Data'r APS ....................................................................................... 94
Atodiad 6: Cyfrifiadau gwaelodol y dangosyddion gwerth am arian ....................... 95
Atodiad 7: Dangosyddion Lefel Achos a Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol957
**LLYFRYDDIAETH** ........................................................................................ 979

**Rhestr o'r tablau**


| | |
|---|---|
| Tabl 2.1 | Cyfran y cyfranogwyr a gyflawnodd ddeilliannau swyddi yn ôl ardal |
| Tabl 3.1 | Hynt cyfranogwyr a gyfwelwyd yn 2021 |
| Tabl 3.2 | Cyfran y cyfranogwyr a gyflawnodd ddeilliannau swyddi yn ôl ardal |
| Tabl 4.1 | Maint a Chyfansoddiad Oedolion Anghyflogedig sydd â Phlant Dibynnol |
| Tabl 4.2 | Nodweddion Rhieni Anghyflogedig |
| Tabl 4.3 | Sefyllfa Flynyddol Rhieni Anghyflogedig sy'n Pontio i Waith |
| Tabl 4.4 | Nodweddion Personol a Phontio i Waith: Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth o'i Gymharu â PaCE |
| Tabl 4.5 | Amcangyfrif o'r deilliannau swyddi yn ychwanegol at y rheini a fyddai'n ddisgwyliedig |
| Tabl 5.1 | Manylion y costau yn ôl y blaenoriaethau ym mis Medi 2021 |
| Tabl 5.2 | Dangosyddion gwerth am arian gwreiddiol a diwygiedig PaCE |
| Tabl 5.3 | Cymharu'r ffigurau costau sydd ar gael ar gyfer rhaglenni cyflogadwyedd yng Nghymru |
| Tabl 5.4 | Ffigurau'r gost fesul cyfranogwr a'r gost fesul deilliant i PaCE hyd at fis Medi 2021 |

**Rhestr o'r ffigurau**


| | |
|---|---|
| Ffigur 2.1 | Perfformiad hyd yma; nifer y bobl y mae'r rhaglen wedi ymwneud â hwy |
| Ffigur 2.2 | Dosbarthiad oedran y cyfranogwyr |
| Ffigur 2.3 | Cyfran y cyfranogwyr yn ôl lefel uchaf eu cymwysterau wrth ymuno â'r rhaglen |
| Ffigur 2.4 | Cyfran y cyfranogwyr sy'n symud i mewn i waith fesul blaenoriaeth |
| Ffigur 2.5 | Cyfran y cyfranogwyr sy'n symud i mewn i waith yn ôl oedran |
| Ffigur 2.6 | Nifer y bobl mae'r rhaglen wedi ymwneud â hwy fesul mis yn ystod 2020 a 2021 |
| Ffigur 3.1 | Cyfran y cyfranogwyr a gyflawnodd ddeilliannau swyddi fesul blaenoriaeth |
| Ffigur 3.2 | Cyfran y cyfranogwyr a gyflawnodd ddeilliannau swyddi yn ôl hyd eu cyfnod ar y rhaglen |
| Ffigur 3.3 | Cyfran y cyfranogwyr a gyflawnodd ddeilliannau swyddi yn ôl hyd y cyfnod yn ddi-waith |
| Ffigur 3.4 | Cyfran y cyfranogwyr a gyflawnodd ddeilliannau swyddi yn ôl oedran |
| Ffigur 3.5 | Deilliannau swyddi yn ôl lefelau cymwysterau wrth ymuno â'r rhaglen |
| Ffigur 3.6 | Nifer y cyfranogwyr a gyflawnodd ddeilliannau swyddi bob mis rhwng mis Ionawr 2020 a mis Medi 2021, o'i gymharu â'r niferoedd cyfartalog a gyflawnodd ddeilliannau swyddi bob mis rhwng mis Ionawr 2017 a mis Chwefror 2020 |
| Ffigur 5.1 | Cymharu'r gost ddisgwyliedig a'r gwir gost fesul cyfranogwr |
| Ffigur 5.2 | Cymharu'r gost ddisgwyliedig a'r gwir gost fesul deilliant swydd |

**Geirfa**

| **Acronym/Gair allweddol** | **Diffiniad** |
|---|---|
| APS | Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth |
| B1 | Blaenoriaeth 1 |
| B3 | Blaenoriaeth 3 |
| ESF | Cronfa Gymdeithasol Ewrop |
| LFS | Arolwg o'r Llafurlu |
| NEET | Pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant |
| NQF | Y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol |
| PaCE | Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Ym mis Ionawr 2018, cafodd Ymchwil OB3, Dateb, Pobl a Gwaith a Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd Cymru eu penodi gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad o’i rhaglen Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE), sef ymyriad yn y farchnad lafur a gefnogir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)[1].

1.2 Lansiwyd PaCE yn 2015 ac roedd adroddiad gwerthuso cychwynnol, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016[2], yn cyflwyno cyd-destun y rhaglen a’r Ddamcaniaeth Newid a oedd yn sail i PaCE. Roedd yr adroddiad hwnnw hefyd yn trafod y canfyddiadau cynnar ynghylch prosesau’r rhaglen a phrofiadau cyfranogwyr ohoni.

1.3 Cyhoeddwyd adroddiad Gwerthuso Prosesau ac Allbwn ym mis Rhagfyr 2018[3]. Roedd yr adroddiad hwn yn ystyried sut roedd y rhaglen wedi cael ei strwythuro, yn trafod proffil y cyfranogwyr a fu’n ymwneud â’r rhaglen (gan gynnwys y rhwystrau i waith roeddent yn eu hwynebu), yn disgrifio siwrneiau’r cyfranogwyr drwy PaCE, ac yn ystyried deilliannau’r rhaglen wrth i’r rheini ddod i’r amlwg.

1.4 Cyhoeddwyd adroddiad Gwerthuso Profiadau a Deilliannau ym mis Mawrth 2020[4], a hwnnw’n edrych yn fanylach ar brofiadau cyfranogwyr o PaCE a’r gwahaniaeth a wnaeth cymryd rhan yn y rhaglen iddynt. Roedd yr adroddiad hefyd yn amlygu gwersi allai lywio darpariaeth ac arfer yn y dyfodol.

1.5 Nod yr adroddiad hwn yw ystyried effaith PaCE, gan roi sylw i’r sefyllfaoedd gwrthffeithiol (beth fyddai wedi digwydd i’r unigolion pe na baent wedi cymryd

---

[1] Ariennir PaCE trwy Raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) 2014-20 ar gyfer Dwyrain Cymru (DC) a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (GCaC), a hynny o dan ddwy flaenoriaeth wahanol:

- Echel Blaenoriaeth 1: 'trechu tlodi trwy gyflogaeth gynaliadwy'. Yn fwy manwl, bwriad PaCE yw mynd i'r afael ag Amcan Penodol 1.1 o fewn Rhaglen Dwyrain Cymru, ac Amcan Penodol 1.2 yn Rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, sef 'cynyddu cyflogadwyedd pobl economaidd anweithredol a phobl ddi-waith tymor hir sydd dros 25 oed ac sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth'
- Blaenoriaeth 3: 'cyflogaeth ymhlith pobl ifanc' yn Rhaglen Dwyrain Cymru a 'chyflogaeth a chyrhaeddiad pobl ifanc' yn Rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Yn fwy penodol, mae PaCE yn ymdrechu i fynd i'r afael ag Amcan Penodol 3.1 yn y ddwy raglen, sef 'lleihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)’.

[2] Gwerthusiad o'r prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PACE): gwerthuso'r broses

[3] Gwerthusiad o'r prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PACE): gwerthuso ar y broses a'r allbynnau

[4] Gwerthusiad o'r prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PACE): profiadau a deilliannau

rhan yn PaCE), ac asesu'r gwerth am arian a geir drwy raglen PaCE, o'i chymharu ag ymyriadau tebyg. Dyma amcanion penodol y cam hwn yn y rhaglen werthuso:

- asesu i ba raddau y mae PaCE wedi cyrraedd ei thargedau a chyflawni'i hamcanion
- canfod yr ardaloedd lle bu rhaglen PaCE yn fwyaf llwyddiannus ac yn lleiaf llwyddiannus
- rhoi gwybodaeth am lefel yr ychwanegedd a roddir gan PaCE a lefel y difuddiant sy'n gysylltiedig â'r rhaglen
- adrodd am y costau sy'n gysylltiedig â PaCE a rhoi sylwadau am y gwerth am arian a roddir gan y rhaglen.

1.6 Bwriedir cyhoeddi adroddiad gwerthuso crynodol, terfynol, yn 2022.

**Dull**

1.7 Yn y cam hwn yn y rhaglen werthuso (a gynhaliwyd rhwng mis Mai 2021 a mis Mawrth 2022), roedd naw o brif elfennau i'r gwaith:

- cynnal ail gyfweliadau dilynol dros y ffôn ag 20 o gyfranogwyr PaCE a gyfwelwyd wyneb yn wyneb am y tro cyntaf yn 2018, ac a gyfwelwyd eto dros y ffôn yn 2019[5] [6]: diben y cyfweliadau dilynol hyn oedd canfod sut roedd eu sefyllfaoedd wedi datblygu yn y cyfamser
- cynnal cyfweliadau dilynol dros y ffôn â 22 o gyfranogwyr a oedd wedi dod i gysylltiad â PaCE yn ystod 2018 ac a gyfwelwyd am y tro cyntaf yn 2019[7], wyneb yn wyneb gan mwyaf[8]
- dadansoddi canfyddiadau'r gwaith maes a gynhaliwyd
- dadansoddi'r gronfa ddata o gyfranogwyr a ddiweddarwyd ym mis Hydref 2021

[5] Roedd yr unigolion hyn wedi cytuno yn 2018 a 2019 y gallai aelodau'r tîm ymchwil gysylltu â hwy'n uniongyrchol drachefn i gynnal cyfweliadau dilynol.
[6] I gyd, cafodd 83 o unigolion eu cyfweld yn 2018, cafodd 45 o'r rhain eu hail-gyfweld yn 2019, a chafodd 20 wedyn eu cyfweld eto yn 2021.
[7] I gyd, cafodd 44 o unigolion eu cyfweld am y tro cyntaf yn 2019 a chafodd 22 o'r rhain eu hail-gyfweld yn 2021.
[8] Roedd yr unigolion hyn wedi cytuno yn 2019 y gallai'r tîm ymchwil gysylltu â hwy'n uniongyrchol drachefn i gynnal cyfweliadau dilynol.

- dadansoddi data'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (APS) a'r Arolwg o'r Llafurlu (LFS) er mwyn canfod llwybrau cyflogaeth unigolion sy'n economaidd anweithgar ac sydd â phlant dibynnol yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig (DU), er mwyn rhoi meincnodau i'w defnyddio wrth gymharu sut y mae cyfranogwyr PaCE wedi pontio i waith
- dadansoddi gwybodaeth ariannol a gwybodaeth reoli rhaglen PaCE i asesu'r gost fesul cyfranogwr, fesul deilliant
- adolygu adroddiadau gwerthuso ymyriadau tebyg i feincnodi'r dangosyddion o gost-effeithiolrwydd
- paratoi a threfnu i gymheiriaid adolygu'r adroddiad hwn ynghylch Effaith, Sefyllfaoedd Gwrthffeithiol a Gwerth am Arian.

*Cryfderau a chyfyngiadau'r dull a ddefnyddiwyd wrth geisio cyflawni amcanion yr elfen hon o'r gwerthusiad*

1.8 Cynhaliwyd yr elfen hon o'r gwerthusiad tua 15-22 mis ar ôl dechrau'r pandemig COVID-19 ym mis Mawrth 2020. Yn ystod y pandemig, amharwyd yn arw ar y modd y darparwyd rhaglen PaCE wrth i gynghorwyr gael eu symud yn rhannol, ac am gyfnod, i ddarparu gwasanaethau rheng flaen yr Adran Gwaith a Phensiynau. Er bod modd i gyfranogwyr gysylltu â chynghorwyr o bell, nid oedd modd iddynt gyfarfod wyneb yn wyneb, a chyfyngwyd yn fawr iawn ar allu'r cyfranogwyr i ymwneud â hyfforddiant neu weithgareddau gwirfoddol. Yn sgil cau ysgolion a meithrinfeydd, neu eu cau'n rhannol, roedd llai o ofal plant ar gael i rieni, a tharfodd 'cyfnodau clo' olynol ar y farchnad lafur. Effeithiwyd yn arbennig o ddrwg ar sectorau a oedd wedi rhoi llwybrau pwysig i gyfranogwyr PaCE gamu yn eu blaenau cyn hynny, yn enwedig yn y sector manwerthu a'r sector hamdden a lletygarwch.

1.9 Dadansoddwyd cronfa ddata'r cyfranogwyr yn ystod hydref 2021, ryw ddeunaw mis ar ôl dechrau'r pandemig ei hun, ond yn llawer nes at y cyfnod pan oedd cyfyngiadau COVID-19 yn cael eu llacio a'u hailgyflwyno'n ysbeidiol. Er bod rhywfaint o wybodaeth yn cael ei rhoi am effaith y pandemig ar y modd y gallai'r rhaglen ymwneud â phobl, ac am effaith y pandemig ar ddeilliannau'r

rhaglen, mae'n rhy gynnar i wneud unrhyw sylwadau pendant am yr effeithiau hynny.

1.10 Yn yr adroddiad hwn, rydym hefyd yn ceisio rhoi rhywfaint o wybodaeth am effeithiau'r pandemig ar gyfranogwyr. Serch hynny, mae hyn wedi'i seilio ar gyfweliadau dilynol dros y ffôn â nifer cymharol gyfyngedig o gyn-gyfranogwyr (n=42) ac mae'n annhebygol y bydd hyn yn rhoi darlun cynhwysfawr o'r modd yr effeithiodd y gwasanaeth cyfyngedig neu'r sefyllfa ddigynsail yn y farchnad lafur ar unigolion.

1.11 Roedd y gwerthusiad yn cynnwys elfen hydredol lle cynhaliwyd cyfweliadau dilynol â chyn-gyfranogwyr a gyfwelwyd o'r blaen yn 2018 (ton 1) a 2019 (tonnau 1 a 2). Er dewis hapsampl o gyfranogwyr i'w cyfweld, efallai fod elfen o duedd yn sgil hunanddewis wedi arwain at roi gogwydd gadarnhaol i ddeilliannau ein gwaith maes. Roedd y rheini a gytunodd i gael eu hail-gyfweld yn 2021 yn dueddol o fod yn unigolion a oedd wedi cael profiad cadarnhaol o PaCE neu a oedd wedi elwa fwyaf o'r rhaglen, yn hytrach nag yn unigolion a oedd wedi rhoi'r gorau'n gynnar i ymwneud â'r rhaglen neu nad oedd wedi elwa rhyw lawer ohoni.

1.12 Y bwriad oedd y byddai'r cam hwn o'r gwerthusiad hefyd wedi'i seilio ar ganfyddiadau Arolwg o Gyfranogwyr Cronfa Gymdeithasol Ewrop, yn gysylltiedig â chyfranogwyr PaCE yn benodol. Fel y digwyddodd pethau, nid oedd yn bosibl cael mynediad at y data hyn o fewn amserlen y gwerthusiad ac o ganlyniad, ni chwblhawyd y ffrwd waith hon.

1.13 Rhoddir ystyriaeth i ba mor effeithiol yw'r rhaglen wrth gefnogi ac ymwneud ag unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae ein dadansoddiad o gronfa ddata'r cyfranogwyr yn dangos y ceir meysydd lle'r oedd y perfformiad yn gryf yn hyn o beth, ynghyd â lle nad oedd y perfformiad cystal wrth edrych ar y gwahanol grwpiau. Serch hynny, roedd nifer y cyfranogwyr a oedd â nodweddion gwarchodedig penodol (e.e. unigolion o Gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a phobl anabl) yn gyfyngedig, a bu'n fwy anodd ymwneud â chyfranogwyr o gymunedau ethnig lleiafrifol yn ein gwaith maes ansoddol. Mae hyn yn golygu na fu'n bosibl asesu gyda sicrwydd sut a

pham y gallai profiadau gwahanol fathau o unigolion fod wedi amrywio o'u cymharu â chyfranogwyr PaCE yn gyffredinol.

1.14 Er bod y gronfa ddata o gyfranogwyr yn un gynhwysfawr mewn sawl ffordd, mae prinder gwybodaeth ynddi am nodweddion penodol sy'n bwysig er mwyn deall cyflogadwyedd cyfranogwyr. Er enghraifft, nid yw'n rhoi manylion am hanes gwaith blaenorol y cyfranogwyr, na hyd unrhyw hyfforddiant neu waith gwirfoddol a wnaed. Yn fwy sylfaenol, nid oes gwybodaeth syml yn y gronfa ddata am nifer y plant dibynnol sydd gan y cyfranogwyr, nac am oedran y plentyn dibynnol ieuengaf. Dyma ffactorau allweddol sy'n gysylltiedig â chael gwaith, ymhlith menywod yn enwedig. Wrth ddadansoddi, mae diffyg gwybodaeth o'r fath yn cyfyngu ar y potensial i roi sylw i effaith gwahanol nodweddion allweddol ar ba mor debygol yw cyfranogwyr o sicrhau deilliannau cadarnhaol.

1.15 Yn hyn o beth, dylid nodi mai prif nod y gronfa ddata o gyfranogwyr oedd casglu'r wybodaeth y mae ei hangen ar WEFO, er bod rhywfaint o ddata ychwanegol nad oes ei hangen ar WEFO yn cael eu cofnodi at ddibenion monitro a rheoli'r rhaglen e.e. statws budd-daliadau cyfranogwyr wrth ymuno, ers pa mor hir y maent wedi bod yn ddi-waith, ac i ba sectorau yr aeth y rheini a gamodd i fyd gwaith. Mae data eraill am y cyfranogwyr wedi'u cofnodi ym mhortffolios y cyfranogwyr ac mewn cofnodion ar wahân (e.e. taenlen sy'n rhoi manylion y cyfranogwyr sy'n cael cymorth ariannol ar gyfer gofal plant), ond gyda'r adnoddau a oedd ar gael, ni fyddai wedi bod yn ymarferol i'r tîm ymchwil adolygu'r ffynonellau hyn er mwyn creu darlun mwy cynhwysfawr na'r un a roddai'r gronfa ddata o gyfranogwyr.

1.16 Mae rhaglen PaCE wedi'i hymestyn, gyda'r disgwyliad y bydd y cyfranogwyr nawr yn ymwneud â hi tan fis Mawrth 2023, a bydd deilliannau i'w gweld tan fis Hydref 2023. Mae'r gwerthusiad hwn yn cael ei gynnal ar adeg pan fo gan y rhaglen flwyddyn o hyd ar ôl. Gan hynny, ni ellir gwneud sylwadau gyda sicrwydd ynghylch niferoedd terfynol y cyfranogwyr a fu'n ymwneud â'r rhaglen, y deilliannau a gyflawnwyd, na pha mor gost-effeithiol fu'r rhaglen.

1.17 Wrth roi sylwadau am werth am arian rhaglen PaCE, ystyriwyd costau prif ddangosyddion allbynnau a deilliannau ymyriadau eraill ym maes

cyflogadwyedd. Serch hynny, prin yw'r gwerthusiadau cynharach sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n golygu bod modd cymharu. Y disgwyl oedd y byddai gwerthusiadau o nifer o raglenni cyflogadwyedd mwy diweddar[9] ar gael erbyn hyn, ond nid yw'r rhain wedi'u cyhoeddi eto.

### Strwythur yr adroddiad hwn

1.18 Mae'r adroddiad yn cael ei gyflwyno mewn chwe phennod fel a ganlyn:

- pennod un: y cyflwyniad hwn i'r adroddiad
- pennod dau: pwy sydd wedi ymwneud â'r rhaglen (gan gynnwys yng nghyd-destun pobl sydd â nodweddion gwarchodedig) a'r cymorth y maent wedi'i gael
- pennod tri: deilliannau'r rhaglen
- pennod pedwar: asesiad o'r sefyllfaoedd gwrthffeithiol
- pennod pump: gwerth am arian
- pennod chwech: casgliadau.

[9] Er enghraifft, Pontydd i Waith, Gweithffyrdd+, J2W South East, OPUS a Sicrhau Newid trwy Gyflogaeth

## 2. Pwy sydd wedi ymuno â'r rhaglen a'r cymorth y maent wedi'i gael

### Cyflwyniad

2.1 Yn y bennod hon rydym yn ystyried i ba raddau y mae rhaglen PaCE wedi cysylltu â'r cyfranogwyr y bwriadwyd ymwneud â hwy. Rydym hefyd yn trafod y perfformiad mewn perthynas â grwpiau penodol o gyfranogwyr. Mae'r bennod hon wedi'i chyflwyno mewn chwe rhan fel a ganlyn:

- y perfformiad o dan y prif dargedau ar gyfer cysylltiadau
- cysylltiadau yn ôl ardal
- cysylltiadau yn ôl hyd eu cyfnod yn ddi-waith
- cysylltiadau yn ôl grwpiau targed y cyfranogwyr/nodweddion gwarchodedig
- effaith'r pandemig COVID-19 ar y modd y mae'r rhaglen wedi cysylltu â phobl
- y cymorth at ofal plant y mae'r cyfranogwyr sydd wedi cysylltu â'r rhaglen wedi'i gael.

### Perfformiad yn erbyn y prif dargedau cysylltiadau

2.2 Mae Ffigur 2.1 yn dangos nifer y cyfranogwyr Blaenoriaeth 1[10] a Blaenoriaeth 3[11] sydd wedi ymuno â PaCE ers dechrau'r rhaglen. Mae'r rhaglen wedi dod i gyswllt â chyfanswm o 6,535 o bobl, sydd tua 20 y cant yn is na'r lefel a fwriadwyd, gyda'r niferoedd yn lleihau'n arw yn sgil y pandemig COVID-19 (gweler eitem 2.19 isod).


2.3 Mae nifer y cysylltiadau o dan Flaenoriaeth 1 a Blaenoriaeth 3 yn sylweddol gryfach yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd nag yn Nwyrain Cymru, gyda'r niferoedd tua chwech y cant yn is na'r disgwyl yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, o'i gymharu â 54 y cant yn is na'r disgwyl yn Nwyrain Cymru. I gyd, o edrych ar y targedau, roedd nifer y cyfranogwyr 25 oed a hŷn y mae'r rhaglen wedi cysylltu â hwy (Blaenoriaeth 1) yn wannach na nifer y cyfranogwyr rhwng 16 a 24 oed (Blaenoriaeth 3), er y dylid nodi bod y

[10] Y rheini sy'n gymwys i gael cymorth o dan Flaenoriaeth 1 yw unigolion economaidd anweithgar 25 oed a hŷn, ble mae cyfrifoldebau gofal plant yn rhwystr rhag gweithio

[11] Y rheini sy'n gymwys i gael cymorth o dan Flaenoriaeth 3 yw unigolion 16-24 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, ble mae cyfrifoldebau gofal plant yn rhwystr wrth geisio cael gwaith

targedau ar gyfer Blaenoriaeth 1 yn sylweddol uwch na'r rheini ar gyfer Blaenoriaeth 3.

**Ffigur 2.1: Y perfformiad hyd yma: nifer y cysylltiadau**[12]




Ffynhonnell: Cronfa ddata'r cyfranogwyr ar 31 Hydref 2021

**Cysylltiadau yn ôl ardal awdurdod lleol**

2.4 Mae nifer y cyfranogwyr y mae'r rhaglen wedi cysylltu â hwy yn amrywio'n sylweddol o'r naill ardal awdurdod lleol i'r llall. Roedd adroddiadau gwerthuso cynharach yn awgrymu bod hyn yn rhannol yn sgil pa bryd y cafodd y rhaglen ei lansio mewn gwahanol ardaloedd, yn ogystal â ffactorau eraill fel ansawdd y berthynas rhwng cynghorwyr PaCE a hyfforddwyr gwaith y Ganolfan Byd Gwaith, i ba raddau roedd PaCE yn integreiddio â seilweithiau cynorthwyo teuluoedd ehangach, lefel y gwaith allgymorth a wnaed, a nifer y cynghorwyr a throsiant y staff. Wrth edrych ar ba bryd y lansiwyd y rhaglen, dros gyfnod o amser, mae'n debygol mai lleihau wnaeth effaith hynny ar niferoedd y cysylltiadau. Mae hynny'n golygu bod y ffactorau eraill hyn yn bwysicach, bellach, o ran eu dylanwad ar lefelau cysylltiadau. Achos arall posibl dros yr amrywiadau rhwng ardaloedd awdurdodau lleol yw'r gwahaniaeth yn y rhaglenni cyflogadwyedd eraill sydd ar gael o'r naill ardal i'r llall.

[12] Y targedau a ddangosir yw'r rheini sy'n destun trafodaeth â WEFO ar hyn o bryd. Diwygiwyd targedau'r rhaglen ym mis Hydref 2016 pan gafodd rhaglen PaCE ei hymestyn tan fis Mawrth 2020 a drachefn ym mis Rhagfyr 2021, pan gafodd y rhaglen ei hymestyn eto tan fis Hydref 2023. Cytunwyd ar dargedau PaCE fesul chwarter a mis Medi 2021 yw'r targed agosaf at fis Hydref 2021, sef dyddiad y gwir ffigurau.

2.5 Mae'r cysylltiadau wedi bod ar ei uchaf yn Sir Gâr[13], Rhondda Cynon Taf, Sir Benfro[14], Torfaen a Phen-y-bont ar Ogwr, ac ar ei wannaf yng Nghaerffili, Casnewydd a Phowys[15]. Mae'r nifer cronnol o gysylltiadau, mewn cymhariaeth â maint y boblogaeth sy'n economaidd anweithgar yn ardal pob awdurdod lleol[16], yn dal ar ei uchaf yng Ngheredigion[17] a Sir Benfro. Mae'r niferoedd o gysylltiadau (mewn cymhariaeth â'r boblogaeth sy'n economaidd anweithgar) hefyd wedi bod yn gryf yn Nhorfaen, Sir Fynwy a Sir Gâr. Mae'r niferoedd o gysylltiadau wedi bod ar eu gwannaf mewn termau cymharol yng Nghaerffili, Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd.

**Cysylltiadau yn ôl hyd eu cyfnod yn ddi-waith**

2.6 Mae Ffigur 2.2 yn dangos cyfran y cyfranogwyr y mae PaCE wedi cysylltu â hwy yn ôl hyd eu cyfnod yn ddi-waith cyn ymuno â'r rhaglen. Roedd mymryn dros chwarter (26 y cant) y cyfranogwyr wedi bod yn ddi-waith am lai na blwyddyn, a dros ddwy ran o bump (42 y cant) wedi bod yn ddi-waith am lai na dwy flynedd. Yn yr un modd, roedd tair rhan o bump (60 y cant) o'r cyfranogwyr wedi bod yn ddi-waith am dros ddwy flynedd wrth ymuno â PaCE. Dim ond 28 y cant o'r cyfranogwyr a oedd wedi bod yn ddi-waith am bum mlynedd neu ragor, sydd o bosibl yn adlewyrchu'r ffaith bod unig rieni yn dod yn anghymwys i gael Cymhorthdal Incwm (ac yn fwy diweddar, y Credyd Cynhwysol) pan fydd eu plentyn ieuengaf yn cyrraedd pump oed.

2.7 Roedd cyfranogwyr Blaenoriaeth 3 ar y cyfan wedi bod yn ddi-waith am gyfnodau byrrach na chyfranogwyr Blaenoriaeth 1. Dim ond 16 y cant o gyfranogwyr Blaenoriaeth 3 a oedd wedi bod yn ddi-waith am fwy na phum mlynedd o'i gymharu â thua 30 y cant o gyfranogwyr Blaenoriaeth 1. Gallai hyn fod yn ddisgwyliedig, o ystyried bod cyfranogwyr Blaenoriaeth 3 yn iau, ac ni ellir tybio o anghenraid bod y cyfnodau byrrach o ddiweithdra ymhlith

---

[13] Sef un o'r tair ardal awdurdod lleol lle lansiwyd y rhaglen gyntaf

[14] Hefyd ymhlith y tair ardal awdurdod lleol lle lansiwyd y rhaglen gyntaf


[15] Ni roddir ystyriaeth yma i Flaenau Gwent na Merthyr Tudful, sydd ond yn cael eu gwasanaethu gan PaCE ar y cyrion (gweler yr adroddiad sy'n gwerthuso'r broses)

[16] Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth/Arolwg y Llafurlu ym mis Mehefin 2020, er y dylid nodi mai dim ond rhan o'r boblogaeth economaidd anweithgar oedran gweithio yw rhieni economaidd anweithgar sydd â phlant dibynnol, ac felly dim ond amcan bras iawn y gallant ei roi o boblogaeth darged bosibl PaCE

[17] Hefyd ymhlith y tair ardal awdurdod lleol lle lansiwyd y rhaglen gyntaf

cyfranogwyr Blaenoriaeth 3 yn golygu bod yr unigolion hyn yn ‘nes’ at y farchnad lafur.

**Ffigur 2.2: Cysylltiadau yn ôl hyd eu cyfnod yn ddi-waith**




Ffynhonnell: Cronfa ddata’r cyfranogwyr ar 31 Hydref 2021

**Cysylltiadau yn ôl grŵp targed y cyfranogwyr**

2.8 Ar wahân i’r ddau brif grŵp y mae PaCE yn ceisio’u cynorthwyo (pobl 25 oed a hŷn sy’n economaidd anweithgar a phobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant [NEET]), ni chafodd unrhyw dargedau penodol eu gosod ar gyfer cysylltu ag is-grwpiau arbennig o unigolion sydd o dan anfantais yn y farchnad lafur. Fan hyn, serch hynny, rydym yn rhoi sylwadau am gyfranogiad gwahanol is-grwpiau, gan gynnwys y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae rhagor o fanylion yn Atodiad 2.

*Rhywedd*

2.9 Drwyddi draw, menywod oedd 95 y cant o gyfranogwyr PaCE, gyda 94 y cant o gyfranogwyr Blaenoriaeth 1 yn fenywod o’i gymharu â 98 y cant o gyfranogwyr Blaenoriaeth 3. Roedd cyfran fymryn uwch o fenywod ymhlith y cyfranogwyr yn Nwyrain Cymru o’i chymharu â’r gyfran yng Ngorllewin Cymru a’r Cymoedd, sef 96 y cant a 94 y cant yn y drefn honno. Mae’r anghydbwysedd hwn rhwng y rhywiau yn rhannol adlewyrchu’r ffaith gyffredinol bod mwy o fenywod (28 y cant) yn economaidd anweithgar na

dynion (19 y cant)[18], a'r ffaith bod cyfran is o fenywod sydd â phlant dibynnol (76 y cant) na dynion sydd â phlant dibynnol (92 y cant)yn gweithio[19].

2.10 Er bod y niferoedd yn isel ym mhobman, roedd cyfran fymryn uwch o ddynion ymhlith y cyfranogwyr yn Sir Benfro, Sir Gâr, Sir Ddinbych, Conwy, Rhondda Cynon Taf ac Abertawe.


*Oedran*

2.11 Roedd bron i dri chwarter (73 y cant) yr holl gyfranogwyr rhwng 20 a 34 oed, gyda'r mwyafrif llethol o gyfranogwyr Blaenoriaeth 3 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd ac yn Nwyrain Cymru yn perthyn i'r grŵp oedran 20-24. Mae Ffigur 2.3 yn dangos dosbarthiad cyfranogwyr PaCE rhwng y gwahanol ystodau oedran. Roedd gan gyfranogwyr Blaenoriaeth 1 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd broffil oedran mymryn iau na'u cymheiriaid yn Nwyrain Cymru, er mai bychan iawn oedd y gwahaniaeth hwn. Ar y llaw arall, roedd gan gyfranogwyr Blaenoriaeth 3 yn Nwyrain Cymru broffil oedran mymryn iau na'r rheini yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.

2.12 Mae'r proffil hwn yn awgrymu bod cyfranogwyr PaCE fymryn yn iau na rhieni yn gyffredinol yng Nghymru a Lloegr. Roedd oedran cyfartalog mamau yng Nghymru a Lloegr bron yn 30.7 oed yn 2019, ac roedd 14 y cant o'r holl enedigaethau i famau 20-24 oed, 27 y cant i famau 25-29 oed, a 33 y cant i famau 30-34 oed[20].

[18] Llywodraeth Cymru, Bwletin Ystadegol, Trosolwg o'r Farchnad Lafur –.Ionawr 2022, t.2
[19] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol: Teuluoedd a'r Farchnad Lafur, DU: 2021
[20] Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol Genedigaethau byw yng Nghymru a Lloegr yn ôl nodweddion mam a thad: 2019

**Ffigur 2.3: Dosbarthiad oedran y cyfranogwyr**




Ffynhonnell: Cronfa ddata'r cyfranogwyr ar 31 Hydref 2021

*Ethnigrwydd*

2.13 I gyd, roedd tri y cant o'r cyfranogwyr o gymunedau ethnig, sydd rywfaint yn is na'r pump y cant o boblogaeth Cymru o leiafrif ethnig[21]. Roedd cyfran y cyfranogwyr a oedd o gymunedau ethnig lleiafrifol yn uwch yn Nwyrain Cymru (chwech y cant) nag yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd (dau y cant), er bod cyfran y cyfranogwyr ethnig lleiafrifol yn Nwyrain Cymru yn is na'r 9 y cant sy'n rhan o boblogaeth y rhanbarth yn gyffredinol.

2.14 Er bod y cyfranogwyr o gymunedau ethnig lleiafrifol wedi'u tangynrychioli yn y rhan fwyaf o ardaloedd, roedd Caerdydd yn eithriad nodedig, gyda 23 y cant o'r cyfranogwyr o gymunedau ethnig lleiafrifol, o'i gymharu â thua 16 y cant o boblogaeth y ddinas[22].

2.15 Roedd cyfran fymryn uwch o unigolion o gymunedau ethnig lleiafrifol ymhlith cyfranogwyr Blaenoriaeth 1 na chyfranogwyr Blaenoriaeth 3, sef pedwar y cant a dau y cant yn y drefn honno. Mae'r canfyddiad hwn o bosibl yn adlewyrchu'r gyfradd gyfranogi uwch mewn addysg ôl-orfodol ymhlith pobl

[21] StatsCymru: Ethnigrwydd yn ôl ardal a grŵp ethnig yn y flwyddyn sy'n dod i ben ar 30 Mehefin 2021, yn deillio o'r APS/yr LFS, diweddarwyd 30 Mehefin 2021

[22] Ibid

ifanc o leiafrifoedd ethnig, sy’n cyfrannu at gyfraddau ffurfio teuluoedd is ymhlith y grwpiau oedran iau.

*Cyflwr iechyd neu anabledd sy’n cyfyngu ar y gallu i weithio*

2.16 I gyd, roedd gan tua 13 y cant o’r cyfranogwyr gyflyrau iechyd neu anableddau a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i weithio, er bod y gyfran hon yn uwch ymhlith cyfranogwyr Blaenoriaeth 1 (15 y cant) nag ymhlith cyfranogwyr Blaenoriaeth 3 (10 y cant), sydd o bosibl yn adlewyrchu proffil oedran iau cyfranogwyr Blaenoriaeth 3. Amcangyfrifir bod y ffigurau hyn fymryn yn is na’r cyfraddau afiechyd ymhlith y boblogaeth ehangach o ofalwyr sy’n economaidd anweithgar, sef 18 y cant ac 14 y cant ymhlith yr oedrannau cyfatebol yn y drefn honno (gweler Tabl 4.2). Gallai nifer is o gyflyrau iechyd sy’n cyfyngu ar y gallu i weithio ymhlith cyfranogwyr PaCE fod oherwydd bod y bobl sy’n ymwneud â PaCE yn llai tebygol o ddioddef o gyflyrau afiechyd a fyddai’n gallu’u harwain i beidio â chwilio am waith, neu oherwydd bod y rhai sydd â chyflyrau iechyd sy’n cyfyngu ar eu gallu i weithio yn cael eu cyfeirio at raglenni cyflogadwyedd eraill sy'n mynd i'r afael yn benodol â'r rhwystr hwn.

2.17 Nid oedd gwahaniaethau amlwg yng nghyfran y bobl a oedd â chyflyrau iechyd neu anableddau sy’n cyfyngu ar y gallu i weithio ac sydd wedi ymwneud â’r rhaglen yn dilyn dechrau’r pandemig COVID-19. Ac ystyried cyngor y llywodraeth y dylai pobl sy’n agored i niwed gael eu ‘gwarchod’ yn ystod cyfnod y pandemig, mae’n syndod o bosibl na wnaeth rhieni a oedd â chyflyrau iechyd neu anableddau a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i weithio oedi cyn ymwneud â PaCE.

*Aelwydydd un oedolyn*

2.18 Roedd tua 82 y cant o’r cyfranogwyr yn byw mewn aelwydydd un oedolyn. Mae hyn yn uwch na’r disgwyliad a geir yng nghynlluniau busnes Cronfa Gymdeithasol Ewrop, sef y byddai 70 y cant o’r cyfranogwyr yn unig rieni, ac mae’n sylweddol uwch na’r 55 y cant o rieni rhwng 16 a 24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, a’r 30 y cant o rieni 25 oed a hŷn sy’n economaidd anweithgar ac yn byw mewn aelwydydd un oedolyn (gweler Tabl 4.2). Roedd y gyfran a oedd yn byw mewn aelwydydd un oedolyn ym

Mlaenoriaeth 1 a Blaenoriaeth 3 fymryn yn uwch yn Nwyrain Cymru nag yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.

2.19 Menywod oedd 96 y cant o'r cyfranogwyr a oedd mewn aelwydydd un oedolyn. Mae hyn yn debyg i gyfansoddiad rhywedd aelwydydd unig rieni ymhlith y boblogaeth ehangach o oedolion sy'n cynrychioli sylfaen gleientiaid bosibl PaCE.

*Lefel cymwysterau*

2.20 Mae Ffigur 2.4 isod yn dangos cyfran cyfranogwyr Blaenoriaeth 1 a Blaenoriaeth 3 sydd â chymwysterau uwchben lefel 2 a hyd at lefel 2[23] wrth iddynt ymuno â rhaglen PaCE. Mae'n dangos nad oedd gan 66 y cant o gyfranogwyr Blaenoriaeth 1 ac 83 y cant o gyfranogwyr Blaenoriaeth 3 gymwysterau uwchben lefel 2. Yn ôl y diffiniad a ddefnyddir ar gyfer PaCE[24], byddid yn barnu, gan hynny, bod lefelau eu sgiliau yn isel. Mae hyn yn cymharu â thua 38 y cant o bobl oed gweithio yng Nghymru[25].


2.21 Yn yr un modd, roedd gan gyfran uwch o gyfranogwyr Blaenoriaeth 1 (34 y cant) na chyfranogwyr Blaenoriaeth 3 (17 y cant) eisoes gymwysterau ar lefel 3 neu uwch wrth ymuno â rhaglen PaCE. Yn achos y naill flaenoriaeth a'r llall, roedd cyfran fymryn yn uwch o gyfranogwyr yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd nag yn Nwyrain Cymru yn perthyn i'r categori hwn. Mae lefelau is y cymwysterau sydd gan gyfranogwyr Blaenoriaeth 3 yn debygol o adlewyrchu'r ffaith eu bod yn iau pan gawsant blant am y tro cyntaf. Ar gyfartaledd, cafodd cyfranogwyr Blaenoriaeth 3 a gyfrannodd at ein gwaeth maes eu plentyn cyntaf yn 18 oed, a bydd llawer yn yr oedran hwnnw'n dueddol o barhau i gymryd rhan mewn addysg amser llawn a/neu hyfforddiant. Ar y llaw arall, roedd cyfranogwyr Blaenoriaeth 1 a gafodd eu cyfweld yn 25 oed, ar gyfartaledd, pan gawsant eu plentyn cyntaf.

[23] Mae cymwysterau Lefel 2 yn cyfateb i bedwar neu bum gradd TGAU gyda graddau A*-C

[24] Mae'r canllawiau gweithredol yn datgan na fyddai gan unigolyn sydd â sgiliau lefel isel gymhwyster uwch na lefel 2 ar Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru, t.19

[25] Ffynhonnell: Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth; [Lefel cymhwyster uchaf oedolion o oedran gweithio fesul rhanbarth ac awdurdod lleol; Diweddariad Ebrill 2021]

**Ffigur 2.4: Cyfran y cyfranogwyr yn ôl lefel uchaf eu cymwysterau wrth ymuno â'r rhaglen**




Ffynhonnell: Cronfa ddata'r cyfranogwyr ar 31 Hydref 2021

*Y Gymraeg*

2.22 Fel yn 2018, roedd 17 y cant o bawb a oedd wedi ymwneud â PaCE yn siarad Cymraeg, er bod y gyfran hon yn amrywio o 21 y cant yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd i chwech y cant yn Nwyrain Cymru. Ar lefel fwy lleol, mae'r gyfran sy'n siarad Cymraeg yn cynyddu i gymaint â 71 y cant yng Ngwynedd a 68 y cant yn Ynys Môn, ac yn gostwng i ddau y cant yng Nghasnewydd. I gyd, roedd cyfran uwch o gyfranogwyr 16-24 oed yn siarad Cymraeg (19 y cant, Blaenoriaeth 3), na'r cyfranogwyr 25 oed a hŷn (17 y cant, Blaenoriaeth 1).


2.23 O blith y rheini a siaradai Gymraeg, dim ond 11 y cant oedd yn cael eu cefnogi gan eu cynghorwyr naill ai'n llawn neu'n rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg. Er bod y cyfranogwyr a siaradai Gymraeg a gafodd eu holi ar y cyfan yn fodlon cael y gwasanaeth yn Saesneg, mae'r ffaith bod cyn lleied o Gymraeg wedi'i defnyddio gyda'r siaradwyr Cymraeg yn awgrymu bod diffyg pwyslais ar ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng i ddarparu gwasanaeth ac fel ased i fanteisio arni wrth i bobl chwilio am waith. Ar ôl dweud hynny, fodd bynnag, dywedodd dau o'r rheini a gyfwelwyd fod eu cynghorwyr wedi chwilio am gyrsiau iddynt ddiweddaru neu ddatblygu eu sgiliau Cymraeg cyfyngedig, gan gydnabod gwerth sgiliau o'r fath wrth chwilio am waith.

**Effaith y pandemig COVID-19 ar y modd y mae'r rhaglen wedi cysylltu â phobl**

2.24 Mae nifer y cyfranogwyr sy'n ymuno â PaCE yn amrywio yn dibynnu ar yr adeg o'r flwyddyn. Erbyn 2018, roedd patrwm yn dechrau dod i'r amlwg, gyda'r niferoedd sy'n ymuno â'r rhaglen yn uwch yn ystod chwarter cyntaf a thrydydd chwarter y flwyddyn galendr, a fymryn yn is yn ystod yr ail a'r pedwerydd chwarter. Mae hyn yn adlewyrchu'n rhannol ddiwedd cyfnod y Nadolig a dechrau blwyddyn newydd (yn y chwarter cyntaf) a dechrau'r flwyddyn ysgol (yn y trydydd chwarter). Mae'r niferoedd sydd wedi ymuno gan amlaf wedi bod ar eu hisaf ym mis Ebrill a mis Rhagfyr, sy'n cyd-daro â gwyliau'r Pasg a gwyliau'r Nadolig.

2.25 Ar ôl cyfnod cychwynnol i sefydlu'r rhaglen, sefydlogodd y nifer a oedd yn ymuno â'r rhaglen, gyda'r cyfartaledd yn tua 300 bob chwarter. Serch hynny, fel y dangosir yn Ffigur 2.5, gostyngodd y nifer hwnnw'n arw yn ystod ail chwarter 2020, wrth i gyfyngiadau 'cyfnod clo' COVID-19 gael eu gosod. Dim ond yn rhannol yr adferodd y ffigurau yn ystod y 18 mis dilynol.

**Ffigur 2.5: Cysylltiadau chwarterol hyd at 301 Medi 2021**




Ffynhonnell: Cronfa ddata'r cyfranogwyr ar 31 Hydref 2021


2.26 Mae Ffigur 2.6 yn dangos amserlen o ddigwyddiadau yn ystod 2020 a 2021. Yn ystod y cyfnod hwn, arhosodd y niferoedd a oedd yn ymuno â'r rhaglen pob mis yn sylweddol is na'r cyfartaledd o 110 a welwyd yn 2019. Yn ogystal â

chyfyngiadau’r ‘cyfnodau clo’ olynol a chau ysgolion a meithrinfeydd, neu eu cau’n rhannol, cafodd cynghorwyr PaCE eu symud yn rhannol yn ystod y cyfnod hwn i weithio ar wasanaethau prif ffrwd yr Adran Gwaith a Phensiynau, gan gyfyngu rhywfaint ar yr ochr gyflenwi.

2.27 Pe na bai’r pandemig wedi digwydd, a chan dybio y byddai’r lefelau cysylltiadau yn debyg i’r tair blynedd flaenorol, mae’n debygol y byddai tua 520 yn rhagor o gyfranogwyr wedi ymuno â PaCE erbyn mis Hydref 2021.

2.28 Er i’r pandemig leihau’r niferoedd a fu’n ymuno â PaCE, cynyddodd cyfran y cyfranogwyr a barhaodd i ymwneud â’r rhaglen am dros 12 mis, ac mae hynny’n sicr yn adlewyrchu’r gostyngiad mewn cyfleoedd i gamu yn eu blaenau yn sgil COVID-19.

**Ffigur 2.6: Nifer yn ymuno fesul mis yn ystod 2020 a 2021**




Ffynhonnell: Cronfa ddata'r cyfranogwyr ar 31 Hydref 2021

**Y cymorth ar gyfer gofal plant y mae'r cyfranogwyr wedi'i gael**

2.29 Mae ariannu gofal plant yn nodwedd bwysig o PaCE. Mae'n helpu cyfranogwyr i gymryd rhan mewn hyfforddiant, yn eu galluogi i feithrin profiad gwirfoddoli, neu'n eu helpu i ddechrau gweithio. I gyd, cafodd tua 19 y cant o gyfranogwyr gymorth gyda chostau gofal plant drwy PaCE[26], er bod gwahaniaethau wrth edrych ar sut y manteisiodd gwahanol grwpiau o gyfranogwyr ar y cymorth a oedd yn cael ei gynnig (gweler Atodiad 2). Er enghraifft:

- roedd menywod ddwywaith yn fwy tebygol o gael cymorth at ofal plant na dynion (19 y cant o'i gymharu â 9 y cant)
- yn groes i'r disgwyl, roedd unig rieni yn llai tebygol o gael cymorth at ofal plant (17 y cant) na chyfranogwyr a oedd â gŵr/gwraig neu bartner (24 y cant)
- roedd cyfranogwyr hŷn, ac yn benodol y rheini dros 40 oed, yn llai tebygol o gael cymorth at ofal plant, o bosibl oherwydd bod eu plant yn hŷn ac yn yr ysgol.

2.30 Roedd y rheini a oedd â lefelau cyrhaeddiad addysgol uwch wrth ymuno â PaCE yn fwy tebygol o gael cymorth at ofal plant. Manteisiodd tua 23 y cant o gyfranogwyr a oedd â chymwysterau ar lefel 3 neu uwch ar gymorth at ofal plant, o'i gymharu ag 17 y cant o'r rheini a oedd â chymwysterau ar lefel 2 neu is a 15 y cant o blith y rheini nad oedd ag unrhyw gymwysterau blaenorol. Wrth edrych ar y ddwy flaenoriaeth, cafodd cyfran uwch o gyfranogwyr yn Nwyrain Cymru gymorth at ofal plant nag yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.

2.31 Mae PaCE yn rhoi cymorth i'r rheini sy'n pontio i waith i dalu am gostau gofal plant tan y byddant yn cael eu cyflog cyntaf. O blith y cyfranogwyr a gafodd gymorth at ofal plant, cafodd tua'u traean y cymorth hwnnw wrth iddynt symud i waith, ac roedd graddiant amlwg yn narpariaeth y cymorth at ofal plant 'mewn gwaith' yn dibynnu ar lefelau blaenorol cyrhaeddiad addysgol y cyfranogwyr. Roedd y rheini a oedd â chymwysterau ar lefel 3 neu uwch bron

[26] Efallai fod cyfranogwyr wedi manteisio ar gymorth o ffynonellau eraill e.e. y Cynnig Gofal Plant neu gredydau treth

dair gwaith yn fwy tebygol o gael cymorth at ofal plant ‘mewn gwaith’ na’r rheini nad oedd ag unrhyw gymwysterau wrth ymuno â PaCE.  Fel y trafodir yn bennod nesaf, fodd bynnag, mae hyn yn adlewyrchu cyfran uwch y cyfranogwyr sydd â gwell cymwysterau sy’n symud i mewn i waith, yn hytrach nag yn awgrymu anghydraddoldeb wrth roi cymorth at ofal plant.

2.32 Roedd cyfranogwyr a oedd wedi bod yn ddi-waith am gyfnodau byr hefyd yn fwy tebygol o elwa o gymorth at ofal plant. Drachefn, gallai hyn adlewyrchu’r tebygolrwydd uwch y bydd y cyfranogwyr hyn yn dod o hyd i waith. Yn wir, roedd cyfranogwyr a oedd wedi bod yn ddi-waith am lai na blwyddyn yn sylweddol fwy tebygol o gael cymorth at ofal plant ‘mewn gwaith’ na’r rheini a oedd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hwy. Wrth edrych ar y cymorth at ofal plant sy’n cael ei roi i’r rheini sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnodau byrrach, gallai’r anghymesuredd hefyd fod yn sgil y ffaith bod plant y rheini sydd wedi bod allan o’r farchnad lafur am gyfnod hwy, yn benodol am 5 mlynedd neu ragor, yn hŷn, ac felly mae’n llai tebygol bod angen gofal plant arnynt.

2.33 Roedd tua 60 y cant o’r cyfranogwyr a oedd wedi cael cyfleoedd gwirfoddoli wedi cael cymorth at ofal plant, ac felly hefyd 47 y cant o’r rheini a oedd wedi ennill cymhwyster a 33 y cant o’r rheini a oedd wedi cael rhyw fath o ardystiad yn gysylltiedig â gwaith.

2.34 Effeithiodd y pandemig yn andwyol ar y nifer a fanteisiodd ar gymorth at ofal plant, gyda’r gyfran a gâi gymorth yn gostwng o 21 y cant o’r cyfranogwyr cyn mis Ebrill 2020 i lai na saith y cant rhwng hynny a mis Hydref 2021.

2.35 Yn yr un modd, gostyngodd y ceisiadau am gyfleoedd hyfforddiant yn arw ar ôl mis Ebrill 2020, a dim ond yn rhannol y gwellodd y ffigurau ar ôl hynny.

**Crynodeb o’r Bennod**

I gyd, mae llai o bobl na’r disgwyl wedi ymuno â rhaglen PaCE. Roedd y cysylltiadau, serch hynny, yn sylweddol gryfach yng Ngorllewin Cymru a’r Cymoedd nag yn Nwyrain Cymru. Mae niferoedd y cyfranogwyr hefyd yn amrywio’n sylweddol o’r naill ardal awdurdod lleol i’r llall, gan adlewyrchu nifer o ffactorau, fel ansawdd y berthynas rhwng cynghorwyr PaCE a hyfforddwyr gwaith

y Ganolfan Byd Gwaith, i ba raddau y mae PaCE yn integreiddio â seilweithiau cynorthwyo teuluoedd ehangach, lefel y gwaith allgymorth a wnaed, a nifer y cynghorwyr a throsiant y staff. Efallai hefyd fod gwahaniaethau yn lefel y darpariaethau eraill ym maes cyflogadwyedd yn lleol wedi cyfrannu at hyn.

Er na osodwyd targedau ar gyfer cysylltiadau y tu hwnt i'r rheini ar gyfer pobl 25 oed a hŷn a'r rheini rhwng 16 a 24 oed:

- menywod fu mwyafrif llethol y cyfranogwyr
- mae mwyafrif y cyfranogwyr wedi bod rhwng 20 a 34 oed
- ac eithrio yng Nghaerdydd, mae nifer y cyfranogwyr sydd o gymunedau ethnig lleiafrifol wedi bod yn anghymesur o isel
- mae gan gyfran fymryn yn is o gyfranogwyr gyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio na'r gyfran ymhlith y boblogaeth yn gyffredinol
- mae mwyafrif helaeth y cyfranogwyr yn dod o aelwydydd un oedolyn
- nid oedd gan fwyafrif helaeth y cyfranogwyr gymwysterau uwchben lefel 2
- mae siaradwyr Cymraeg yn cynrychioli cyfran uwch o gyfranogwyr mewn rhai ardaloedd yn fwy nag eraill.

Gostyngodd y nifer a fu'n ymuno â PaCE yn arw yn sgil y pandemig COVID-19, a dim ond yn rhannol y mae'r ffigurau wedi adfer ers hynny. Ymhlith y ffactorau sy'n effeithio ar y lefelau cysylltiadau y mae 'cyfnodau clo' olynol, cau ysgolion a meithrinfeydd neu'u cau'n rhannol, a symud cynghorwyr PaCE i weithio mewn timau eraill pan oedd y pandemig ar ei anterth.

Amcangyfrifir bod y pandemig wedi arwain at sefyllfa lle gwnaeth 520 yn llai o unigolion ymuno â PaCE, ond hefyd at gynnydd yng nghyfran y cyfranogwyr a barhaodd i ymwneud â'r rhaglen am fwy na 12 mis.

Cafodd tua un rhan o bump o'r cyfranogwyr gymorth i dalu am gostau gofal plant, gyda thua thraean o'r rheini'n cael cymorth at ofal plant wrth iddynt bontio i waith.

Effeithiodd y pandemig COVID-19 yn andwyol ar y nifer a fanteisiodd ar gymorth at ofal plant a chyfleoedd hyfforddiant.

# 3. Deilliannau'r rhaglen

## Cyflwyniad

3.1 Yn y bennod hon rydym yn ystyried y gwahaniaeth a welodd y cyfranogwyr drwy gymryd rhan yn PaCE, ac yn trafod y deilliannau a gyflawnwyd gan grwpiau penodol o gyfranogwyr. Mae'r bennod hon wedi'i chyflwyno mewn chwe rhan fel a ganlyn:

- symud i mewn i waith neu hunangyflogaeth
- effaith y pandemig COVID-19 ar ddeilliannau cyflogaeth
- deilliannau gwirfoddoli
- symud i addysg neu hyfforddiant
- deilliannau o ran cymwysterau
- effeithiau ehangach PaCE.

## Symud i mewn i waith neu hunangyflogaeth


*Y perfformiad o dan y prif dargedau ar gyfer deilliannau swyddi*[27]

3.2 Roedd cyfanswm o 2,885 o gyfranogwyr PaCE wedi symud i mewn i waith erbyn mis Hydref 2021; 2,211 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 674 yn Nwyrain Cymru. Mae hyn yn cyfateb i 44 y cant o'r holl gyfranogwyr y gwnaeth y rhaglen ymwneud â hwy ac mae'n uwch na'r targed cyffredinol diwygiedig ar gyfer deilliannau swyddi, sef 36 y cant, sydd ei hun yn uwch na'r targed gwreiddiol ar gyfer deilliannau swyddi, sef 20 y cant.

3.3 Mae Ffigur 3.1 yn dangos bod y perfformiad o ran deilliannau swyddi wedi rhagori ar y targedau diwygiedig yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd ond wedi disgyn yn is yn Nwyrain Cymru. Roedd y perfformiad o ran cyfranogwyr 25 oed a hŷn (Blaenoriaeth 1) yn gryfach nag yn achos y rheini rhwng 16 a 24 oed (Blaenoriaeth 3), a hynny yn y naill ranbarth a'r llall.

[27] Rydym yn adrodd yma am gyfranogwyr sy'n symud i mewn i swyddi sy'n eu cyflogi am o leiaf 16 awr yr wythnos, yn unol â'r targedau a osodwyd ar gyfer y rhaglen. Mae ein hadroddiadau blaenorol, fodd bynnag, wedi dangos bod rhai cyn-gyfranogwyr wedi symud i mewn i swyddi a oedd yn golygu gweithio llai nag 16 awr yr wythnos. Nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn y ffigurau a gofnodir yma.

**Ffigur 3.1: Nifer y cyfranogwyr a gyflawnodd ddeilliannau swyddi yn ôl blaenoriaeth**




Ffynhonnell: Cronfa ddata'r cyfranogwyr ar 31 Hydref 2021

3.4 Mae Tabl 3.1 yn dangos bod cyfran hyd yn oed yn uwch o'r cyfranogwyr a gyfwelwyd yn ystod ein gwaith maes mewn gwaith neu'n hunangyflogedig (79 y cant), er ei bod yn debygol bod elfen o duedd yn sgil hunanddewis i'r sampl a gyfwelwyd, a bod cyfran holl gyfranogwyr PaCE sy'n symud i mewn i waith o bosibl wedi'i orddatgan o ganlyniad.

**Tabl 3.1: Hynt y cyfranogwyr a gyfwelwyd yn 2021**

| | Grŵp 1 | Grŵp 2 | Cyfanswm | % |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogedig | 14 | 15 | 29 | 69% |
| Hunangyflogedig | 1 | 3 | 4 | 10% |
| Mewn addysg/hyfforddiant | 1 | | 1 | 2% |
| Di-waith/economaidd anweithgar | 4 | 4 | 8 | 19% |
| Cyfanswm | 20 | 22 | 42 | 100% |

*Deilliannau swyddi yn ôl ardal awdurdod lleol*

3.5 Mae Tabl 3.2 yn dangos bod gwahaniaethau yng nghyfran y cyfranogwyr a wnaeth symud i mewn i waith o'r naill ardal awdurdod lleol i'r llall. Mae'n dangos bod y perfformiad o ran deilliannau swyddi ar y llwybr iawn i gyrraedd neu i ragori ar y targed diwygiedig (o 36 y cant yn gyffredinol) ar gyfer Blaenoriaeth 1 ym mhob ardal awdurdod lleol namyn un, tra bo'r perfformiad

ar y llwybr iawn i gyrraedd neu i ragori ar y targed diwygiedig ar gyfer Blaenoriaeth 3 mewn 14 ardal. Dim ond mewn un ardal y mae deilliannau swyddi Blaenoriaeth 3 yn is na'r proffil gwreiddiol.

**Tabl 3.2: Cyfran y cyfranogwyr a gyflawnodd ddeilliannau swyddi yn ôl ardal**[28]

| | B1 | B3 |
|---|---|---|
| Pen-y-bont ar Ogwr | 43% | 40% |
| Caerffili | 36% | 20% |
| Caerdydd | 36% | 35% |
| Sir Gâr | 44% | 41% |
| Ceredigion | 48% | 51% |
| Conwy | 47% | 41% |
| Sir Ddinbych | 51% | 39% |
| Sir y Fflint | 43% | 36% |
| Gwynedd | 60% | 53% |
| Ynys Môn | 40% | 39% |
| Sir Fynwy | 60% | 54% |
| Castell-nedd Port Talbot | 52% | 52% |
| Casnewydd | 45% | 32% |
| Sir Benfro | 26% | 18% |
| Powys | 45% | 39% |
| Rhondda Cynon Taf | 45% | 41% |
| Abertawe | 41% | 43% |
| Torfaen | 57% | 48% |
| Bro Morgannwg | 36% | 23% |
| Wrecsam | 46% | 34% |

Ffynhonnell: Cronfa ddata'r cyfranogwyr ar 31 Hydref 2021

*Deilliannau swyddi yn ôl hyd y cyfnod yn rhan o'r rhaglen*

3.6 O'r 2,885 o gyfranogwyr a wnaeth symud i mewn i swyddi, fe wnaeth pedair rhan o bump (81 y cant) hynny o fewn blwyddyn i ymuno â PaCE.


3.7 Mae Ffigur 3.2 yn dangos cyfran y cyfranogwyr a gyflawnodd ddeilliannau swyddi o fewn ffenestri amser o dri mis o dan Flaenoriaeth 1 a Blaenoriaeth 3. Mae'n dangos gostyngiad graddol yng nghyfran y cyfranogwyr sy'n symud i

[28] Mae'r symbolau Coch, Ambr, Gwyrdd a ddangosir yn dynodi:
Coch – y perfformiad o ran deilliannau swyddi o dan y targed o 20 y cant ar gyfer deilliannau swyddi a osodwyd ar gyfer PaCE yn wreiddiol
Ambr – y perfformiad o ran deilliannau swyddi rhwng 20 y cant a'r targed diwygiedig ar gyfer deilliannau swyddi, sef 36 y cant
Gwyrdd – y perfformiad o ran deilliannau swyddi wedi cyrraedd y targed diwygiedig (presennol) ar gyfer deilliannau swyddi, sef 36 y cant, neu'n uwch na'r targed

mewn i waith wrth iddynt dreulio mwy o amser yn rhan o'r rhaglen, er bod bron i draean y rheini sy'n treulio 19 mis neu ragor yn rhan o'r rhaglen hefyd yn symud i mewn i waith. Mae hyn yn awgrymu bod angen lefelau is o gymorth drwy PaCE ar y cyfranogwyr mwyaf cyflogadwy, tra bo angen cymorth dros gyfnod hwy ar y rheini sy'n wynebu rhwystrau mwy sylweddol wrth geisio cael gwaith.

3.8 Mae'n nodedig, fodd bynnag, fod maint y gostyngiad yng nghyfran y cyfranogwyr sy'n symud i mewn i waith wrth iddynt dreulio mwy o amser yn rhan o'r rhaglen yn sylweddol is erbyn 2021 nag oedd pan ddadansoddwyd deilliannau'r rhaglen am y tro cyntaf ym mis Mawrth 2018[29]. Gallai hyn fod yn sgil y twf cyflym mewn galw am lafur ac argaeledd grŵp o unigolion sy'n gymharol barod am waith wrth i gyfyngiadau COVID-19 gael eu llacio. Serch hynny, mae'n bosibl hefyd bod ffactorau eraill yn berthnasol, fel profiad cynghorwyr wrth helpu cyfranogwyr i symud i waith, newidiadau i'r rheolau ynghylch pwy sy'n gymwys i gael budd-daliadau (gan gynnwys cyflwyno'r Credyd Cynhwysol), a chyflwyno'r Cynnig Gofal Plant[30].

**Ffigur 3.2: Cyfran y cyfranogwyr a gyflawnodd ddeilliannau swyddi o fewn amserlenni penodol**





Ffynhonnell: Cronfa ddata'r cyfranogwyr ar 31 Hydref 2021

[29] Gwerthusiad o'r prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth: gwerthuso ar y broses a'r allbynnau
[30] Mae'r Cynnig Gofal Plant yn rhoi cymorth at gostau gofal plant i bobl sy'n gweithio ac sy'n rhieni i blant tair i bedair oed.

*Deilliannau swyddi yn ôl hyd y cyfnod yn ddi-waith*

3.9 Roedd hyd y cyfnod y bu'r cyfranogwyr yn ddi-waith cyn ymuno â PaCE hefyd yn dylanwadu ar sut roeddent yn symud i mewn i waith. Mae Ffigur 3.3 yn dangos bod dros hanner (55 y cant) y cyfranogwyr a oedd wedi bod yn ddi-waith am lai na 12 mis wedi symud i waith, gan ostwng i tua thraean (37 y cant) ymhlith y rheini nad oedd wedi gweithio am dros 5 mlynedd.

**Ffigur 3.3: Cyfran y cyfranogwyr a gyflawnodd ddeilliannau swyddi yn ôl hyd y cyfnod yn ddi-waith**





Ffynhonnell: Cronfa ddata'r cyfranogwyr ar 31 Hydref 2021

*Deilliannau swyddi yn ôl oedran*

3.10 Roedd cyfran y cyfranogwyr a oedd yn symud i mewn i swyddi yn amrywio yn ôl oedran, gyda 45 y cant o'r rheini a oedd yn 25 oed a hŷn (Blaenoriaeth 1) yn cael swyddi a 40 y cant o'r rheini a oedd rhwng 16 a 24 oed (Blaenoriaeth 3) yn gwneud hynny. Roedd pobl rhwng 16 ac 19 oed yn llai tebygol o symud i mewn i waith nag unrhyw grŵp oedran arall.

**Ffigur 3.4: Cyfran y cyfranogwyr a wnaeth symud i mewn i waith yn ôl oedran**




Ffynhonnell: Cronfa ddata'r cyfranogwyr ar 31 Hydref 2021

3.11 Mae Ffigur 3.4 yn dangos bod y tebygolrwydd o gael gwaith yn cynyddu'n raddol i gychwyn gydag oedran, gan gyrraedd y lefel uchaf ymhlith pobl rhwng 35 a 39 oed. Mae'n debygol bod y patrwm hwn yn rhannol adlewyrchu'r ffaith bod y plant dibynnol yn mynd yn hŷn, a chan hynny, bod cyfranogwyr hŷn yn wynebu llai o rwystrau wrth ddychwelyd i weithio. Serch hynny, mae'r gyfran sy'n cael gwaith yn sgil PaCE yn gostwng fymryn ymhlith gweddill y grwpiau oedran, er bod y rhain yn cynrychioli niferoedd cymharol fychain o gyfranogwyr PaCE.

*Deilliannau swyddi yn ôl ethnigrwydd*

3.12 I gyd, fe wnaeth 40 y cant o'r cyfranogwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol symud i mewn i waith, gyda chyfran uwch o'r rheini a oedd yn 25 oed a hŷn yn gwneud hynny (41 y cant) na chyfranogwyr rhwng 16 a 24 oed (33 y cant). Serch hynny, roedd cyfran y cyfranogwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol a oedd yn symud i mewn i waith yn is na'r ffigur o 44 y cant ymhlith yr holl gyfranogwyr.

*Deilliannau swyddi yn ôl cyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio*

3.13 Yn gyfrannol, roedd llai o gyfranogwyr a oedd â chyflwr iechyd neu anabledd a gyfyngai ar y gallu i weithio yn symud i mewn i waith, sef 33 y cant i gyd.


Yma, fodd bynnag, roedd cyfran uwch o gyfranogwyr a oedd rhwng 16 a 24 oed (38 y cant) na'r rheini a oedd yn 25 oed a hŷn (31 y cant) yn symud i mewn i waith.

*Deilliannau swyddi yn ôl lefel cymwysterau*

3.14 Roedd cyfranogwyr a oedd â gwell cymwysterau wrth ymuno â'r rhaglen yn gwneud yn well wrth ddod o hyd i waith na'r rheini heb gymwysterau neu'r rheini a oedd â chymwysterau lefel isel yn unig. Mae Ffigur 3.5 yn dangos, i gyd, bod 53 y cant o'r rheini a oedd â chymwysterau ar lefel 3 neu uwch wedi symud i mewn i waith, o'i gymharu â 38 y cant o'r rheini nad oedd â chymwysterau wrth ymuno â'r rhaglen. I ryw raddau, mae hyn yn adlewyrchu'r cyfraddau cyflogaeth cyffredinol uwch ymhlith unigolion sydd â gwell cymwysterau.

3.15 Mae'r graddiant cymwysterau-cyflogaeth yn arbennig o gryf ymhlith cyfranogwyr Blaenoriaeth 3. Mae hyn yn debygol o fod oherwydd nad oes gan gyfranogwyr iau sgiliau sydd wedi'u meithrin 'wrth wneud y swydd' yn ystod gwaith blaenorol, sef sgiliau y bydd cyfranogwyr hŷn yn meddu arnynt hyd yn oed os byddant hwythau heb gymwysterau neu â chymwysterau lefel isel yn unig.  Byddai hyn yn awgrymu, hyd yn oed pan fydd lefelau cyrhaeddiad addysgol unigolion yn is, fod bod yn 'gymwys drwy brofiad' yn eu gwneud yn fwy cyflogadwy.

**Ffigur 3.5: Deilliannau swyddi yn ôl lefelau cymwysterau wrth ymuno â'r rhaglen**




Ffynhonnell: Cronfa ddata'r cyfranogwyr ar 31 Hydref 2021

*Deilliannau swyddi yn ôl sgiliau Cymraeg*

3.16 I gyd, roedd 50 y cant o'r cyfranogwyr a oedd yn siarad Cymraeg wedi symud i mewn i waith, o'i gymharu â 44 y cant o'r holl gyfranogwyr. Roedd cyfranogwyr a siaradai Gymraeg yn fwy tebygol o symud i mewn i waith yn y rhan fwyaf o ardaloedd awdurdodau lleol, ac roedd hi'n ymddangos mai gwahaniaeth bach iawn yn unig y mae'r graddau y siaredir Cymraeg mewn cymuned yn ei wneud. Mae hyn o bosibl yn gysylltiedig â'r gwerth y mae cyflogwyr, ble bynnag y maent, yn ei roi ar sgiliau Cymraeg.

*Deilliannau swyddi yn ôl elfennau o gymorth PaCE*

3.17 Roedd perthynas rhwng ennill cymhwyster a/neu ardystiad yn gysylltiedig â gwaith a mymryn o welliant yn y deilliannau cyflogaeth ymhlith cyfranogwyr Blaenoriaeth 3 (pum pwynt canran i'r rheini a enillai gymhwyster a thri phwynt canran i'r rheini a gâi ardystiad yn gysylltiedig â gwaith), ond nid ymhlith cyfranogwyr hŷn Blaenoriaeth 1. Mae'n ymddangos bod hyn yn atgyfnerthu'r ddadl flaenorol bod profiad gwaith blaenorol yn ychwanegu at gyflogadwyedd cyfranogwyr hŷn, tra bo cymwysterau/ardystiadau yn bwysicach i unigolion iau sydd heb hanes o weithio'n llwyddiannus.

3.18 Roedd gwelliannau mwy o faint i'w gweld yn y deilliannau cyflogaeth ymhlith cyfranogwyr Blaenoriaeth 1 a Blaenoriaeth 3 yn gysylltiedig â chwblhau cyfleoedd gwirfoddoli. I gyd, roedd cwblhau gweithgareddau o'r fath yn gysylltiedig â chynnydd o 12 pwynt canran mewn deilliannau cyflogaeth. Roedd effaith gwirfoddoli yn fwy ymhlith cyfranogwyr Blaenoriaeth 1, lle'r oedd achub ar gyfle gwirfoddoli yn gysylltiedig â chynnydd o 13 pwynt canran mewn deilliannau cyflogaeth, o'i gymharu â chynnydd o 10 pwynt canran ymhlith cyfranogwyr Blaenoriaeth 3.

3.19 Roedd cael cymorth at ofal plant yn gysylltiedig â chynnydd o 15 pwynt canran mewn deilliannau cyflogaeth. Roedd yr effaith hon yn fwy ymhlith cyfranogwyr Blaenoriaeth 1 (16 pwynt canran) o'i chymharu â'r effaith ymhlith cyfranogwyr Blaenoriaeth 3 (11 pwynt canran). Yn Nwyrain Cymru, roedd cael cymorth at ofal plant yn gysylltiedig â chynnydd o 19 pwynt canran mewn deilliannau cyflogaeth. Roedd effaith y gofal plant hwn, serch hynny, wedi'i

seilio ar y rheini a gâi gymorth at gostau gofal plant ‘mewn gwaith’ yn hytrach na’r rheini a gâi gymorth at gostau gofal plant am resymau eraill, er enghraifft er mwyn cael hyfforddiant, mynychu cyfweliadau neu fagu profiad gwaith drwy wirfoddoli. Fel y trafodwyd yn y bennod flaenorol, roedd cyfranogwyr a oedd wedi cael cymorth at ofal plant ‘mewn gwaith’ yn dueddol o fod yn fwy cyflogadwy na chyfranogwyr PaCE yn gyffredinol, gan fod ganddynt well cymwysterau a’u bod wedi bod yn ddi-waith am gyfnodau byrrach na holl gyfranogwyr PaCE yn gyffredinol. Gan hynny, mae’n anodd asesu effaith cymorth at ofal plant ‘mewn gwaith’ ar ei ben ei hun ar ddeilliannau cyflogaeth y grŵp hwn.

*Nodweddion sy’n gysylltiedig â gwell deilliannau cyflogaeth*

3.20 Y broblem wrth gymharu grwpiau o gyfranogwyr PaCE yw y gallai’r gwahaniaethau sy’n dod i’r amlwg fod o ganlyniad i ffactorau eraill, y tu hwnt i’r rhai yr edrychir arnynt yn benodol. Er enghraifft, gallai cyfraddau is y pontio i waith ymhlith pobl o gymunedau ethnig lleiafrifol neu’r rheini sydd â chyflyrau iechyd sy’n cyfyngu ar y gallu i weithio fod yn sgil y lefelau cymwysterau is sydd gan grwpiau o’r fath. Yn yr un modd, gallai lefelau cyrhaeddiad addysgol uwch fod yn cyfrannu at berfformiad cyflogaeth da’r cyfranogwyr sy’n siarad Cymraeg.

3.21 Er mwyn rhoi sylw i ffactorau o’r fath, cynhaliwyd dadansoddiad amlamrywedd o’r data gweinyddol sy’n ein galluogi i roi ystyriaeth ar yr un pryd i effaith gwahanol nodweddion ar ba mor debygol yw hi y bydd y rheini a gefnogir drwy PaCE yn cael gwaith ar ôl cymryd rhan yn y rhaglen. Ar sail atchweliad logistaidd, roedd modd inni edrych ar wahanol nodweddion personol cyfranogwyr PaCE yn ogystal ag ar wahaniaethau yn natur y cymorth a roddwyd gan PaCE, cyn canfod effaith ar wahân ac effaith ychwanegol y rheini ar y tebygolrwydd y byddai’r cyfranogwyr hyn yn cael gwaith. Roedd y dadansoddiad wedi’i gyfyngu i gyfranogwyr a gafodd gymorth gan PaCE am y tro cyntaf cyn dechrau’r pandemig er mwyn diystyru’r newidiadau sylweddol a welwyd yn natur y cymorth y gallai PaCE ei roi ac yn natur y bobl a gyfranogodd (gweler yn nes ymlaen).

3.22 Mae llawer o’r canfyddiadau a gafwyd o’r dadansoddiad atchweliad yn cadarnhau’r rheini a drafodir uchod. Serch hynny, mae’r dadansoddiad atchweliad yn rhoi asesiad cywirach o’r gydberthynas rhwng nodwedd benodol a deilliannau cyflogaeth cleientiaid PaCE.

3.23 Gwelwyd bod cysylltiad rhwng y nodweddion canlynol a deilliannau cyflogaeth gwaeth:

- roedd unig rieni 17 y cant yn llai tebygol o gael gwaith na chyfranogwyr a oedd â phartneriaid
- roedd y rheini a oedd â chyflwr iechyd a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i weithio 48 y cant yn llai tebygol o gael gwaith na’r rheini heb gyflwr o’r fath
- roedd y rheini a oedd wedi bod yn ddi-waith am dros bum mlynedd 50 y cant yn llai tebygol o gael gwaith yn dilyn PaCE na’r rheini a oedd wedi bod yn ddi-waith am lai na blwyddyn[31].

3.24 Roedd cysylltiad rhwng y nodweddion canlynol a chynnydd yn y tebygolrwydd y byddai rhywun yn symud i mewn i waith:

- roedd y cyfranogwyr a oedd rhwng 30 a 40 oed yn fras tua 50 y cant yn fwy tebygol o gael gwaith yn dilyn PaCE na’r rheini a oedd rhwng 16 a 25 oed
- roedd cydberthynas gref rhwng lefelau’r cyrhaeddiad addysgol wrth ymuno â PaCE a deilliannau cyflogaeth: roedd y rheini a oedd â chymwysterau ar Lefel 3 neu uwch 46 y cant yn fwy tebygol o gael gwaith na’r rheini a oedd â chymwysterau ar Lefel 2 neu is
- ar ôl rhoi ystyriaeth i lefelau uwch eu cyrhaeddiad addysgol, roedd siaradwyr Cymraeg yn dal 25 y cant yn fwy tebygol o gael gwaith ar ôl PaCE na’r rheini nad oedd yn siarad Cymraeg
- roedd cysylltiad rhwng ennill ardystiad yn gysylltiedig â gwaith a chynnydd o 44 y cant yn y tebygolrwydd o gael gwaith
- roedd cysylltiad rhwng achub ar gyfle gwirfoddoli a chynnydd o 79 y cant yn y tebygolrwydd o gael gwaith ar ôl PaCE

[31] 17 y cant o’r rheini a oedd wedi bod yn ddi-waith am bum mlynedd neu ragor o’i gymharu ag 11 y cant o’r rheini a oedd wedi bod yn ddi-waith am lai na blwyddyn

- ar ôl rhoi ystyriaeth i nodweddion y rheini sydd wedi cymryd rhan yn y cynllun, amcangyfrifwyd bod y deilliannau cyflogaeth ar eu cryfaf yng Ngwynedd a Sir Fynwy: roedd y deilliannau gwaethaf ym Mro Morgannwg, Caerffili ac Ynys Môn.

*Natur y deilliannau swyddi*

3.25 Roedd yr Adroddiad Gwerthuso Profiadau a Deilliannau yn dweud bod tua hanner y cyfranogwyr a wnaeth symud i mewn i waith wedi cael swyddi ar lefel gymharol isel yn yr 'economi sylfaenol'[32]. Byddai dadansoddiad o gronfa ddata'r cyfranogwyr ym mis Hydref 2021 yn cadarnhau'r canfyddiad hwn: swyddi yn y sectorau gofalu, glanhau, lletygarwch/arlwyo a manwerthu oedd dros hanner y swyddi a gofnodwyd. Mae swyddi canolraddol ym maes gweinyddu, cymorth dysgu a gofal plant hefyd yn feysydd gwaith pwysig i gyn-gyfranogwyr PaCE, ac felly hefyd swyddi yn y sectorau trin gwallt a harddwch, gwerthu/gwasanaethau i gwsmeriaid a thrafnidiaeth. Roedd ein gwaith maes gyda chyfranogwyr yn cadarnhau pwysigrwydd swyddi yn yr economi sylfaenol i gyn-gyfranogwyr PaCE.

3.26 Roedd dros bedair rhan o bump (27/33[33]) y rheini a gafodd eu cyfweld ac a oedd wedi cael gwaith mewn swyddi parhaol, a dim ond llond llaw o unigolion a oedd ar gontractau dros dro.

*Pa mor gynaliadwy yw'r deilliannau swyddi*

3.27 Ar ôl symud i mewn i waith, byddai ein gwaith maes yn awgrymu bod cyn-gyfranogwyr PaCE yn dueddol o aros mewn gwaith, er y gallent newid eu swyddi. Roedd dros bedair rhan o bump (27/32) y rheini a oedd mewn gwaith pan gawsant eu cyfweld yn 2019 yn dal mewn gwaith yn 2021, ond dim ond hanner y rheini a oedd mewn gwaith yn 2019 a 2021 a oedd yn gwneud yr un swyddi. Mae'r amcangyfrifon swyddogol ar gyfer y DU[34] yn awgrymu mai dim ond tri y cant o weithwyr sy'n newid eu swyddi o'r naill chwarter i'r llall, sydd o

[32] Yr 'economi sylfaenol' yw'r term a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i ddisgrifio'r nwyddau a'r gwasanaethau sylfaenol y mae pob dinesydd yn dibynnu arnynt, ac mae'n cynnwys pethau fel gwasanaethau gofal ac iechyd, bwyd a chynnyrch manwerthu

[33] Gweler Tabl 3.1: roedd 29 o'r rheini a gafodd eu cyfweld yn gyflogedig ac roedd pedwar yn hunangyflogedig

[34] Amcangyfrifon llif Arolwg y Gweithlu: Tachwedd 2022

bosibl yn awgrymu bod y gwaith a gafodd rhai o gyn-gyfranogwyr PaCE yn gymharol ansefydlog.

3.28 Roedd cymhellion y rheini a gafodd eu cyfweld dros newid eu swyddi yn amrywio. Roedd rhai wedi symud i swyddi a oedd yn cynnig oriau mwy pendant neu fwy o hyblygrwydd, neu'n cyd-fynd yn well â'u cyfrifoldebau gofal plant. Roedd eraill wedi symud i swyddi a oedd yn talu'n well, yn rhoi manteision cyflogaeth gwell (e.e. tâl salwch, tâl gwyliau) a/neu yn cynnig gwell cyfleoedd i bobl symud yn eu blaenau'n llwyddiannus. Roedd eraill wedi symud i swyddi mwy diogel, gydag o leiaf un unigolyn yn dewis cael cyflog llai er mwyn gwneud hynny. Roedd un unigolyn wedi gorfod chwilio am waith gwahanol ar ôl i sefyllfa COVID-19 effeithio ar hyfywedd ei swydd flaenorol.

3.29 Roedd mwyafrif y rheini a gafodd eu cyfweld ac a oedd mewn gwaith yn fodlon â'u swyddi. Roedd y rhan fwyaf yn rhagweld y byddent yn aros yn yr un swydd am y chwe mis nesaf, o leiaf. Roedd y rheini a oedd yn llai bodlon â'u swyddi yn perthyn i ddau grŵp: y rheini a ddyheai am well swyddi neu a oedd wedi datblygu y tu hwnt i'w swyddi presennol, a'r rheini a deimlai bod eu swyddi'n rhy anodd neu'n eu rhoi dan ormod o straen.

3.30 Ar y cyfan, roedd y rheini a gyfwelwyd a oedd mewn gwaith yn ymddangos yn fodlon â'u hincwm, er y gallent 'wastad wneud â rhagor'. Roedd tair rhan o bump y rheini a oedd mewn gwaith yn 2019 a 2021 ac a oedd wedi datgan eu hincwm yn ystod y cyfweliad yn ennill mwy yn 2021 nag oeddent yn 2019, gyda rhai'n ennill mwy o ganlyniad i weithio mwy o oriau bob wythnos. Serch hynny, roedd dros hanner y rheini a wnaeth ddatgan eu hincwm yn ennill llai na £12,000 y flwyddyn (sydd bellach o dan y trothwy treth incwm) ac roedd y rhan fwyaf o'r rheini a gyfwelwyd yn dibynnu ar gredydau treth neu'r Credyd Cynhwysol yn ychwanegol at eu hincwm. Ar ôl dweud hynny, fodd bynnag, roedd yr unigolion dan sylw mewn sefyllfa well yn gweithio nag oeddent o'r blaen.


3.31 Roedd tair rhan o bump o'r rheini a gafodd eu cyfweld ac oedd mewn gwaith yn teimlo bod eu swyddi'n ddiogel. Roedd y rheini a deimlai fod eu swyddi'n llai diogel yn pryderu am amryw o bethau, gan gynnwys ansefydlogrwydd eu cyflogwyr neu'u hadrannau, disgwyliad y byddai swyddi gofalu personol yn

dod i ben, a phryderon cyffredinol am sicrwydd swyddi ar ôl cael eu gwneud yn ddi-waith yn y gorffennol. Efallai ei bod yn syndod nad oedd sefyllfa COVID-19 yn ymddangos ar y cyfan yn ffactor a oedd yn dylanwadu ar deimladau'r rheini a gafodd eu cyfweld ynghylch pa mor ddiogel oedd eu swyddi.

**Effeithiau pandemig y Coronafeirws ar ddeilliannau**

3.32 Effeithiodd pandemig COVID-19 ar niferoedd y cyfranogwyr a wnaeth symud i mewn i waith. Mae Ffigur 3.6 yn cymharu niferoedd cyfartalog misol y cyfranogwyr a oedd yn symud i mewn i waith rhwng mis Ionawr 2017 a mis Chwefror 2020 (erbyn hynny roedd y rhaglen wedi ennill ei phlwyf ac roedd patrwm cyson o ddeilliannau swyddi i'w weld), a'r niferoedd a symudodd i waith bob mis (fel y dangosa'r llinell) rhwng mis Ionawr 2020 a mis Medi 2021, pan oedd effeithiau'r pandemig yn amlwg i'w gweld.

**Ffigur 3.6: Nifer y cyfranogwyr a wnaeth symud i mewn i waith bob mis rhwng mis Ionawr 2020 a mis Medi 2021, o'i gymharu â'r niferoedd cyfartalog a wnaeth symud i mewn i waith bob mis rhwng mis Ionawr 2017 a mis Chwefror 2020**




Ffynhonnell: Cronfa ddata'r cyfranogwyr ar 31 Hydref 2021

3.33 Roedd yr effaith fwyaf yn ystod y 'cyfnod clo' cyntaf (rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2020), pan ostyngodd nifer y deilliannau swyddi i tua thraean y

deilliannau a gyflawnwyd dros y tair blynedd flaenorol. Roedd y niferoedd yn dal 25 y cant yn is na lefelau'r blynyddoedd blaenorol rhwng mis Awst 2020 a mis Ebrill 2021. Erbyn hynny roedd ysgolion cynradd wedi ailagor a'r rheol 'aros gartref' wedi'i llacio rywfaint. Mae hyn yn dangos bod cyfuniad o ffactorau'n cyfyngu ar allu cyfranogwyr i symud i mewn i waith: cau ysgolion a meithrinfeydd yn ysbeidiol neu'n rhannol gan ei gwneud hi'n anodd i rieni ymrwymo i weithio; a gorfodi cau busnesau mewn sectorau fel lletygarwch a manwerthu (nad yw'n hanfodol), a'r rheini'n rhoi llwybrau pwysig i waith i gyfranogwyr PaCE. Dechreuodd lefelau'r deilliannau swyddi wella o fis Ebrill 2021, ac am bum mis, roeddent yn uwch na'r lefelau a welwyd cyn y pandemig. Gostyngodd y nifer a oedd yn symud i mewn i waith fymryn o dan gyfartaledd y blynyddoedd blaenorol ym mis Medi 2021, o bosibl gan adlewyrchu'r anawsterau a wynebai rhieni wrth reoli heriau a oedd yn gysylltiedig â COVID-19 ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd.

3.34 Mae cymharu cyfraddau'r deilliannau swyddi cyn ac ar ôl y pandemig yn dangos gostyngiad o tua 10 pwynt canran i gyd. Serch hynny, y tu hwnt i'r brif lefel hon, mae'r deilliannau swyddi wedi bod yn arbennig o gryf ymhlith unigolion a gymerodd ran yn PaCE am gyfnod cymharol fyr yn ystod y pandemig. Er enghraifft, roedd unigolion a fu'n rhan o PaCE am hyd at dri mis ar ôl dechrau'r pandemig bron i naw pwynt canran yn fwy tebygol o symud i mewn i waith na'r rheini a oedd wedi cymryd rhan am gyfnod tebyg ac wedi symud i mewn i waith cyn mis Mawrth 2020. Mae'n rhy gynnar i lunio casgliadau pendant ynghylch y rhesymau dros hyn, ond mae'n debygol, o leiaf, o fod yn rhannol yn sgil gwahaniaethau yn nodweddion y cyfranogwyr. Er enghraifft, ers y pandemig:

- mae cyfran y cyfranogwyr sydd wedi bod yn ddi-waith am lai na blwyddyn wedi cynyddu o 25 y cant i 33 y cant
- bu gostyngiad yng nghyfran y cyfranogwyr sydd â lefelau isel o gyrhaeddiad addysgol: mae'r gyfran sydd â chymwysterau ar Lefel 2 neu is wedi gostwng fymryn, gyda'r gostyngiad amlycaf (chwe phwynt canran) ymhlith y rheini sydd heb gymwysterau neu heb gymwysterau uwchben lefel 1

- mae oedran y cyfranogwyr wedi cynyddu, gydag 80 y cant o'r cyfranogwyr dros 25 oed (Blaenoriaeth 1) ers y pandemig, tra mai 75 y cant oedd y ffigur cynt.

3.35 Gan edrych ar ganfyddiadau'r cyfweliadau â'r cyfranogwyr, effeithiodd y pandemig hefyd ar gyn-gyfranogwyr a oedd wedi symud i mewn i waith. I rai, golygai gynyddu'r oriau gweithio, yn sgil y cynnydd mewn galw am nwyddau/gwasanaethau, yn ogystal ag er mwyn llenwi yn absenoldeb cydweithwyr oherwydd salwch. O gyfuno hyn â chau/lleihau'r ddarpariaeth gofal plant a oedd ar gael yn lleol, golygai anawsterau mawr i rai o ran dod o hyd i ofal plant. Canfu llawer o unigolion eu hunain yn dibynnu'n drymach ar deulu a ffrindiau, gan gynnwys, mewn dau achos, dibynnu ar rieni oedrannus a oedd eu hunain yn agored i niwed yn sgil COVID-19.

3.36 Roedd modd i nifer bychan o'r rheini a gyfwelwyd weithio gartref – naill ai'r holl oriau gwaith, neu rai ohonynt. Yn ystod y cyfnod clo cyntaf yn enwedig, cyfunwyd hyn ag 'addysgu plant gartref' gan fod yr ysgolion ar gau. Disgrifiodd rhieni yr angen i gydbwyso addysgu eu plant gartref a gweithio fel rhywbeth a oedd yn gwneud iddynt 'golli arni', yn 'ddychrynllyd', ac yn 'uffern ar y ddaear', gydag unigolion yn sôn am 'weithio gyda'r nos' gan eu bod yn brysur yn gofalu am eu plant yn ystod y dydd.

3.37 Manteisiodd nifer bychan o rieni ar ddarpariaeth gofal plant gweithwyr allweddol/ysgolion, ond teimlai rhai o'r rheini a oedd yn gymwys i gael y ddarpariaeth hon ei bod yn rhy beryglus anfon eu plant i'r ysgol neu i gael gofal gan fod eu plant hefyd mewn cysylltiad â neiniau a theidiau a oedd yn agored i niwed. Dywedodd un unigolyn fod y gofal plant i weithwyr allweddol wedi'i gyfyngu, a bod hyn yn cyfyngu ar yr oriau yr oedd modd iddi eu gweithio.

3.38 Roedd pump o gyn-gyfranogwyr a oedd wedi'u cyfweld wedi'u rhoi ar ffyrlo o ganlyniad i'r pandemig COVID-19. Roedd un wedi cael 90 y cant o'i chyflog tra'r oedd ar ffyrlo, a'r gweddill wedi cael 80 y cant o'u henillion. Roedd unigolion eraill wedi parhau i weithio, ond gyda'r oriau wedi'u cwtogi, neu'n achos dau unigolyn hunangyflogedig, nid oedd modd iddynt fasnachu yn ystod y cyfnodau clo. Roedd yr unigolion a oedd wedi'u rhoi ar ffyrlo a'r rheini a oedd

yn gweithio llai o oriau wedi wynebu anawsterau ariannol yn y tymor byr, gydag unigolion yn sôn am fod ar ei hôl hi gyda thaliadau rhent ac am fod yn 'lwcus' i dderbyn pecynnau bwyd.

**Ffactorau sy'n rhwystro cyfranogwyr rhag symud i waith**

3.39 Roedd pedwar o'r wyth[35] unigolyn a oedd yn ddi-waith pan gynhaliwyd ein gwaith maes yn 2021 wedi bod mewn gwaith ond wedi colli'u swyddi. Mewn tri achos, roedd hyn yn rhannol yn sgil COVID-19 tra roedd un wedi cael anaf a gyfyngai ar ei allu i weithio.

3.40 Dyma'r prif rwystrau sydd ar hyn o bryd yn rhwystro'r rheini a gyfwelwyd ac a oedd yn ddi-waith rhag gweithio:

- problemau iechyd corfforol
- uchelgeisiau afrealistig/eu llygaid ar fathau penodol o waith
- problemau gofal plant, gan gynnwys mewn perthynas â phlant sydd ag anghenion ychwanegol e.e. plant anabl a phlant sydd ag Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd.

3.41 Roedd yn amlwg bod 'digwyddiadau bywyd' eraill yn rhwystro rhai rhag symud i waith neu aros mewn gwaith, gan gynnwys, er enghraifft, achosion cyfreithiol a oedd yn mynd rhagddynt ynghylch cyfrifoldeb dros blant a geni plant newydd. Nid oedd o leiaf un unigolyn yn chwilio am waith gan y teimlai y byddai hynny'n ei rhoi mewn sefyllfa ariannol waeth, tra roedd dau arall bellach yn byw â phartneriaid a oedd yn gweithio, ac nid oeddent eu hunain yn chwilio am waith.

3.42 Tra bo'r rhan fwyaf o'r rheini a oedd yn ddi-waith ar y pryd yn gadarnhaol ynghylch eu profiad o PaCE, nid oedd neb o'u plith wedi gofyn am ragor o gymorth gan eu cynghorwyr. Dim ond un o'r wyth unigolyn a gyfwelwyd a oedd yn chwilio am waith yn bwrpasol ar y pryd.

**Deilliannau profiad gwaith/gwirfoddoli**

3.43 I gyd, roedd tua chwech y cant o holl gyfranogwyr PaCE wedi cwblhau cyfnodau ar leoliadau gwirfoddoli, sy'n cyfateb i ryw 400 o unigolion. Mae hyn yn is na'r targed diwygiedig o 10 y cant y cytunwyd arno fel deilliant ar gyfer y

[35] Gweler Tabl 3.1

rhaglen[36]. Effeithiodd y pandemig (a arweiniodd at gyfnodau clo olynol a chyfyngu ar allu asiantaethau i gynnig cyfleoedd gwirfoddoli) ar allu cyfranogwyr i fynd ar leoliadau, a dim ond un y cant o'r cyfranogwyr a wnaeth ymuno â'r rhaglen ar ôl mis Ebrill 2020 a gwblhaodd gyfnod ar leoliad gwirfoddoli.

**Deilliannau addysg neu hyfforddiant**

3.44 Roedd cyfanswm o 81 o gyfranogwyr[37] (mymryn dros un y cant) wedi symud i mewn i addysg neu hyfforddiant ar ôl gadael PaCE[38]. Er bod y niferoedd yn isel yn y naill ranbarth a'r llall, roedd cyfran fymryn yn uwch o gyfranogwyr yn Nwyrain Cymru wedi symud i mewn i addysg/hyfforddiant nag yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.

**Cymwysterau neu ardystiadau sy'n gysylltiedig â gwaith a gyflawnwyd**

3.45 Roedd cyfanswm o 293 o gyfranogwyr wedi ennill cymhwyster o ganlyniad i gymryd rhan yn PaCE. Mae hyn yn cyfateb i tua phump y cant o'r holl gyfranogwyr, ac mae'n is na'r targed o 15 y cant a osodwyd ar gyfer y rhaglen. Roedd 688 (neu 11 y cant) o unigolion wedi cael ardystiadau'n gysylltiedig â gwaith nad oedd yn cael eu cydnabod o dan Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru, er bod rhai o'r rhain hefyd wedi ennill cymwysterau llawn.

**Effeithiau ehangach PaCE**

3.46 Mae camau gwerthuso blaenorol wedi dangos effeithiau ehangach PaCE ar gyfranogwyr a'u teuluoedd, y tu hwnt i ddeilliannau sy'n gysylltiedig â gwaith neu gymwysterau. Roedd y rhain yn cynnwys:

- i gyfranogwyr: mwy o hyder, ymdeimlad cryfach o ddiben a chyflawni, ymdeimlad cryfach o gysylltiad cymdeithasol, bod â mwy o arian, a bod yn batrymau i'w plant eu hefelychu

---

[36] Y bwriad yn wreiddiol oedd y byddai 30 y cant o gyfranogwyr Blaenoriaeth 1 yn cwblhau lleoliad profiad gwaith neu gyfle gwirfoddoli. Ni osodwyd targed o'r fath ar gyfer cyfranogwyr Blaenoriaeth 3.

[37] 58 o gyfranogwyr Blaenoriaeth 1 a 23 o gyfranogwyr Blaenoriaeth 3.

[38] Ni osodwyd targed ar gyfer nifer/cyfran y cyfranogwyr Blaenoriaeth 1 sy'n symud ymlaen i addysg neu hyfforddiant, ond cytunwyd ar darged diwygiedig o 65 o unigolion ar gyfer Blaenoriaeth 3.

- i deuluoedd cyfranogwyr: plant yn ffynnu o ganlyniad i gael gofal plant ffurfiol a mwy o strwythur i’w bywydau.

**Crynodeb o’r Bennod**

Mae cyfran sylweddol uwch na’r disgwyl o gyfranogwyr wedi symud i mewn i waith, gan ragori ar dargedau deilliannau swyddi gwreiddiol a diwygiedig y rhaglen. Mae’r perfformiad mewn perthynas â deilliannau swyddi wedi bod yn gryfach ymhlith cyfranogwyr 25 oed a hŷn nag ymhlith pobl rhwng 16 a 24 oed, a cheir amrywiadau hefyd wrth edrych ar gyfran y cyfranogwyr sy’n symud i mewn i swyddi o’r naill ardal i’r llall.

Roedd bron i hanner y cyfranogwyr a symudodd i mewn i swyddi yn gwneud hynny ar ôl bod yn rhan o PaCE am dri mis neu lai, ac roedd mwyafrif mawr o’r rheini a gafodd waith wedi cael y gwaith hwnnw o fewn blwyddyn i ymuno â’r rhaglen.

Ymhlith y ffactorau a oedd yn gysylltiedig ag unigolion yn symud i mewn i waith roedd:

- bod yn ddi-waith am gyfnodau byrrach cyn ymuno â PaCE
- bod â chymwysterau gwell
- bod yn siaradwyr Cymraeg
- bod rhwng 30 a 40 oed.

Ymhlith y ffactorau a oedd fel pe baent yn effeithio’n andwyol ar debygolrwydd cyfranogwyr o gael gwaith roedd:

- perthyn i gymunedau ethnig lleiafrifol
- bod â chyflwr iechyd/anabledd sy’n cyfyngu ar y gallu i weithio
- bod yn unig riant
- bod rhwng 16 a 25 oed
- bod yn ddi-waith am dros bum mlynedd.

Roedd cysylltiad rhwng deilliannau cyflogaeth a chyflawni cymwysterau a/neu ardystiadau yn gysylltiedig â gwaith, gwirfoddoli, a chael cymorth at gostau gofal plant.

Mae dros hanner y rheini sy'n symud i mewn i waith yn cael swyddi lefel mynediad yn yr 'economi sylfaenol', ac mae mwyafrif mawr yn cael contractau parhaol. Byddai ein gwaith maes yn awgrymu bod y rheini sy'n symud i mewn i waith yn dueddol o aros mewn gwaith, er y gallent newid swyddi, rhai am resymau cadarnhaol ac eraill o reidrwydd yn hytrach nag o ddewis.

Roedd mwyafrif y rheini a gafodd waith yn fodlon â'r swyddi a gawsant ac â'u henillion, er bod yr incwm a gaent ar y cyfan yn fychan, gan eu gadael i ddibynnu ar fudd-daliadau mewn gwaith. Roedd enillion mwyafrif bychan o'r unigolion wedi cynyddu dros gyfnod y gwerthusiad hwn.

Roedd y pandemig COVID-19 wedi effeithio'n ddifrifol ar ddeilliannau swyddi, gan arwain at ostyngiad o tua 10 pwynt canran i gyd. Er bod cyfraddau'r deilliannau swyddi wedi gwella rywfaint, gwelwyd y cynnydd mwyaf ymhlith cyfranogwyr sy'n meddu ar nodweddion a gysylltid o'r blaen â deilliannau swyddi, h.y. bod yn ddi-waith am gyfnodau byrrach, bod â mwy o gymwysterau, a bod fymryn yn hŷn. Effeithiodd y pandemig hefyd ar gyn-gyfranogwyr a oedd wedi symud i mewn i waith o'r blaen, gan effeithio ar eu patrymau gwaith a/neu eu gallu i ddibynnu ar ofal plant. I rai, roedd hyn wedi cael effaith ariannol ddilynol hefyd.

Mae'r perfformiad o dan y targedau ar gyfer deilliannau eraill wedi bod yn llai calonogol, gyda'r nifer sy'n cwblhau cyfleoedd gwirfoddoli, yn dechrau addysg neu'n ennill cymwysterau/ardystiadau'n gysylltiedig â gwaith yn is na'r targedau a osodwyd. Mae'n ymddangos bod hyn yn wendid yn y rhaglen a gymhlethwyd ymhellach gan effeithiau'r pandemig COVID-19.

Serch hynny, mae tystiolaeth bod PaCE wedi cael effeithiau cadarnhaol ehangach ar y cyfranogwyr a'u teuluoedd.

# 4. Y gwahaniaeth a wnaed gan PaCE: Ychwanegedd o ran cyflogaeth

### Cyflwyniad

4.1 Yn y bennod hon, rydym yn ceisio rhoi gwybodaeth am y gwahaniaeth a wnaed gan PaCE wrth helpu cyfranogwyr i symud i mewn i waith. Mae'r bennod hon wedi'i chyflwyno mewn pedair rhan fel a ganlyn:

- y dull o weithio a ddilynwyd
- rhoi cyd-destun i gyfranogwyr posibl PaCE
- deilliannau cyflogaeth sy'n nodweddiadol o gyfranogwyr posibl PaCE
- cymharu deilliannau cyflogaeth ymhlith cyfranogwyr PaCE â'r hyn y gellid ei ddisgwyl.

### Y dull gweithio a ddilynwyd

4.2 Mae modd asesu effeithiau'r rhaglen drwy gymharu deilliannau cyflogaeth cyfranogwyr PaCE a deilliannau cyflogaeth unigolion sydd â nodweddion tebyg yn y boblogaeth ehangach. Er mwyn gwneud hyn, fodd bynnag, mae angen deall nodweddion a llwybrau cyflogaeth y rheini yn y boblogaeth ehangach a fyddai'n gymwys i fod yn rhan o PaCE ac a allai, felly, elwa o'r rhaglen mewn egwyddor.

4.3 Mae dwy ffynhonnell ddata wedi'u defnyddio i wneud hyn: yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (APS) a'r Arolwg o'r Llafurlu (LFS)[39], gan gynnwys cyfnerthiadau sy'n benodol i Gymru a'r Alban, sef yr Arolwg Llafurlu Lleol (LLFS)[40].

4.4 Yn fras, mae'r APS yn cyfuno data o'r LFS a'r LLFS mewn un set ddata[41]. Mae sampl mwy o faint yr APS yn ei gwneud hi'n bosibl edrych ar sut y mae is-grwpiau o'r boblogaeth yn pontio i'r farchnad lafur. Mae hyn yn arbennig o bwysig ac ystyried mai nod PaCE yw cefnogi dau grŵp o rieni di-waith, a'r

[39] Yr LFS yw'r arolwg mwyaf o aelwydydd preifat yn y DU.

[40] Mae'r cyfnerthiadau hyn i'r samplau ar ffurf wahanol i'r prif LFS (sy'n chwarterol), lle caiff aelwydydd eu cadw yn rhan o'r arolwg am gyfanswm o bum chwarter neu flwyddyn. Yn yr LLFS, caiff unigolion eu harolygu'n flynyddol dros gyfnod o bedair blynedd. Fel yn achos y prif LFS, ceir elfen o gylchdroi oherwydd bob blwyddyn, bydd 25 y cant o'r arsylwadau'n cael eu newid. Felly, gellir arsylwi unigolion am gyfanswm o bedair blynedd drwy'r LLFS.

[41] Mae strwythur sampl yr APS wedi'i grynhoi yn Atodiad 3.

naill a’r llall yn ystyried mai gofal plant yw eu prif rwystr rhag cael gwaith a chyfleodd hyfforddiant: rhieni sy’n economaidd anweithgar a dros 25 oed (Blaenoriaeth 1) a rhieni ifanc rhwng 16 a 24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (Blaenoriaeth 3). Dylid nodi bod cyfranogwyr Blaenoriaeth 3 yn grŵp ehangach o bobl gan eu bod yn cynnwys unigolion di-waith yn ogystal â phobl sy’n economaidd anweithgar.

4.5 Mae’r dadansoddiad a gyflwynir fan hyn yn defnyddio data’r APS rhwng 2010 a 2020.

**Rhoi cyfranogwyr posibl PaCE yn eu cyd-destun**

4.6 Yn y rhan hon, rydym yn edrych ar nodweddion rhieni anghyflogedig yng Nghymru ac yn eu cymharu â’r bobl sydd wedi cyfranogi yn PaCE.

4.7 Gan ddefnyddio’r APS, mae Tabl 4.1 yn cyflwyno nifer yr oedolion anghyflogedig sydd â phlant dibynnol yng Nghymru. Mae unigolion o’r fath yn cynrychioli cyfranogwyr posibl PaCE a cheir 91,000 o bobl 25 oed a hŷn (cyfranogwyr Blaenoriaeth 1 posibl) ac 16,000 o unigolion 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (cyfranogwyr Blaenoriaeth 3 posibl).

4.8 Serch hynny, mae’r cyfranogwyr posibl hyn yn cynrychioli grwpiau amrywiol iawn o ran eu hagweddau at ddod o hyd i waith. Yn gyntaf, nid yw mwyafrif y rhieni di-waith a allai fod yn gymwys i fod yn rhan o PaCE yn dymuno gweithio (67 y cant o’r rheini sy’n 25 oed a hŷn a 52 y cant o’r rheini rhwng 16 a 24 oed). Mae’n bwysig gwahaniaethu wrth edrych ar y grŵp hwn, gan ei bod yn annhebygol y byddent yn chwilio am gymorth gan PaCE. Maent hefyd yn debygol o fod â chyfraddau pontio isel iawn i waith. Gan hynny, byddent yn rhan lai arwyddocaol o unrhyw grŵp cymharu wrth asesu pa mor effeithiol yw’r rhaglen.

4.9 Mae’r APS yn dangos y byddai llai na phedwar y cant o rieni 25 oed a hŷn yn dymuno gweithio ac yn chwilio am waith, o’i gymharu â 25 y cant o rieni rhwng 16 a 24 oed. Mae hyn yn adlewyrchu meini prawf cymhwysedd ehangach PaCE (Blaenoriaeth 3) ar gyfer rhieni ifanc, gyda’r rhaglen wedi’i hehangu i’r

rheini sy'n ddi-waith ac a ddylai, yn ôl y diffiniad[42], fod yn dymuno gweithio, yn chwilio am waith, ac ar gael i ddechrau gweithio. Dim ond rhieni sy'n economaidd anweithgar sy'n gymwys i gael cymorth o dan Flaenoriaeth 1, ac o ganlyniad, dim ond cyfran fechan iawn sy'n dweud eu bod yn chwilio am waith[43].

4.10 Y grŵp o rieni sy'n weddill y gellir ei enwi yw'r rheini sy'n dymuno gweithio ond nad ydynt yn chwilio am waith. Gall ymatebwyr gofnodi amrywiaeth o resymau dros beidio â chwilio am waith, gan gynnwys aros am ganlyniadau cais am swydd, bod yn sâl neu'n anabl, a chredu nad oes gwaith ar gael. Serch hynny, yng nghyd-destun PaCE, grŵp arwyddocaol iawn yw'r rhieni hynny sy'n dweud nad ydynt yn chwilio am waith gan eu bod yn edrych ar ôl y teulu neu'r cartref.  Ymhlith rhieni hŷn (Blaenoriaeth 1), dywed 17 y cant mai gofalu am y teulu neu'r cartref yw eu prif reswm dros beidio â chwilio am waith, tra mai'r ffigur cymharol ymhlith cyfranogwyr iau (Blaenoriaeth 3) yw 20 y cant.

4.11 Yn ôl yr LFS, yn achos yr holl ymatebwyr economaidd anweithgar a ddywedodd nad oeddent yn chwilio am waith gan eu bod yn gofalu am y teulu neu'r cartref, gofynnir cwestiwn dilynol iddynt yn gofyn a ydynt yn gofalu am blant o dan oedran ysgol neu blant eraill. Gofynnir cwestiwn pellach i'r rheini sydd â chyfrifoldebau gofalu o'r fath, sef a ydynt wedi penderfynu peidio â chwilio am waith gan nad oes gwasanaethau gofal plant ar gael neu gan nad oeddent yn gallu'u fforddio. Mae'r cwestiynau hyn (nad ydynt yn rhan o ddata'r APS) gan hynny yn gymorth i ganfod grŵp o rieni o boblogaeth ehangach y rhieni anghyflogedig a allai fod yn debyg i'r grŵp o gleientiaid a dargedir gan PaCE h.y., gofalu am blant yw'r prif reswm dros beidio â chwilio am waith ac mae absenoldeb neu ddiffyg fforddiadwyedd gwasanaethau gofal yn bwysig yn hyn o beth. Serch hynny, un o gyfyngiadau'r data a geir yn yr APS yw nad yw'r holl gwestiynau a geir yn yr LFS yn ymddangos yn ffeiliau data'r APS. Yn

[42] Gweler: Y 19eg Gynhadledd Ryngwladol o Ystadegwyr Llafur: Penderfyniad ynghylch ystadegau gwaith, cyflogaeth a thanddefnyddio llafur: t11

[43] Yn anffodus, yn yr APS, ni ofynnir cwestiynau pellach i'r rheini sy'n chwilio am waith (yn bennaf, pobl ddi-waith) ynghylch anawsterau posibl sy'n gysylltiedig â gofal plant. Gan hynny, nid yw'n bosibl pennu pa gyfran o'r grwpiau hyn sy'n ystyried absenoldeb gofal plant fel rhwystr i ganfod gwaith.

eu plith mae’r cwestiynau hynny yn yr LFS sy’n ymwneud yn benodol â gofal plant.

Tabl 4.1: Maint a Chyfansoddiad Oedolion Anghyflogedig sydd â Phlant Dibynnol (%)

| | **Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth** | | | | | | **Yr Arolwg o'r Llafurlu** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cymru** | | | **Prydain Fawr** | | | **Crynodeb sy'n Gyson â'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth** | | | **Crynodeb Manwl** | | |
| | **25+ Anweithgar (B1)** | **16-24 NEET (B3)** | **Cyfanswm** | **25+ Anweithgar (B1)** | **16-24 NEET (B3)** | **Cyfanswm** | **25+ Anweithgar (B1)** | **16-24 NEET (B3)** | **Cyfanswm** | **25+ Anweithgar (B1)** | **16-24 NEET (B3)** | **Cyfanswm** |
| Ddim eisiau gwaith | 66.7 | 52.3 | 64.5 | 70.2 | 54.2 | 68.6 | 73.6 | 53.4 | 71.3 | 73.6 | 53.4 | 71.3 |
| Eisiau gwaith, ddim yn chwilio | 12.7 | 2.9! | 11.2 | 10.1 | 2.9 | 9.4 | 8.7 | 2.7 | 8.0 | 8.7 | 2.7 | 8.0 |
| Eisiau gwaith, ddim yn chwilio, gofal yw'r prif reswm | 17.1 | 20.3 | 17.6 | 16.2 | 18.8 | 16.5 | 14.0 | 16.7 | 14.3 | | | |
| Eisiau gwaith ac yn chwilio am waith | 3.5 | 24.5 | 6.7 | 3.5 | 24.1 | 5.5 | 3.7 | 27.3 | 6.3 | **3.7** | **27.3** | 6.3 |
| Eisiau gwaith, ddim yn chwilio, gofal nad yw'n gysylltiedig â phlant yw'r prif reswm | | | | | | | | | | 2.0 | 0.0 | 1.8 |
| Eisiau gwaith, ddim yn chwilio, gofal plant yw'r prif reswm | | | | | | | | | | **5.6** | **5.9** | 5.6 |
| Eisiau gwaith, ddim yn chwilio, gofal plant yw'r prif reswm, gofal plant ddim ar gael | | | | | | | | | | **6.4** | **10.7** | 6.9 |
| Cyfanswm | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 |
| Poblogaeth (miloedd) | **91** | **16** | 107 | 2,021 | 253 | 2,274 | 1,946 | 241 | 2,188 | 1,946 | 241 | 2,188 |
| Sylfaen Gleientiaid Bosibl PaCE | 14,300 | 7,000 | 20,100 | | | | | | | | | |

Ffynhonnell: Ein hamcangyfrifon ein hunain yn deillio o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, 2011-2020.
! Mae'r eitem ddata wedi'i seilio ar rhwng tua 26 a 39 o ymatebion i'r arolwg, ac wedi'i chategoreiddio fel eitem o ansawdd cyfyngedig.

4.12 Cyfyngiad pellach ar ddata'r LFS yw maint llawer llai y samplau sydd ar gael ar gyfer Cymru, sy'n golygu mai dim ond edrych ar faint cymharol y grwpiau hyn ar lefel Prydain Fawr y gellir ei wneud. Ar ôl dweud hyn, fodd bynnag, mae dadansoddiad o'r APS yn awgrymu nad yw agweddau rhieni anghyflogedig yng Nghymru at waith yn wahanol i'r rheini ym Mhrydain Fawr yn ehangach, felly dylai'r dull hwn roi gwybodaeth ddefnyddiol.

4.13 Mae dadansoddiad o'r LFS yn dangos bod 12 y cant o'r rheini sy'n 25 oed a hŷn (cyfranogwyr posibl Blaenoriaeth 1) yn dweud mai cyfrifoldebau gofal plant yw eu prif reswm dros beidio â chwilio am waith, gyda'u hanner yn dweud nad oeddent yn chwilio am waith gan nad oedd gwasanaethau gofal plant ar gael neu gan nad oeddent yn gallu'u fforddio (6 y cant), a'r hanner yr arall yn dweud nad oedd gwasanaethau gofal plant yn broblem (6 y cant). Ymhlith rhieni iau (cyfranogwyr posibl Blaenoriaeth 3) mae 17 y cant yn dweud mai gofal plant yw eu prif reswm dros beidio â chwilio am waith. O blith y grŵp hwn, dywedodd 11 y cant nad oeddent yn chwilio am waith gan nad oedd gwasanaethau gofal plant ar gael, neu gan nad oeddent yn gallu'u fforddio. Gyda'i gilydd, gan hynny, mae'n ymddangos y byddai absenoldeb a/neu fforddiadwyedd gwasanaethau gofal plant yn fwy o rwystr i rieni ifanc sy'n chwilio am waith.

4.14 Yn ngoleuni'r ystyriaethau a drafodir uchod, mae ein hamcangyfrifon ar gyfer llwybrau cyflogaeth tebygol unigolion yn y boblogaeth ehangach sydd â nodweddion tebyg i gyfranogwyr PaCE yn canolbwyntio ar ddau grŵp:

- rhieni a fyddai'n dymuno gweithio ac sy'n chwilio am waith
- rhieni sy'n dymuno gweithio ond nad ydynt yn chwilio am waith oherwydd cyfrifoldebau gofal plant.

4.15 Drwyddo draw, mae'r dadansoddiad yn dangos bod tua 14,300 o rieni 25 oed a hŷn a 7,000 o rieni 15-24 oed yng Nghymru a allai berthyn i'r categorïau hyn bob blwyddyn ac a allai fod wedi perthyn i gwmpas rhaglen PaCE[44]. Cyn y pandemig, roedd PaCE yn cefnogi tua 1,200 o bobl bob blwyddyn, sy'n cynrychioli tua chwech y cant o'r unigolion a allai fod wedi bod yn gymwys.

4.16 Mae Tabl 4.2 yn ystyried nodweddion y ddau brif grŵp posibl hyn o gyfranogwyr PaCE. Oherwydd maint llai y grŵp iau o rieni anghyflogedig (cleientiaid posibl Blaenoriaeth 3), nid oes data ar gael o'r LFS ac mae'r dadansoddiad wedi'i gyfyngu i ddata llai manwl yr APS.

[44] Wedi'i gyfrifo drwy gymhwyso'r canrannau sy'n deillio o'r crynodeb manwl o ddata'r LFS (mewn print trwm yn Nhabl 4.1) i'r amcangyfrifon o boblogaeth y rhieni economaidd anweithgar 25 oed a hŷn (cleientiaid Blaenoriaeth 1 posibl) a rhieni 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (cleientiaid Blaenoriaeth 3 posibl) yng Nghymru, yn deillio o'r APS (mewn print trwm yn Nhabl 4.1).

Mae hyn yn golygu mai’r unig beth sy’n bosibl yw edrych ar nodweddion rhieni hŷn (cyfranogwyr posibl Blaenoriaeth 1) sy’n crybwyll yn benodol resymau sy’n ymwneud â gofalu am blant.

4.17 Ymhlith y cleientiaid iau posibl (Blaenoriaeth 3), mae dadansoddiad llai manwl yr APS yn dangos bod gwahaniaethau sylweddol yn nodweddion y rheini sy’n chwilio am waith a’r rheini nad ydynt yn chwilio am waith oherwydd cyfrifoldebau gofalu. Er enghraifft, mae’r rheini nad ydynt yn chwilio am waith:

- yn fwy tebygol o fod yn fenywod (98 y cant) na’r rheini sy’n chwilio am waith (72 y cant)
- yn fwy tebygol o fod yn unig rieni (60 y cant) na’r rheini sy’n chwilio am waith (51 y cant)
- yn fwy tebygol o fod â phlant iau (98 y cant) o gymharu â’r rhai sy’n chwilio am waith (89 y cant)
- yn fwy tebygol o fod yn dioddef o afiechyd sy’n gysylltiedig â gwaith (16 y cant) na’r rheini sy’n chwilio am waith (12 y cant)
- yn fwy tebygol o fod heb gymwysterau neu â chymwysterau gwael (80 y cant â chymwysterau ddim uwch na Lefel 2) na’r rheini sy’n chwilio am waith (75 y cant)
- yn llai tebygol o fod wedi bod yn gweithio yn ddiweddar (13 y cant wedi’u cyflogi yn y flwyddyn ddiwethaf) na’r rheini sy’n chwilio am waith (30 y cant).

4.18 O’u cymharu â rhieni iau (Blaenoriaeth 3 posibl), mae rhieni anghyflogedig hŷn (Blaenoriaeth 1 posibl) yn fwy tebygol:

- o fod mewn perthynas (70 y cant o’i gymharu â 45 y cant)
- o fod â phlant hŷn dibynnol (dim ond 55 y cant sydd â phlentyn 0-4 oed dibynnol o’i gymharu â 93 y cant o rieni iau)
- o ddioddef o afiechyd sy’n gysylltiedig â gwaith (18 y cant o’i gymharu ag 14 y cant)
- o fod â lefelau uwch o gyrhaeddiad addysgol (44 y cant gyda chymwysterau ar Lefel 3 neu uwch o’i gymharu â 23 y cant)
- o fod wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hwy (gyda 54 y cant wedi bod yn ddi-waith am 5 mlynedd neu ragor o’i gymharu â 23 y cant).

4.19 Fel y nodwyd uchod, ymhlith y grŵp hyn o gleientiaid PaCE posibl, prin yw’r rhai sy’n cofnodi eu bod yn chwilio am waith (pedwar y cant). Er bod eu bod yn llai niferus, mae rhieni yn y grŵp hwn yn fwy tebygol o fod wedi bod mewn gwaith yn ddiweddar (26 y cant wedi’u cyflogi yn y flwyddyn ddiwethaf o’i gymharu â 9 y cant nad oeddent wedi’u cyflogi) ac mae ganddynt gymwysterau gwell (51 y cant â chymwysterau ar Lefel 3 neu uwch o’i gymharu â 42 y cant nad oes ganddynt y cymwysterau hynny).

4.20 Mae data o’r LFS yn ein gadael i edrych ar nodweddion cymharol cleientiaid hŷn posibl PaCE mewn mwy o fanylder. Mae’n ein galluogi i ganfod y rheini sy’n dweud nad ydynt yn chwilio am waith gan eu bod yn gofalu am blant dibynnol, ac i ganfod ymhellach y rheini sy’n dweud nad ydynt yn chwilio am waith oherwydd argaeledd neu ddiffyg fforddiadwyedd gofal plant (mae’r rheini sy’n chwilio am waith hefyd wedi’u cadw er mwyn cymharu â’r LFS). Ceir rhai gwahaniaethau rhwng y rheini sy’n cyfeirio at ddiffyg gwasanaethau gofal plant a’r rheini nad ydynt yn gwneud hynny. Mae’r rheini sy’n crybwyll ‘gofal plant’ yn benodol yn fwy tebygol o fod yn unig rieni (35 y cant o’i gymharu â 24 y cant) ac o fod â phlant iau dibynnol (mae gan 72 y cant blant 0-4 oed o’i gymharu â 56 y cant sydd â phlant pump oed a hŷn), gan ddangos sut y mae’r gwasanaethau hynny’n bwysicach i unig rieni a’r rheini sydd â phlant o dan oedran ysgol.

**Tabl 4.2: Nodweddion Rhieni Anghyflogedig (%)**

| | Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth | | | | | | Yr Arolwg o'r Llafurlu | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 25+ Anweithgar (B1) | | | 16-24 NEET (B3) | | | 25+ Anweithgar (B1) | | | |
| | Eisiau gwaith, ddim yn chwilio, gofal yw'r prif reswm | Eisiau gwaith ac yn chwilio am amdano | Cyfanswm | Eisiau gwaith, ddim yn chwilio, gofal yw'r prif reswm | Eisiau gwaith ac yn chwilio amdano | Cyfanswm | Eisiau gwaith, ddim yn chwilio, gofal plant yw'r prif reswm | Eisiau gwaith, ddim yn chwilio, gofal plant yw'r prif reswm, gofal plant ddim ar gael | Eisiau gwaith ac yn chwilio amdano | Cyfanswm |
| **Rhywedd** | | | | | | | | | | |
| Gwrywod | 10.2 | 20.9 | 12.1 | 2.4 | 28.0 | 16.4 | 8.3 | 7.1 | 21.9 | 11.0 |
| Benywod | 89.8 | 79.1 | 87.9 | 97.7 | 72.0 | 83.6 | 91.7 | 92.9 | 78.1 | 89.0 |
| **Statws Teuluol** | | | | | | | | | | |
| Pâr | 71.4 | 65.5 | 70.4 | 40.5 | 49.5 | 45.4 | 75.8 | 65.2 | 65.7 | 69.1 |
| Sengl | 28.6 | 34.5 | 29.7 | 59.5 | 50.5 | 54.6 | 24.2 | 34.8 | 34.3 | 30.9 |
| **Oedran y Plentyn Ieuengaf** | | | | | | | | | | |
| 0-4 oed | 55.5 | 53.7 | 55.2 | 97.6 | 89.4 | 93.1 | 56.1 | 72.0 | 51.5 | 61.5 |
| 5-11 oed | 30.6 | 32.5 | 30.9 | 2.4 | 10.6 | 6.9 | 31.1 | 23.9 | 34.8 | 29.0 |
| 12-18 oed | 14.0 | 13.8 | 14.0 | | | | 12.8 | 4.2 | 13.8 | 9.5 |
| **Cyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio** | | | | | | | | | | |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nag oes | 82.4 | 78.1 | 81.6 | 84.1 | 87.7 | 86.0 | 82.7 | 82.5 | 81.0 | 82.3 |
| Oes | 17.7 | 21.9 | 18.4 | 16.0 | 12.3 | 14.0 | 17.3 | 17.5 | 19.0 | 17.8 |
| | | | | | | | | | | |
| **Amser ers y swydd ddiwethaf** | | | | | | | | | | |
| Llai na blwyddyn | 8.9 | 26.0 | 12.0 | 12.8 | 30.3 | 22.4 | 8.6 | 9.7 | 27.3 | 13.5 |
| 1-5 mlynedd | 33.6 | 37.6 | 34.3 | 58.1 | 51.0 | 54.2 | 31.2 | 39.5 | 36.7 | 35.9 |
| 5 mlynedd + | 57.5 | 36.5 | 53.8 | 29.1 | 18.6 | 23.4 | 60.2 | 50.8 | 35.9 | 50.6 |
| | | | | | | | | | | |
| **Cyrhaeddiad Addysgol** | | | | | | | | | | |
| NQF Lefel 4+ | 26.1 | 35.7 | 27.8 | 4.2 | 6.0 | 5.2 | 31.9 | 24.0 | 35.3 | 29.5 |
| NQF Lefel 3 | 16.1 | 15.3 | 15.9 | 15.3 | 19.3 | 17.5 | 13.6 | 16.6 | 15.3 | 15.2 |
| NQF Lefel 2 | 18.9 | 17.9 | 18.7 | 31.1 | 29.8 | 30.4 | 16.8 | 21.1 | 18.3 | 18.9 |
| NQF o dan Lefel 2 | 18.5 | 15.0 | 17.9 | 27.5 | 25.6 | 26.5 | 17.1 | 18.4 | 14.3 | 17.0 |
| Arall | 7.8 | 7.8 | 7.8 | 4.9 | 4.9 | 4.9 | 7.3 | 7.5 | 7.2 | 7.3 |
| Dim | 12.4 | 8.0 | 11.6 | 16.7 | 14.1 | 15.3 | 13.1 | 12.4 | 9.6 | 12.0 |
| | | | | | | | | | | |
| Cyfanswm | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 |

Ffynhonnell: Ein hamcangyfrifon ein hunain yn deillio o’r APS, 2011-2020.

4.21 Mae Tabl 4.3 yn dangos sut mae nodweddion y cyfranogwyr PaCE posibl hyn fel y'u nodwyd yn yr APS yn cymharu'n fras â nodweddion gweladwy cleientiaid PaCE gwirioneddol. Gellir gweld mai'r gwahaniaeth mwyaf arwyddocaol rhwng y ddau grŵp hyn yw'r gyfran uwch o lawer o gyfranogwyr PaCE 25 oed a hŷn (Blaenoriaeth 1) sy'n rhieni unigol (82 y cant) o gymharu â'r boblogaeth ehangach o rieni di-waith o'r oed yma (30 y cant). Yn gysylltiedig â hyn mae'r canfyddiad bod menywod hefyd yn cael eu gorgynrychioli ymhlith cyfranogwyr PaCE o gymharu â'r boblogaeth ehangach o rieni di-waith.

**Tabl 4.3: Cymharu Cyfranogwyr PACE â Rhieni Tebyg Di-gyflogedig**

| | **PACE** | | **APS** | |
|---|---|---|---|---|
| | 25+ Anweithgar (B1) | 16-24 NEET (B3) | 25+ Anweithgar (B1) | 16-24 NEET (B3) |
| **Rhywedd** | | | | |
| Gwrywod | 93.6 | 97.8 | 87.9 | 83.6 |
| Benywod | 6.4 | 2.2 | 12.1 | 16.4 |
| | | | | |
| **Statws Teuluol** | | | | |
| Pâr | 18.3 | 17.7 | 70.4 | 45.4 |
| Sengl | 81.7 | 82.3 | 29.7 | 54.6 |
| | | | | |
| **Cyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio** | | | | |
| Nag oes | 85.4 | 90.0 | 81.6 | 86.0 |
| Oes | 14.6 | 10.0 | 18.4 | 14.0 |
| | | | | |
| **Cyrhaeddiad Addysgol** | | | | |
| Dim | 7.2 | 7.6 | 11.6 | 15.3 |
| Arall | | | 7.8 | 4.9 |
| < Lefel 2 | 17.8 | 24.9 | 17.9 | 26.5 |
| Lefel 2 | 41.5 | 49.8 | 18.7 | 30.4 |
| Lefel 3 | 20.7 | 14.7 | 15.9 | 17.5 |
| Lefel 4+ | 12.8 | 2.9 | 27.8 | 5.2 |
| | | | | |
| **Amser ers y swydd ddiwethaf** | | | | |
| Llai na blwyddyn | 27.5 | 22.9 | 12.0 | 22.4 |
| 1-5 mlynedd | 43.0 | 60.9 | 34.3 | 54.2 |
| 5 mlynedd + | 29.5 | 16.1 | 53.8 | 23.4 |
| | | | | |
| Cyfanswm | 100 | 100 | 100 | 100 |

4.22 Mae cymharu lefelau cymwysterau presennol yn uniongyrchol yn broblem oherwydd y gwahanol fframiau codio a ddefnyddir yn yr APS a chofnodion cleientiaid PaCE. Ymddengys bod y data sydd ar gael yn awgrymu bod cleientiaid PaCE yn cymharu'n ffafriol â'r boblogaeth ehangach o rieni di-waith o ran eu bod yn ymddangos yn llai tebygol o fod heb unrhyw gymwysterau. O ran eu profiad diweddar o gyflogaeth, mae'n ymddangos bod cyfranogwyr iau PaCE (Blaenoriaeth 3) yn debyg i'r boblogaeth ehangach o rieni 16-24 oed sy'n NEET. Fodd bynnag, ymhlith y grŵp cyfranogwyr hŷn (Blaenoriaeth 1), gellir gweld bod y ganran sydd wedi bod yn ddi-waith am bum mlynedd neu fwy (30 y cant) yn llawer is na'r hyn a ddangoswyd ymhlith rhieni di-waith economaidd anweithgar 25 oed a throsodd.

**Deilliannau cyflogaeth ymhlith cyfranogwyr posibl PaCE**

4.23 Mae'r dadansoddiad wedi dangos amgylchiadau amrywiol a nodweddion rhieni a allai fod yn rhan o gwmpas rhaglen PaCE. Mae'r rheini sy'n dweud nad ydynt yn chwilio am waith oherwydd cyfrifoldebau gofalu yn wahanol i'r rheini sy'n chwilio am waith. Mae rhieni hŷn a allai gael eu cynorthwyo o dan Flaenoriaeth 1 y rhaglen yn wahanol i rieni iau y gellir eu cynorthwyo o dan Flaenoriaeth 3. Mae'r rheini sy'n dweud mai diffyg gwasanaethau gofal plant neu ddiffyg fforddiadwyedd y gwasanaethau hynny yw'r rheswm dros beidio â chwilio am waith hefyd yn wahanol i'r rheini sy'n dweud yn syml eu bod yn gofalu am blant. Mae angen ystyried yr holl ffactorau hyn wrth asesu pa mor effeithiol yw PaCE wrth gynorthwyo pobl i gael gwaith ac wrth bennu pa grŵp o rieni anghyflogedig sy'n cynrychioli sefyllfa wrthffeithiol cyfranogwyr PaCE orau.

4.24 Mae Tabl 4.4 yn rhoi tystiolaeth o lwybrau cyflogaeth sy'n nodweddiadol o'r gwahanol grwpiau hyn ar sail data hydredol yr APS a'r LFS. Mae'r data hyn yn ein galluogi i greu darlun o'r modd y bydd pobl yn pontio i waith dros gyfnod o 12 mis, a hynny'n nodweddiadol o grwpiau o rieni sy'n debyg i gleientiaid PaCE, gan roi meincnod posibl ar gyfer asesu'r cofnodion sy'n dangos sut y mae cleientiaid PaCE yn pontio i waith. Dim ond gan ddefnyddio data ar gyfer Prydain Fawr gyfan y gellir creu darlun manwl o'r fath.

**Tabl 4.4: Sefyllfa Flynyddol Rhieni Anghyflogedig sy’n Pontio i Waith (%)**

| | Yr Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth | | | Yr Arolwg o’r Llafurlu | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **25+** | **16-24** | **Cyfanswm** | **25+** | **16-24** | **Cyfanswm** |
| | **Anweithgar (B1)** | **NEET (B3)** | | **Anweithgar (B1)** | **NEET (B3)** | |
| Ddim eisiau gwaith | 12.2 | 10.2 | 12.1 | 11.1 | 10.0 | 11.1 |
| Eisiau gwaith, ddim yn chwilio | 14.7 | 26.8 | 15.0 | 13.1 | 27.7! | 13.5 |
| Eisiau gwaith, ddim yn chwilio, gofal yw’r prif reswm | 15.8 | 12.7 | 15.5 | 15.9 | 12.5 | 15.5 |
| Eisiau gwaith, ddim yn chwilio, gofal nad yw’n gysylltiedig â phlant yw’r prif reswm | | | | 14.9 | | 14.9 |
| Eisiau gwaith, ddim yn chwilio, gofal plant yw’r prif reswm | | | | 14.8 | 6.7 | 14.0 |
| Eisiau gwaith, ddim yn chwilio, gofal plant yw’r prif reswm, gofal plant ddim ar gael | | | | 17.1 | 15.3 | 16.8 |
| Eisiau gwaith ac yn chwilio amdano | 39.7 | 31.9 | 36.6 | 37.2 | 36.0 | 36.7 |
| Cyfanswm | 14.2 | 16.4 | 18.6 | 13.0 | 18.6 | 13.5 |

Ffynhonnell: Ein hamcangyfrifon ein hunain yn deillio o’r Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth, 2011-2020.
! Mae’r eitem ddata wedi’i seilio ar rhwng tua 26 a 39 o ymatebion i’r arolwg, ac wedi’i chategoreiddio fel eitem o ansawdd cyfyngedig.

4.25 Ar sail data’r APS, mae’r cyfraddau uchaf sy’n pontio i waith i’w gweld ymhlith y rheini sy’n dymuno gweithio ac sy’n chwilio am waith. Byddai disgwyl i tua 40 y cant o rieni hŷn yn y grŵp hwn ddechrau gweithio dros gyfnod o 12 mis. Ymhlith rhieni iau, mae’r ffigur hwn yn gostwng i bron draean. Yng nghyd-destun y ffaith y gall sylfaen gleientiaid bosibl PaCE yn achos rhieni iau (Blaenoriaeth 3) gynnwys y rheini sy’n ddi-waith, mae hyn yn bwysig gan ei fod yn dangos y gall rhieni economaidd anweithgar a fyddai’n dymuno gweithio fod â chyfraddau pontio i waith sy’n cymharu â’r rheini a welir ymhlith grŵp sy’n cynnwys rhieni economaidd anweithgar a rhieni di-waith ill dau.  Yn gryno, ceir is-setiau o’r boblogaeth economaidd anweithgar sy’n debyg i’r di-waith o ran sut y maent yn pontio i waith.

4.26 Ymhlith y bobl economaidd anweithgar nad ydynt yn chwilio am waith gan eu bod yn gofalu am y teulu neu'r cartref, mae Tabl 4.4 yn dangos y byddai disgwyl gan amlaf i 16 y cant o rieni hŷn ac 13 y cant o rieni ifanc gael gwaith dros gyfnod o 12 mis, ar sail data'r APS. Pan edrychir ar y grŵp hwn yn fanylach gan ddefnyddio data'r LFS er mwyn gwahaniaethu a chanfod y rhai sy'n crybwyll yn benodol eu bod yn gofalu am blant, ceir rhywfaint o awgrym bod y rheini sy'n dweud bod diffyg gwasanaethau gofal plant yn eu rhwystro rhag chwilio am waith yn fwy tebygol o gael gwaith dros gyfnod o 12 mis na'r rheini sydd ond yn dweud bod gofalu am blant yn cyfyngu arnynt. Mae hyn i'w weld yn benodol ymhlith rhieni iau. Nid yw'r rhesymau dros hyn yn glir ond gallai ddangos bod y rheini sy'n mynegi barn am wasanaethau gofal plant yn nes at y farchnad lafur yn sgil y ffaith eu bod wedi ymchwilio i'r mater. Serch hynny, mae'r gwahaniaethau hyn yn fychan o'u cymharu â'r cyfraddau uchel sy'n pontio i waith ymhlith y rheini sy'n dymuno gweithio ac sy'n chwilio am waith.

4.27 Mae Tabl 4.5 yn dangos bod y cyfraddau pontio i waith ymhlith rhieni nad ydynt yn gweithio yn wahanol, yn dibynnu ar amrywiaeth o nodweddion personol. Dim ond gyda'r samplau mwy o faint a geir drwy'r APS y gellir gwneud y dadansoddiad hwn, ac felly, nid yw'n bosibl cyflwyno'n gywir beth yw deilliannau cyflogaeth y rheini sy'n gofalu am blant, er ei bod yn glir bod hyn i raddau helaeth yn wir ymhlith y rhieni hyn. O blith y rheini sy'n dweud nad ydynt yn chwilio am waith gan eu bod yn gofalu am y teulu neu'r cartref, amcangyfrifir bod cyfraddau'r rheini sy'n llwyddo i gael gwaith dros gyfnod o 12 mis:

- yn uwch ymhlith menywod na dynion (16 y cant o'i gymharu â 13 y cant)
- yn uwch ymhlith y rheini sydd â phartneriaid (17 y cant) na'r rheini sy'n sengl (12 y cant)
- yn uwch ymhlith y rheini nad ydynt yn dioddef o afiechyd sy'n gysylltiedig â gwaith (16 y cant) na'r rheini sydd ag afiechyd o'r fath (13 y cant)

**Tabl 4.5: Nodweddion Personol a Phontio i Waith: Yr APS o'i Gymharu â PaCE (%)**

| | Eisiau gwaith, ddim yn chwilio, gofal yw'r prif reswm | Eisiau gwaith ac yn chwilio amdano | Pawb | PaCE |
|---|---|---|---|---|
| **Rhyw** | | | | |
| Gwrywod | 12.9 | 42.8 | 26.1 | 44.0 |
| Benywod | 15.8 | 34.9 | 20.1 | 46.3 |
| **Sylfaen Gleientiaid Bosibl PaCE** | | | | |
| 16-24 NEET (B3) | 12.7 | 31.9 | 23.4 | 40.4 |
| 25+ Anweithgar(B1) | 15.8 | 39.7 | 20.3 | 45.3 |
| **Statws Teuluol** | | | | |
| Pâr | 17.0 | 41.4 | 22.5 | 44.7 |
| Sengl | 12.2 | 29.4 | 17.5 | 44.0 |
| **Cyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio** | | | | |
| Oes | 16.1 | 39.4 | 22.0 | 45.9 |
| Nag oes | 12.9 | 22.9 | 15.3 | 32.6 |
| **Cyrhaeddiad Addysgol** | | | | |
| NQF Lefel 4+ | 20.5 | 49.9 | 28.1 | 55.3 |
| NQF Lefel 3 | 17.3 | 35.2 | 22.1 | 51.0 |
| NQF Lefel 2 | 17.0 | 33.6 | 21.7 | 42.8 |
| NQF o dan Lefel 2 | 11.3 | 33.8 | 16.7 | 36.6 |
| Arall | 13.8 | 30.7 | 17.5 | |
| Dim | 8.3 | 19.8 | 10.7 | 37.7 |
| **Amser ers y swydd ddiwethaf** | | | | |
| Llai na blwyddyn | 32.3 | 52.9 | 42.2 | 55.4 |
| 1-5 mlynedd | 17.8 | 34.1 | 22.8 | 41.9 |
| 5 mlynedd + | 11.2 | 26.5 | 13.5 | 36.8 |
| Cyfanswm | 15.5 | 36.6 | 20.8 | 44.1 |

Ffynhonnell: Ein hamcangyfrifon ein hunain yn deillio o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, 2011-2020.

! Mae'r eitem ddata wedi'i seilio ar rhwng tua 26 a 39 o ymatebion i'r arolwg, ac wedi'i chategoreiddio fel eitem o ansawdd cyfyngedig.

4.28 Mae graddiant amlwg i'w weld hefyd o ran y cyfraddau pontio uwch i waith ymhlith y rheini sydd â lefelau uwch o gyrhaeddiad addysgol na'r rheini sydd wedi bod mewn gwaith yn fwy diweddar.

4.29 Fel y disgrifir uchod, mae'r cyfraddau pontio i waith ar y cyfan yn uwch o lawer ymhlith y rheini sy'n dweud y byddent yn dymuno gweithio ac sy'n chwilio am waith. Ymhlith y grŵp hwn, mae'r cyfraddau sy'n llwyddo i gael gwaith drachefn:

- yn uwch ymhlith y rheini sydd â phartneriaid (41 y cant) na'r rheini sy'n rhieni sengl (29 y cant)
- yn uwch ymhlith y rheini nad ydynt yn dioddef o gyflwr iechyd sy'n gysylltiedig â gwaith (39 y cant) na'r rheini sydd â chyflwr o'r fath (23 y cant).

4.30 Mae'r rheini sydd â lefelau uwch o gyrhaeddiad addysgol a'r rheini sydd wedi bod mewn gwaith yn fwy diweddar hefyd yn fwy tebygol o lwyddo i gael gwaith dros gyfnod o 12 mis. Ymhlith y grŵp hwn, mae'n ymddangos bod effaith rhywedd yn groes, ac mae dynion yn fwy tebygol o gael gwaith (43 y cant) na menywod (35 y cant).

**Cymharu deilliannau cyflogaeth ymhlith cyfranogwyr PaCE â'r hyn y gellid ei ddisgwyl**

4.31 Mae'r golofn olaf yn Nhabl 4.5 yn cyflwyno'r cyfraddau sy'n llwyddo i gael gwaith ymhlith cyfranogwyr PaCE. Er bod ymdrechion wedi'u gwneud i gymharu'r rheini sy'n rhannu nodweddion tebyg, rhaid cydnabod nad yw'r rhain yn cymharu tebyg â'u tebyg. Mae'r rheini sy'n pontio i waith yn ôl yr APS yn cynrychioli'r rheini a welir dros gyfnod o 12 mis. Mae'r rheini a welir yng nghofnodion gweinyddol PaCE, ar y llaw arall, yn cofnodi'n syml hynt gychwynnol cyfranogwyr PaCE wrth iddynt adael y rhaglen. Nid yw'n hysbys beth fyddai sefyllfa waith cyfranogwyr PaCE pe bai hynny'n cael ei fesur 12 mis ar ôl iddynt ddechrau ar y rhaglen.

4.32 Drwyddi draw, cofnodir bod 44 y cant o gyfranogwyr PaCE wedi llwyddo i gael gwaith. Yn gyson â data'r APS a gyflwynir yn Nhabl 4.3, mae'r cyfraddau sy'n pontio i waith ymhlith cyfranogwyr PaCE yn uwch ymhlith cyfranogwyr

Blaenoriaeth 1 (45 y cant) o'u cymharu â chyfranogwyr iau Blaenoriaeth 3 (40 y cant).

4.33 O ran asesu effaith PaCE, y peth pwysig yw pa grŵp o ymatebwyr yn yr APS sy'n adlewyrchu agosaf sefyllfaoedd cyfranogwyr PaCE, a thrwy hynny'n cynrychioli'r grŵp mwyaf addas at ddibenion cymharu. Cofnodir bod yr holl gyfranogwyr ar gronfa ddata rhaglen PaCE, bron iawn, yn economaidd anweithgar. Os ystyrir bod cyfranogwyr PaCE yn grŵp o rieni sy'n dymuno gweithio ac sy'n chwilio am waith wrth ymuno â'r rhaglen, yna byddem yn disgwyl gweld 37 y cant o rieni o'r fath yn cael gwaith dros gyfnod o 12 mis. Byddai'r enillion ym maes cyflogaeth sy'n gysylltiedig â chymryd rhan yn PaCE yn gynnydd o tua 7 pwynt canran.

4.34 Ar y llaw arall, os yw PaCE yn cynorthwyo rhieni sy'n dymuno gweithio ond nad ydynt yn chwilio am waith gan eu bod yn gofalu am y teulu neu'r cartref (h.y. yn gofalu), yna byddai'r enillion ym maes cyflogaeth sy'n gysylltiedig â'r rhaglen yn fwy o lawer. Mae APS yn awgrymu y byddem gan amlaf yn disgwyl gweld 16 y cant yn unig o gyfranogwyr o'r fath yn cael gwaith mewn cyfnod o 12 mis. Gan hynny, byddai'r enillion ym maes cyflogaeth sy'n gysylltiedig â chymryd rhan yn PaCE yn gynnydd o tua 28 pwynt canran.

4.35 Nid yw'r canlyniad hwn yn newid yn arw o ddefnyddio data'r LFS i edrych ar sefyllfaoedd y rheini sy'n crybwyll yn benodol rwystrau'n gysylltiedig â gofal plant, ac ymhlith y rhain, byddem gan amlaf yn disgwyl i 17 y cant gael gwaith mewn cyfnod o 12 mis. Serch hynny, os yw PaCE yn cefnogi rhai rhieni sy'n datgan nad ydynt yn dymuno gweithio ac nad ydynt yn chwilio am waith, byddai hynny'n cynyddu effaith y rhaglen, gan na fyddai disgwyl i ddim ond 12% o rieni o'r fath gael gwaith mewn cyfnod o 12 mis. Yn ymarferol, wrth gwrs, mae rhaglen PaCE yn cynorthwyo rhyw gyfuniad o'r holl grwpiau hyn.

4.36 Mae effaith gyffredinol PaCE, gan hynny, yn dibynnu ar gyfansoddiad y sylfaen gleientiaid o ran y cyfrannau sy'n dymuno gweithio ac sy'n chwilio am waith. Mae dadansoddiadau blaenorol wedi dangos bod sylfaen gleientiaid PaCE yn cynrychioli cyfran fechan iawn o'r rheini a allai fod yn gymwys i gymryd rhan yn y rhaglen. Gan hynny, ni fyddai'n addas tybio bod

cyfansoddiad sylfaen gleientiaid PaCE yn gyson â dosbarthiad y gwahanol gategorïau o rieni economaidd anweithgar a gyflwynir yn Nhabl 4.1.

4.37 Serch hynny, mae tystiolaeth o gyfansoddiad Cleientiaid PaCE wedi'i darparu drwy ein hymchwil ansoddol. Canfu ein gwaith maes fod 42 y cant o'r cyfranogwyr a gafodd eu cyfweld yn chwilio'n bwrpasol am waith pan wnaethant ymuno â'r rhaglen y tro cyntaf. Roedd 40 y cant arall yn ystyried chwilio am waith, ond ddim yn gwneud hynny'n bwrpasol ar y pryd. Dim ond 15 y cant o'r cyfranogwyr a gafodd eu cyfweld a ddywedodd nad oeddent yn chwilio am waith nac yn ystyried gweithio pan wnaethant ymuno â PaCE y tro cyntaf. Cyfiawnhad pellach dros ddefnyddio canfyddiadau ein gwaith maes fel canllaw i gyfansoddiad sylfaen gleientiaid PaCE yw bod cyfranogwyr Blaenoriaeth 3 a gafodd eu cyfweld yn llai tebygol na chyfranogwyr Blaenoriaeth 1 o fod yn chwilio am waith ac yn fwy tebygol o fod mewn sefyllfa lle nad oeddent yn chwilio am waith o gwbl (mewn rhai achosion, gan eu bod yn ystyried mynd yn ôl i gael addysg neu hyfforddiant).

4.38 O ran y rheini a allai fod yn gymwys i fod yn rhan o PaCE, nid yw data'r APS yn awgrymu y byddem yn disgwyl i gyfran mor uchel ohonynt fod yn chwilio am waith. Ymhlith y rheini a allai fod yn gymwys o dan Flaenoriaeth 1, mae'r APS yn dangos mai dim ond 4 y cant a fyddai'n chwilio am waith (gweler Tabl 4.1). Hyd yn oed o hepgor y rheini nad ydynt yn dymuno gweithio o'r dadansoddiad o ddata'r APS (ar y dybiaeth y byddent yn annhebygol o gymryd rhan yn PaCE), byddem yn dal i ddisgwyl gweld tua 10 y cant yn unig o rieni economaidd anweithgar 25 oed a hŷn yn dweud eu bod yn dymuno gweithio ac yn chwilio am waith. Yn hyn o beth, felly, nid yw sylfaen gleientiaid PaCE yn gynrychioladol o boblogaeth ehangach y rhieni anghyflogedig a oedd o bosibl yn gymwys i fod yn rhan o'r rhaglen. Yn wir, mae canfyddiadau ein gwaith maes yn awgrymu bod cyfranogwyr PaCE yn dueddol o fod yn weddol barod am waith o'u cymharu â'r boblogaeth economaidd anweithgar ehangach. Yn rhannol, gallai hyn fod oherwydd pwysigrwydd hyfforddeion gwaith y Ganolfan Byd Gwaith fel ffynonell atgyfeirio.

4.39 Ar sail canfyddiadau ein gwaith maes, ynghyd â'n dadansoddiad o ddata'r APS/yr LFS, mae Tabl 4.6 yn rhoi asesiad o'r deilliannau swyddi ychwanegol a welwyd o ganlyniad i ymwneud unigolion â PaCE[45]. Mae cyfrannau'r cyfranogwyr y canfu ein gwaith maes oedd yn chwilio am waith yn weithredol, yn ystyried ond ddim yn edrych ac nad oeddent am gael gwaith wrth ymuno â PaCE yn cael eu cymhwyso i gyfanswm nifer yr unigolion sy'n gadael y rhaglen, er mwyn cyrraedd amcangyfrifon o nifer yr ymadawyr fyddai wedi disgyn i bob un o'r categorïau hynny. Yna rydym yn cymhwyso cyfrannau'r categorïau hyn y mae ein dadansoddiad o'r APS yn awgrymu y byddent wedi symud ymlaen i gyflogaeth, i'r nifer amcangyfrifedig o ymadawyr ym mhob categori. Mae swm y niferoedd sy'n deillio o bob un o'r cyfrifiadau hyn yn rhoi amcangyfrif o nifer yr ymadawyr y byddai disgwyl iddynt symud ymlaen i waith yn absenoldeb PaCE. Yna caiff hyn ei gymharu â'r nifer a symudodd ymlaen mewn gwirionedd, gan ganiatáu i'r nifer sy'n symud ymlaen i waith, yn fwy na'r disgwyliadau, gael ei gyfrifo.

4.40 Mae'r dadansoddiad yn dangos, pe bai cyfansoddiad y rhai a gyfrannodd at ein gwaith maes yn gynrychioliadol o sylfaen cleientiaid PaCE a, phe bai cyfraddau dilyniant i waith yn adlewyrchu'r rhai y mae'r APS yn awgrymu y gellid eu disgwyl, yna byddai disgwyl y byddai 23 y cant o'r holl gyfranogwyr wedi bod mewn cyflogaeth 12 mis ar ôl gadael PaCE.

4.41 Yn ymarferol, aeth 50 y cant o ymadawyr PaCE ymlaen i waith[46], sy'n cyfateb i 27 y cant yn fwy o unigolion mewn cyflogaeth nag yr awgrymai'r APS y dylid fod wedi'i ddisgwyl. Hyd yn oed o ystyried rhywfaint o duedd ymhlith y rhai a gyfrannodd at ein gwaith maes, mae'n ymddangos bod hyn yn darparu tystiolaeth gadarn bod PaCE wedi bod yn llwyddiannus yn:

- troi unigolion nad ydynt yn ystyried cyflogaeth (naill ai oherwydd cyfrifoldebau gofal plant neu am resymau eraill) yn geiswyr gwaith
- cynyddu'r siawns y bydd y rhai sy'n chwilio am waith yn mynd i gyflogaeth mewn gwirionedd.

[45] Yn y tabl hwn, rydym yn tybio bod y rheini sy'n ystyried gweithio ond ddim yn chwilio am waith i gyd mewn sefyllfa lle nad ydynt yn gallu chwilio oherwydd cyfrifoldebau gofal plant.

[46] Er bod y mesur hwn yn seiliedig ar sefyllfaoedd cyfranogwyr yn uniongyrchol ar ôl gadael PaCE, yn hytrach na'u statws cyflogaeth 12 mis yn ddiweddarach.

**Tabl 4.6: Amcangyfrif o'r deilliannau swyddi yn ychwanegol at y rheini a fyddai'n ddisgwyliedig yn absenoldeb cymorth PaCE**

| | | B1 | B3 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| A. Nifer y cyfranogwyr sydd wedi gadael[47] PaCE | | 4351 | 1386 | 5737 |
| *Yn chwilio'n bwrpasol* | | | | |
| a | Y gyfran a oedd yn chwilio am waith *(yn ôl y gwaith maes ansoddol)* | 45% | 18% | 38% |
| b | Nifer y cyfranogwyr a oedd yn chwilio am waith (A x a) | 1958 | 249 | 2207 |
| c | Cyfran y rheini a oedd yn chwilio am waith y gellid disgwyl iddynt symud i mewn i waith (*yn ôl yr APS – Tabl 4.4*) | 40% | 32% | 39% |
| ch | Nifer y rheini a oedd yn chwilio'n bwrpasol am waith a wnaeth symud i mewn i waith (b x c) | ***777*** | ***80*** | ***857*** |
| *Yn ystyried gweithio ond ddim yn chwilio* | | | | |
| d | Y gyfran a oedd yn ystyried gweithio ond ddim yn chwilio (*yn ôl y gwaith maes ansoddol*) | 40% | 45% | 41% |
| dd | Nifer y cyfranogwyr a oedd yn ystyried gweithio (A x d) | 1740 | 624 | 2364 |
| e | Cyfran y rheini a oedd yn ystyried gweithio y gellid disgwyl iddynt symud i mewn i waith (yn ôl yr APS – Tabl 4.4) | 16% | 13% | 15% |
| f | Nifer y rheini a oedd yn ystyried gweithio y gellid disgwyl iddynt symud i mewn i waith (dd x e) | ***278*** | ***81*** | ***360*** |
| *Ddim yn dymuno gweithio* | | | | |
| ff | Y gyfran nad oedd yn chwilio am waith *(yn ôl y gwaith maes ansoddol)* | 13% | 27% | 16% |
| g | Nifer y cyfranogwyr nad oedd yn chwilio am waith (A x ff) | 566 | 374 | 940 |
| h | Cyfran y rheini nad oedd yn chwilio am waith y gellid disgwyl iddynt lwyddo i gael gwaith (yn ôl yr APS – Tabl 4.4) | 10% | 12% | 11% |
| i | Nifer y rheini nad oedd yn chwilio'n bwrpasol am waith a wnaeth symud i mewn i waith (g x h) | ***57*** | ***45*** | ***101*** |
| **Y cyfanswm y byddai disgwyl iddynt symud i mewn i waith** | | ***1,118*** | ***206*** | ***1,324*** |
| Y gyfradd ddisgwyliedig gyffredinol sy'n symud i mewn i waith | | 26% | 15% | 23% |
| **Y nifer sydd wedi symud i mewn i waith** | | **2,259** | **626** | **2,885** |

[47] Yma rydym yn canolbwyntio ar unigolion sydd wedi gadael PaCE, yn hytrach nag ar yr holl gyfranogwyr

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y gyfradd wirioneddol ymhlith y rheini sy'n gadael y rhaglen ac yn symud i mewn i waith | 52% | 45% | 50% |
| **Y nifer sy'n symud i mewn i waith yn ychwanegol at y disgwyliadau** | **1,147** | **420** | **1,567** |
| Cyfran y rheini sy'n gadael y rhaglen sy'n symud i mewn i waith yn ychwanegol at y disgwyliadau | 26% | 30% | 27% |

**Crynodeb o'r Bennod**

Mae modd asesu'r ychwanegedd a ddarperir gan PaCE drwy gymharu deilliannau cyflogaeth cyfranogwyr PaCE a deilliannau cyflogaeth unigolion sydd â nodweddion tebyg yn y boblogaeth ehangach.

Defnyddir data'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a'r Arolwg o'r Llafurlu i greu meincnodau y gellir eu defnyddio i gymharu deilliannau cyflogaeth cyfranogwyr PaCE â hwy. Er bod anghymesuredd a chyfyngiadau ar y data sydd ar gael, maent yn fodd o ddatblygu dealltwriaeth o niferoedd a chyfrannau'r bobl anghyflogedig sy'n dymuno gweithio ond yn methu â gwneud hynny oherwydd cyfrifoldebau gofal plant.

O ran nodweddion rhieni anghyflogedig, mae'r dadansoddiad yn dangos y canlynol:

- nid yw mwyafrif y rhieni economaidd anweithgar sydd â phlant yn dymuno gweithio
- roedd o bosibl rhwng 23,000 a 25,000 o rieni a oedd yn dymuno gweithio ac a allai fod wedi bod o fewn cwmpas y rhaglen
- ceir gwahaniaethau yn nodweddion rhieni hŷn a rhieni iau a fyddai'n gymwys i fod yn rhan o PaCE
- ceir gwahaniaethau hefyd rhwng y rheini sy'n chwilio am waith a'r rheini nad ydynt yn chwilio am waith oherwydd cyfrifoldebau gofal plant.

Mae'r grwpiau sydd wedi'u cynrychioli'n anghymesur ymhlith y rheini nad ydynt yn chwilio am waith oherwydd cyfrifoldebau gofal plant yn cynnwys:

- unig rieni iau
- y rheini sydd â phlant iau dibynnol
- y rheini sy'n dioddef o gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio
- unigolion sydd â llai o gymwysterau

- unigolion ag ychydig yn unig o brofiad gwaith diweddar neu ddim profiad gwaith diweddar.

O ran deilliannau swyddi, byddai dadansoddiad o'r APS a'r LFS yn awgrymu:

- unigolion sy'n dymuno gweithio ac sy'n chwilio am waith yw'r rhai sy'n fwyaf tebygol o bontio i waith
- mae'r rheini nad ydynt yn chwilio am waith gan eu bod yn gofalu am y teulu neu'r cartref yn llai tebygol o lawer o gael gwaith
- mae'r cyfraddau pontio i waith ymhlith rhieni nad ydynt yn gweithio yn wahanol yn dibynnu ar amrywiaeth o nodweddion personol e.e. cyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio, lefelau cyrhaeddiad addysgol, profiad gwaith ac ati.

Pan gyfunir y canfyddiadau hyn â chanfyddiadau ein gwaith maes ansoddol ymhlith cyfranogwyr, rydym yn amcangyfrif bod cymryd rhan yn PaCE wedi arwain at sefyllfa lle gwnaeth 26 y cant yn fwy o gyfranogwyr Blaenoriaeth 1 a 30 y cant yn fwy o gyfranogwyr Blaenoriaeth 3 symud i mewn i waith nag a fyddai wedi gwneud hynny fel arall. Mae hyn yn cyfateb i 1,567 o rieni hyd at fis Hydref 2021.

# 5. COSTAU'R RHAGLEN A GWERTH AM ARIAN

## Cyflwyniad

5.1 Yn y bennod hon rydym yn ystyried costau rhaglen PaCE hyd yma a sut y mae'r rhain yn cymharu â'r disgwyliadau. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae PaCE yn cymharu â'r meincnodau a osodwyd a chynlluniau cyflogadwyedd eraill o ran cost y prif ddangosyddion allbynnau a deilliannau.

5.2 Mae'r bennod hon wedi'i chyflwyno mewn dwy ran fel a ganlyn:

- gwariant y rhaglen hyd yma, o'i gymharu â'r cyllidebau
- dangosyddion gwerth am arian.

## Gwariant y rhaglen o'i gymharu â'r cyllidebau

5.3 Mae cyllidebau a thargedau'r rhaglen wedi'u diwygio wrth i'r rhaglen gael ei chyflwyno, gyda'r diwygiadau'n gysylltiedig ag ymestyn y rhaglen, i ddechrau yn 2018/19 a drachefn yn 2021[48]. Yn 2018, cynyddwyd cyllideb gyffredinol y rhaglen 64 y cant a chynyddwyd y gyllideb 16 y cant yn rhagor yn 2021 wrth i'r rhaglen gael ei hymestyn tan 2023. Cyfanswm gwerth cyfredol cyllideb PaCE hyd at fis Hydref 2023 yw £24.2 miliwn.

5.4 Mae Tabl 5.1 yn dangos manylion y costau ar gyfer y ddwy flaenoriaeth hyd at fis Medi 2021. Roedd costau Blaenoriaeth 1 yn weddol debyg i'r disgwyliadau, tra bo costau Blaenoriaeth 3 o dan y lefelau a gafodd eu proffilio hyd at y pwynt hwnnw. Roedd hyn gan fod costau Blaenoriaeth 3 yn Nwyrain Cymru wedi gostwng tua 30 y cant o dan y disgwyliadau. I gyd, roedd y costau hyd at fis Medi 2021 tua 69 y cant o gyfanswm y gyllideb derfynol.

[48] Ar yr adeg pan luniwyd yr adroddiad hwn, nid oedd y cyllidebau a'r targedau diwygiedig wedi'u cymeradwyo'n derfynol gan WEFO, ond fe'u defnyddir at ddibenion adrodd isod

**Tabl 5.1: Manylion y costau yn ôl y blaenoriaethau ym mis Medi 2021**

| | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | Dwyrain Cymru | Cyfanswm | % o'r Proffil Medi 21 | % o'r Gyllideb Derfynol |
|---|---|---|---|---|---|
| Blaenoriaeth 1 | £8,813,547 | £4,613,805 | £13,427,352 | 102% | 69% |
| Blaenoriaeth 3 | £2,360,852 | £1,152,856 | £3,513,708 | 87% | 68% |
| Cyfanswm | £11,174,399 | £5,766,661 | £16,941,060 | 98% | 69% |

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2021*

5.5 Er bod cyfanswm y costau yn cyd-fynd yn fras â'r disgwyliadau diwygiedig, roedd rhai amrywiadau o dan y brif lefel, gan adlewyrchu'n rhannol effeithiau'r pandemig COVID-19. Roedd y gwariant ar grantiau'r Gronfa Rhwystrau yn uwch na chyllidebau diwygiedig 2021 ond yn sylweddol is na disgwyliadau 2018, ac felly hefyd y gwariant ar hyfforddiant, yn fwyaf penodol mewn perthynas â Blaenoriaeth 3. Er bod y cyllidebau diwygiedig yn ystyried effeithiau'r pandemig, mae'r diffyg yn erbyn y cyllidebau blaenorol yn adlewyrchu'r ffaith bod llai o gyfranogwyr na'r disgwyl wedi ymuno â'r rhaglen ar ôl dechrau'r pandemig, ac hefyd y ffaith nad oedd y rheini a oedd eisoes yn rhan o PaCE yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau fel hyfforddiant wyneb yn wyneb, mynd ar leoliadau gwirfoddoli, neu fynd i gyfweliadau am swyddi wyneb yn wyneb. Mae hyn hefyd yn rhannol yn sgil cynnydd yn y defnydd o Gronfa Cymorth Ariannol yr Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn talu am gostau cyfranogwyr ar ôl dyrannu mwy o arian i'r Adran Gwaith a Phensiynau yn sgil y pandemig.

5.6 Roedd swmp costau'r rhaglen yn gysylltiedig â staffio, fodd bynnag, ac roedd y costau hyn yn berthnasol drwy gydol yr adeg, er i gynghorwyr gael eu symud yn rhannol am gyfnod i helpu gyda gweithgareddau prif ffrwd yr Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn lliniaru effeithiau'r pandemig.

5.7 Roedd y costau gofal plant fymryn yn uwch na chyllidebau diwygiedig 2021. Roedd y costau gofal plant wedi bod hyd yn oed yn fwy na'r disgwyl cyn y pandemig ac mae'n ymddangos y byddai'r gyllideb gofal plant wedi dod o dan gryn bwysau erbyn mis Medi 2021 pe na bai'r pandemig wedi digwydd.

**Dangosyddion gwerth am arian PaCE**

5.8 Ynghyd â'r cynnydd mewn cyllidebau y cyfeirir ato uchod, cafodd proffiliau cysylltiadau eu cynyddu naw y cant yn 2018 er mwyn adlewyrchu'r ddarpariaeth hyd at y pwynt hwnnw. Cafodd y proffiliau cysylltiadau eu haddasu ymhellach yn 2021, gyda'r rheini ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn cynyddu yn achos y ddwy flaenoriaeth a'r rheini ar gyfer Dwyrain Cymru yn cael eu lleihau.

5.9 Cafodd y targedau ar gyfer deilliannau swyddi eu cynyddu'n fwy sylweddol yn 2018, sef 91 y cant o'r lefelau blaenorol yn achos Blaenoriaeth 1 a 113 y cant o'r lefelau blaenorol yn achos Blaenoriaeth 3. Cafodd y targedau hyn eu cynyddu ymhellach o dan y ddwy flaenoriaeth yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn 2021, tra bo'r targedau deilliannau swyddi yn Nwyrain Cymru wedi'u cadw ar y lefelau a osodwyd yn 2018.

5.10 Effeithiodd y gwaith ail-broffilio hwn ar brif ddangosyddion gwerth am arian PaCE, fel y gwelir yn Nhabl 5.2. Yn hollbwysig, aeth y gost ddisgwyliedig fesul cyfranogwr yn uwch, tra aeth y gost fesul deilliant swydd yn is.

**Tabl 5.2: Dangosyddion gwerth am arian gwreiddiol a diwygiedig PaCE[49]**

| | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | Dwyrain Cymru | | Cymru gyfan | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Y Proffil Gwreiddiol | Y Proffil Diwygiedig[50] | Y Proffil Gwreiddiol | Y Proffil Diwygiedig | Y Proffil Gwreiddiol | Y Proffil Diwygiedig |
| Blaenoriaeth 1 | | | | | | |
| Y gost fesul cyfranogwr | £1,557 | £2,798 | £1,658 | £3,053 | £1,593 | £2,883 |
| Y gost fesul deilliant swydd | £7,783 | £6,720 | £8,298 | £7,053 | £7,970 | £6,833 |

[49] Mae'r cyfrifiadau sy'n sail i'r dangosyddion gwerth am arian i'w gweld yn Atodiad 1
[50] Mae'r cyfrifiadau wedi'u seilio ar gyllideb ddiwygiedig a ffigurau allbynnau a deilliannau 2021


| Blaenoriaeth 3 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Y gost fesul cyfranogwr | £1,868 | £2,262 | £1,677 | £3,405 | £1,796 | £2,540 |
| Y gost fesul deilliant swydd | £9,341 | £5,942 | £8,413 | £7,444 | £8,994 | £6,360 |
| Y gost fesul deilliant o ran symud yn eu blaenau'n llwyddiannus | £3,732 | £5,608 | £3,359 | £6,783 | £3,593 | £5,943 |

**Data am berfformiad ochr yn ochr â dangosyddion gwerth am arian PaCE**

*Y gost fesul cyfranogwr*

5.11 Mae Ffigur 5.1 yn cymharu'r gost ddisgwyliedig fesul cyfranogwr â'r gwir gost ym mis Medi 2021 a hynny o dan y ddwy flaenoriaeth yn y ddau ranbarth. Mae'n dangos bod y gost fesul cyfranogwr yn weddol debyg i'r disgwyliadau o dan y ddwy flaenoriaeth yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.

Ffigur 5.1: Cymharu'r gost ddisgwyliedig a'r gwir gost fesul cyfranogwr




Ffynhonnell: Cronfa ddata'r cyfranogwyr ar 31 Hydref 2021, Adroddiadau gwariant hyd at fis Medi 2021, a Phroffil y Ddarpariaeth 202112


5.12 Roedd y gost fesul cyfranogwr yn Nwyrain Cymru yn uwch na'r disgwyl o dan y ddwy flaenoriaeth, gan adlewyrchu'r perfformiad cymharol wan mewn perthynas â nifer y cysylltiadau yn y rhanbarth hwnnw.

5.13 Pe bai'r nifer y cysylltiadau wedi aros ar y lefelau a welwyd cyn COVID-19, mae'n debygol y byddai cyfanswm y gost fesul cyfranogwr wedi bod yn is na'r disgwyliadau diwygiedig.

*Y gost fesul deilliant*

5.14 Mae Ffigur 5.2 yn cymharu'r gost ddisgwyliedig fesul deilliant swydd â'r gwir gost ym mis Medi 2021 a hynny yn y ddau ranbarth. Yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, mae'n dangos bod y gost fesul deilliant swydd o dan Flaenoriaethau 1 a 3 yn is na'r hyn a ddisgwyliwyd, gan adlewyrchu llwyddiant y rhaglen yn sicrhau bod cyfranogwyr yn symud i mewn i waith yn y rhanbarth hwnnw.

**Ffigur 5.2: Cymharu'r gost ddisgwyliedig a'r gwir gost fesul deilliant swydd**




Ffynhonnell: Cronfa ddata'r cyfranogwyr ar 31 Hydref 2021, Adroddiadau gwariant hyd at fis Medi 2021, a Phroffil y Ddarpariaeth 202112

5.15 Roedd y darlun yn Nwyrain Cymru yn llai calonogol, gyda'r gost fesul deilliant swydd yn uwch na'r disgwyliadau o dan y ddwy flaenoriaeth, a hynny o gryn dipyn. Mae hyn yn rhannol adlewyrchu nifer is y cyfranogwyr, ond hefyd

mae'n gysylltiedig â chyfraddau is y deilliannau swyddi a gyflawnwyd yn Nwyrain Cymru.

5.16 Amharodd effeithiau'r pandemig COVID-19 yn andwyol ar y gost fesul deilliant swydd, wrth i'r cyfleoedd i gyfranogwyr symud i mewn i waith brinhau. Mae'n rhesymol tybio y bydd y gost fesul deilliant swydd yn gostwng drwy'r holl raglen wrth i effeithiau'r pandemig COVID-19 bylu ac wrth i'r farchnad lafur agor drachefn i gyn-gyfranogwyr.

5.17 Ac ystyried bod symud i mewn i waith neu i addysg/hyfforddiant yn cynrychioli deilliannau o ran hynt cyfranogwyr Blaenoriaeth 3, gellid dadlau bod y gost fesul pob cyfranogwr sy'n symud yn ei flaen yn llwyddiannus yn ddangosydd mwy ystyrlon o'r gwerth a ddarperir gan y rhaglen. Ar gyfartaledd o £5,389 fesul deilliant swydd/addysg/hyfforddiant drwy Gymru, roedd y gost wrth edrych ar y rheini sy'n symud yn eu blaenau'n llwyddiannus yn edrych ychydig yn fwy ffafriol na chost deilliannau swyddi'n unig. Mewn realiti, fodd bynnag, prin iawn yw'r cyfranogwyr sydd wedi symud i addysg neu hyfforddiant, ac nid yw'r gwahaniaeth mewn cost yn rhyw lawer.

5.18 Drachefn, roedd y gost fesul deilliant wrth edrych ar y rheini sy'n symud yn eu blaenau'n llwyddiannus yn achos cyfranogwyr Blaenoriaeth 3 yn uwch o lawer yn Nwyrain Cymru nag yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, gan adlewyrchu perfformiad gwannach wrth helpu cyfranogwyr i symud i mewn i waith yn ogystal ag i addysg neu hyfforddiant.

**Ymyriadau cyflogadwyedd a gwerth am arian**

5.19 Nid yw'r gwerthusiad hwn yn ceisio gwneud unrhyw ddadansoddiad o'r adenillion ar fuddsoddiad y mae'r rhaglen yn eu rhoi e.e. o ran gostyngiadau yn y budd-daliadau a gaiff eu hawlio neu gynnydd yn y refeniw treth o'i gymharu â chostau'r rhaglen. Serch hynny, mae'r gwerthusiad yn ceisio rhoi rhywfaint o wybodaeth am y gwerth sy'n cael ei roi gan PaCE drwy gymharu costau'r prif ddangosyddion allbynnau a deilliannau â rhai ymyriadau eraill ym maes cyflogadwyedd.

5.20 Mewn realiti, serch hynny, prin iawn yw'r gwerthusiadau o ymyriadau ym maes cyflogadwyedd sy'n cynnwys gwybodaeth a fyddai'n golygu bod modd cymharu â hwy. Yn wir, yn yr adroddiad 'Combined Analysis of the 2009-2013

ESF Leavers Surveys', nodwyd nad yw adolygiadau o raglenni'r farchnad lafur ar y cyfan yn rhoi llawer o wybodaeth am werth am arian cymharol gwahanol ddulliau o weithio[51]. Crybwyllir ymchwil cynharach sy'n honni mai prin yw'r astudiaethau sy'n cynnwys digon o wybodaeth i wneud asesiad bras, hyd yn oed, o fanteision y rhaglenni o'u cymharu â'u costau, a dywedir bod nifer o astudiaethau'n osgoi'r broblem "gostau" yn gyfan gwbl wrth werthuso (Card et al. 2010, tt 28-29)[52].

5.21 Ymhlith yr astudiaethau prin sy'n rhoi gwybodaeth am gostau cymharol rhaglenni, mae'r gwerthusiadau o'r rhaglen Esgyn[53] a'r rhaglen Cymunedau am Waith[54], a oedd yn cynnwys dadansoddiadau tebyg a syml o gost-effeithiolrwydd. Nod y naill raglen a'r llall oedd helpu oedolion di-waith neu oedolion economaidd anweithgar a oedd yn weddol bell o'r farchnad lafur i symud i waith cynaliadwy, neu yn achos y rheini rhwng 16 a 24 oed, i symud i addysg neu hyfforddiant fel cam at gael gwaith. Er nad oedd cymorth at ofal plant yn nodwedd amlwg yn y naill na'r llall o'r rhaglenni hyn, roedd ganddynt nifer o nodweddion tebyg i PaCE, gan gynnwys cyfuniad o fentora, hyfforddiant, cymorth i chwilio am waith a chyfleoedd i fynd ar leoliadau gwaith.

5.22 Mae dadansoddiad a wnaed fel rhan o'r adroddiad, 'Ex Post Evaluation of the 2007-2013 Structural Funds in Wales'[55] hefyd yn rhoi data am gost-effeithiolrwydd. Roedd y dadansoddiad hwn yn ystyried nifer o brosiectau cyflogadwyedd a ariannwyd drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop ac a ddarparwyd rhwng 2009 a 2013. Roedd yn dangos bod prosiectau sy'n gweithio gyda'r cyfranogwyr sydd bellaf o'r farchnad lafur angen rhoi cymorth mwy dwys iddynt, er mwyn eu helpu i oresgyn rhwystrau cymhleth i waith. Yn sgil hynny, mae eu costau fesul deilliant yn uwch.

[51] Dadansoddiad Cyfunol o Arolygon Ymadawyr ESF 2009-2013, t.115

[52] Y Swyddfa Genedlaethol ar gyfer Ymchwil Economaidd (2010) Gwerthusiadau Polisi Marchnad Lafur Actif: Meta-ddadansoddiad. Cyfres Papur Gwaith *NBER*.

[53] Gwerthusiad o Raglen Esgyn (Cam 3 a gwerthusiad terfynol)

[54] Gwerthusiad Cymunedau am Waith (Cam 3: adroddiad ar ganlyniadau ac effeithiau sy'n dod i'r amlwg)

[55] OB3 (2017) Papur Adolygu Blaenoriaeth Cyn Werthuso Cymru: Cynyddu cyflogaeth a mynd i'r afael ag anweithgarwch: Blaenoriaeth Cydgyfeirio 2 ESF a Blaenoriaeth RCE ESF 1

5.23 Ffynhonnell wybodaeth arall yw'r adroddiad, 'Combined Analysis of the 2009-2013 ESF Leavers Surveys'[56], a ddadansoddodd ddata am 1,633 o ymatebwyr i arolwg gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, ac a oedd wedi cael cymorth ym maes cyflogadwyedd. Diffiniwyd hyn fel cymorth i grwpiau a dargedwyd ac a oedd yn wynebu rhwystrau penodol wrth geisio gweithio. Roedd y prosiectau'n canolbwyntio ar chwilio am swyddi cyn cael gwaith a datblygu sgiliau meddal.

5.24 Mae rhai o'r astudiaethau'n dangos y costau fesul cyfranogwr ac maent i gyd yn cyflwyno'r costau fesul deilliant swydd: mae'r rhain wedi'u crynhoi yn Nhabl 5.3 isod. Wrth ystyried y ffigurau hyn, fodd bynnag, mae'n werth nodi bod papur blaenoriaeth a fu'n sail i'r gwerthusiad terfyn rhaglen o raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop 2009-13 yn dangos amrywiaeth yn y gost fesul deilliant swydd wrth edrych ar brosiectau cyflogadwyedd, a hynny rhwng £5,768 a £22,000.

5.25 Mae adroddiad Cymunedau am Waith yn egluro mai un o ddau darged deilliant a osodwyd oedd swyddi yn achos cyfranogwyr Blaenoriaeth 3, ac mai'r llall oedd gwneud symud i mewn i addysg neu hyfforddiant. Cafodd y 'gost fesul y rheini sy'n symud yn eu blaenau'n llwyddiannus', gan hynny, ei gyflwyno ar gyfer Blaenoriaeth 3 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd ac yn Nwyrain Cymru.

[56] Dadansoddiad Cyfunol o Arolygon Ymadawyr ESF 2009-2014

**Tabl 5.3: Cymharu'r ffigurau costau sydd ar gael ar gyfer rhaglenni cyflogadwyedd yng Nghymru**

| Rhaglen Cyflogadwyedd | Y gost fesul cyfranogwr | Y gost fesul deilliant swydd | Y gost fesul y rheini sy'n symud yn eu blaenau'n llwyddiannus |
|---|---|---|---|
| Esgyn | £1,219[57] | £3,744[58] | Amherthnasol |
| Cymunedau am Waith Blaenoriaeth 1 – Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | £1,695[59] | £7,232[60] | Amherthnasol |
| Cymunedau am Waith Blaenoriaeth 1 – Dwyrain Cymru | £1,717[61] | £6,110[62] | Amherthnasol |
| Cymunedau am Waith Blaenoriaeth 3 – Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | £1,088[63] | £3,339[64] | £2,803[65] |
| Cymunedau am Waith Blaenoriaeth 3 – Dwyrain Cymru | £1,440[66] | £4,861[67] | £4,120[68] |
| ReAct | £2,795[69] | £7,194 [70] | Amherthnasol |
| Papur Blaenoriaeth Gwerthusiad Terfyn Rhaglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop – cyfartaledd Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | £1,749[71] | £6,574 | Amherthnasol |
| Papur Blaenoriaeth Gwerthusiad Terfyn Rhaglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop – cyfartaledd Dwyrain Cymru | £1,714[72] | £6,782 | Amherthnasol |

57 Gwerthusiad o Raglen Esgyn (Cam 3 a gwerthusiad terfynol), t.48
58 Ibid
59 Gwerthusiad Cymunedau am Waith (Cam 3: adroddiad ar ganlyniadau ac effeithiau sy'n dod i'r amlwg), t.80
60 Ibid, t.102
61 Ibid, t.80
62 Ibid, t.102
63 Ibid, t.81
64 Ibid, t.102
65 Ibid, t.102
66 Ibid, t.81
67 Ibid, t.102
68 Ibid, t.102
69 Gwerthusiad o raglen Gweithredu Diswyddiadau (ReAct): adroddiad interim, t.43
70 Ibid
71 Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (2017) Wales Ex Post Evaluation Priority Review paper: Increasing employment and tackling inactivity: ESF Convergence Priority 2 and ESF RCE Priority 1 , t.19
72 Ibid, t.20

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dadansoddiad Cyfun o Arolygon Cronfa Gymdeithasol Ewrop o Bobl a Adawodd 2009-2013 | £1,661[73] | £3,404[74] | Amherthnasol |

5.26 Wrth gymharu mesuriadau o gost-effeithiolrwydd PaCE a mesuriadau rhaglenni eraill, dylid nodi'r canlynol:

- ceir gwahaniaethau sylweddol rhwng ymyriadau ym maes cyflogadwyedd. Er enghraifft, o ran y grwpiau o gyfranogwyr a dargedir, natur y rhaglen, a maint yr ymyriad: mae PaCE yn targedu'n benodol unigolion sydd mewn sefyllfa lle mai gofal plant yw eu prif rwystr i waith, a gwneir darpariaeth benodol i dalu costau gofal plant tra bydd y rhieni'n cymryd rhan yn y rhaglen, ac am gyfnod byr wedyn, er mwyn eu helpu i symud i mewn i waith
- yn ôl Papur Blaenoriaeth ar gynyddu cyflogaeth a mynd i'r afael ag anweithgarwch, a luniwyd fel rhan o werthusiad terfyn rhaglen rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop 2007-2013 yng Nghymru,[75] roedd yr ymyriadau yn defnyddio dulliau gweithio tra gwahanol i ddiffinio beth oedd wedi'i gynnwys yng nghostau'r ddarpariaeth[76], a hynny'n ei gwneud hi'n anodd cymharu prosiectau'n uniongyrchol â'i gilydd
- mae'n gryn amser ers gwerthuso'r prosiectau hyn sy'n cael eu defnyddio i gymharu, ac mae'n debygol y bydd costau'r ddarpariaeth wedi cynyddu yn y cyfnod hwnnw
- mae'r pandemig COVID-19 wedi amharu'n sylweddol ar y modd y mae rhaglen PaCE wedi cael ei darparu: ni fu'n bosibl i gyfranogwyr ymwneud â'r rhaglen yn y ffordd a ddisgwyliwyd nac i'r graddau a ddisgwyliwyd, neu ni fu'n bosibl i'r cyfranogwyr gyflawni'r deilliannau a ddisgwyliwyd. Serch hynny, mae swmp costau'r rhaglen yn gysylltiedig â

[73] ibid t.122

[74] Ibid t.122

[75] Roedd y Papur Blaenoriaeth yn syntheseiddio canfyddiadau gwerthusiadau o brosiectau a ariannwyd drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop ac a geisiai gynyddu cyflogaeth a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd yn ystod cyfnod rhaglennu Cronfa Strwythurol Ewrop 2007-2013. Roedd y papur yn cymharu dangosyddion allweddol cost/gwerth am arian amryw o brosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop a oedd ag amcanion tebyg i Cymunedau am Waith o ran symud pobl ddi-waith a phobl economaidd anweithgar i waith.

[76] Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (2017) Wales Ex Post Evaluation Priority Review paper: Increasing employment and tackling inactivity: ESF Convergence Priority 2 and ESF RCE Priority 1, t.19

staffio ac mae'r rhain wedi parhau yn ystod cyfnod y pandemig, er bod cynghorwyr wedi cael eu symud yn yr Adran Gwaith a Phensiynau i helpu i liniaru effeithiau COVID-19.

- Mae PaCE yn dal yn rhaglen 'fyw' ar hyn o bryd, ac mae'n ymddangos y bydd y deilliannau yn enwedig yn cynyddu wrth i'r rhaglen ddirwyn i ben.

5.27 Mae Tabl 5.4 yn cyflwyno costau PaCE ym mis Medi 2021. Mae'n dangos bod y gost fesul cyfranogwr a'r gost fesul deilliant swydd ar gyfer Blaenoriaeth 1 a Blaenoriaeth 3 ychydig yn uwch i PaCE na gwir gostau'r rhaglenni a gaiff eu hystyried wrth gymharu.

**Tabl 5.4: Ffigurau'r gost fesul cyfranogwr a'r gost fesul deilliant i PaCE hyd at fis Medi 2021**

| | Y gost fesul cyfranogwr | Y gost fesul deilliant swydd | Y gost fesul y rheini sy'n symud yn eu blaenau'n llwyddiannus |
|---|---|---|---|
| Blaenoriaeth 1 | | | |
| Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | £2,350 | £5,151 | Amherthnasol |
| Dwyrain Cymru | £3,718 | £8,419 | Amherthnasol |
| Blaenoriaeth 3 | | | |
| Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | £1,962 | £4,722 | £4,584 |
| Dwyrain Cymru | £3,332 | £9,150 | £8,415 |

Ffynhonnell: Cronfa ddata'r cyfranogwyr ar 31 Hydref 2021, Adroddiadau gwariant hyd at fis Medi 2021, a Phroffil y Ddarpariaeth 201906

5.28 Yn rhannol, mae'r costau uwch sy'n gysylltiedig â PaCE yn adlewyrchu'r ddarpariaeth a wnaed yn y rhaglen i dalu costau gofal plant: Roedd disgwyl i PaCE dalu costau gofal plant ar gyfer cyfran uwch o lawer o gyfranogwyr na rhaglenni cyflogadwyedd eraill. Serch hynny, mae costau gofal plant yn rhyw saith y cant o gyfanswm costau'r rhaglen hyd yma, ac nid ydynt, gan hynny, yn gyfrifol am yr holl wahaniaeth.

5.29 Mae costau staff yn cynrychioli 73 y cant o gostau'r rhaglen hyd at fis Medi 2021, ac mae'n bosibl bod cost gymharol uwch PaCE fesul cyfranogwr o ganlyniad i'r ffaith bod ganddi gymhareb uwch o staff i gyfranogwyr na rhaglenni eraill. Mae ffigurau cysylltiadau gwannach wedi arwain at gynnydd anghymesur mewn cyllidebau o'u cymharu â'r targedau ar gyfer cysylltiadau.

Yn ei dro, mae hyn wedi arwain at gynnydd o 81 y cant yn y gost ddisgwyliedig fesul cyfranogwr o dan Flaenoriaeth 1, a chynnydd o 41 y cant fesul cyfranogwr o dan Flaenoriaeth 3 ers dechrau'r rhaglen.

5.30 Mae perfformiad cryfach wrth helpu pobl i symud i mewn i waith yn golygu bod y gwir gostau fesul deilliant swydd yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn nes at gostau rhaglenni eraill ac yn is o lawer na'r costau a ddisgwyliwyd yn wreiddiol. Mae perfformiad gwannach yn Nwyrain Cymru yn golygu bod y costau fesul deilliant swydd yno yn uwch o lawer na chostau rhaglenni eraill, ac yn wir, fymryn yn uwch na'r rheini a ddisgwyliwyd yn wreiddiol ar gyfer PaCE.

5.31 Nid oes dwywaith bod y pandemig COVID-19 wedi effeithio ar y costau fesul cyfranogwr a'r costau fesul deilliant o dan PaCE, wrth i'r rhaglen gysylltu â llai o gyfranogwyr a llai ohonynt yn symud i mewn i waith ar ôl cymryd rhan.

**Crynodeb o'r Bennod**

Mae cyllidebau a thargedau'r rhaglen wedi'u diwygio wrth i'r rhaglen gael ei chyflwyno, ac mae'r amserlen wedi'i hymestyn. Mae cyfanswm cyllideb derfynol PaCE dros wyth mlynedd y rhaglen yn £24.2 miliwn. O ganlyniad i'r diwygiadau hyn, mae'r meincnodau gwerth am arian wedi newid dros oes y rhaglen, gyda'r gost ddisgwyliedig fesul cyfranogwr yn codi, tra bo'r gost ddisgwyliedig fesul deilliant swydd wedi gostwng.

Roedd gwir gostau'r rhaglen yn weddol debyg i'r disgwyliadau hyd at fis Medi 2021, ac roedd y rheini yn rhyw 69 y cant o gyfanswm y gyllideb derfynol. O dan y lefel arwynebol, fodd bynnag, mae'r gwariant ar ofal plant wedi bod yn uwch na'r disgwyliadau gwreiddiol a diwygiedig, tra bo gwariant ar bethau heblaw am ofal plant (e.e. ar hyfforddiant a mathau eraill o gymorth sy'n ceisio cael gwared ar rwystrau i gyfranogwyr) yn is na'r disgwyl, a hynny'n rhannol yn adlewyrchu effeithiau'r pandemig ar allu cyfranogwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau wyneb yn wyneb.

I gyd, mae'r gost ddisgwyliedig fesul cyfranogwr wedi bod fymryn yn uwch na'r disgwyl, a'r gost fesul deilliant swydd wedi bod yn is na'r meincnodau diwygiedig

hyd at fis Medi 2021. Mae hyn yn wir o dan Flaenoriaethau 1 a 3. O dan y lefel arwynebol, fodd bynnag, mae'r costau yn Nwyrain Cymru wedi bod yn uwch na'r meincnod, tra bo'r costau yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi bod yn is na'r lefelau a ddisgwyliwyd.

Mae cyfyngiadau cyffredinol gwerthusiadau o ymyriadau ym maes cyflogadwyedd yn golygu mai prin yw'r cyfleoedd i gymharu costau'r mesuriadau hyn o allbynnau a deilliannau allweddol PaCE â mesuriadau rhaglenni eraill. Serch hynny, drwy gymharu â nifer bychan o raglenni cyflogadwyedd tebyg, gwelir bod y gost ddisgwyliedig fesul cyfranogwr o dan Flaenoriaeth 1 a Blaenoriaeth 3 ychydig yn uwch yn achos PaCE na'r rhaglenni y cymharwyd â hwy. Yn rhannol, mae hyn yn adlewyrchu'r ddarpariaeth a wnaed yn PaCE i dalu costau gofal plant, ond mae'n fwy tebygol ei fod yn adlewyrchu'r ffaith bod gan PaCE gymhareb staff i gyfranogwyr uwch na rhaglenni eraill. Mae cyfanswm y gost fesul deilliant yn achos PaCE yn nes at gost y rhaglenni y cymharwyd â hwy. Amharodd effeithiau'r pandemig COVID-19 hefyd yn andwyol ar y gost fesul cyfranogwr a'r gost fesul deilliant swydd, wrth i'r cyfleoedd i gyfranogwyr ymuno â'r rhaglen a symud i mewn i swyddi brinhau.

# 6. Casgliadau

### Cyflwyniad

6.1 Yn y bennod hon rydym yn dychwelyd at amcanion y gwerthusiad ac yn cyflwyno ein casgliadau mewn perthynas â'r canlynol:

- i ba raddau mae rhaglen PaCE wedi cyflawni ei thargedau
- yr ardaloedd lle bu PaCE yn fwyaf llwyddiannus ac yn lleiaf llwyddiannus
- lefel yr ychwanegedd a roddir gan PaCE a lefel y difuddiant[77] sy'n gysylltiedig â'r rhaglen
- y costau sy'n gysylltiedig â PaCE a'r gwerth am arian a roddir gan y rhaglen.

6.2 Pan gafodd y gwerthusiad hwn ei gomisiynu, mae'n nodedig bod disgwyl ar y pryd i PaCE ddod i ben ym mis Mawrth 2018. Ers hynny, fodd bynnag, mae PaCE wedi'i hymestyn tan fis Hydref 2023. Gan hynny, mae'n rhy gynnar i lunio casgliadau pendant am effeithiolrwydd cyffredinol y rhaglen neu'r gwerth am arian mae'n ei roi ar hyn o bryd.

### I ba raddau y mae rhaglen PaCE wedi cyrraedd ei thargedau a chyflawni'i hamcanion

6.3 Cafodd targedau PaCE eu diwygio ar ddau achlysur, wrth i hyd y rhaglen gael ei ymestyn, i ddechrau tan fis Mawrth 2020 ac yna tan fis Hydref 2023. Roedd y diwygiadau a wnaed yn rhoi ystyriaeth i'r amserlen hwy ar gyfer darparu gwasanaethau, yn ogystal ag i'r hyn a ddysgwyd wrth ddarparu'r rhaglen.

6.4 Ar y ddau achlysur, dim ond rhyw fymryn y cynyddwyd y targedau cyffredinol ar gyfer cysylltiadau, ond cafodd y targedau ar gyfer deilliannau swyddi eu cynyddu'n sylweddol, gan adlewyrchu llwyddiant y rhaglen wrth iddi gael ei rhoi ar waith.

[77] Yr hyn rydym yn ei olygu yma yw'r deilliannau (e.e. deilliannau swyddi neu'r cymwysterau a fyddai wedi cael eu hennill) a fyddai wedi digwydd hyd yn oed yn absenoldeb y rhaglen

6.5 Cafodd y targedau o dan Flaenoriaeth 3 o ran ennill cymwysterau a symud i mewn i addysg/hyfforddiant eu gostwng i lefelau isel iawn, drachefn i adlewyrchu'r perfformiad hyd at y pwynt hwnnw.

*Y targedau cysylltiadau*

6.6 Cyflawnodd y rhaglen tua 20 y cant yn llai o gysylltiadau na'r lefel a dargedwyd hyd at mis Hydref 2021. Roedd cysylltiadau hyd at Hydref 2021 yn cynrychioli tua 75 y cant o'r targed llawn, gyda thua 20 y cant o fywyd y rhaglen ar ôl[78].

6.7 Mae'r lefelau cysylltiadau o dan Flaenoriaeth 3 wedi bod yn fwy llwyddiannus nag o dan Flaenoriaeth 1, ond roedd y targedau ar gyfer Blaenoriaeth 3 yn is.

6.8 Bu gostyngiad sydyn yn nifer y bobl a ymunodd â'r rhaglen yn sgil y pandemig COVID-19, ac amcangyfrifir bod tua 520 yn llai o bobl wedi ymuno â'r rhaglen rhwng mis Mawrth 2020 a mis Hydref 2021 nag a fyddai wedi gwneud mewn cyfnod mwy normal. Pe na bai'r pandemig wedi digwydd, mae'n ymddangos yn debygol y byddai'r nifer yn ymuno â'r rhaglen wedi cyrraedd 80 y cant o darged cyffredinol y rhaglen erbyn mis Hydref 2021, fwy neu lai'n unol â'r disgwyliadau hyd at y pwynt hwnnw.

6.9 Byddai ein gwaith maes yn awgrymu bod PaCE yn arbennig o llwyddiannus wrth gysylltu ag unigolion sydd naill ai'n chwilio am waith neu'n ystyried gwneud hynny, a hynny o bosibl (yn ôl awgrym y gwerthusiad o'r Prosesau a'r Allbwn) wrth ragweld newidiadau i'w budd-daliadau lles wrth i'w plant ddynesu at oedran ysgol. Mae hyn yn awgrymu bod cyfranogwyr PaCE o bosibl yn fwy 'parod am waith' nag y byddai rhywun wedi'i ddisgwyl.

6.10 Ac ystyried bod PaCE yn ceisio cyrraedd unigolion y mae cyfrifoldebau gofal plant yn rhwystr o bwys iddynt rhag gweithio, efallai y byddai'n syndod bod llai nag un rhan o bump y cyfranogwyr wedi manteisio ar y cymorth ariannol a oedd yn cael ei gynnig at ofal plant[79]. Mae'n nodedig hefyd bod cyfranogwyr y

[78] Er bod disgwyl i'r rhaglen bara tan fis Hydref 2023, ni fydd cyfranogwyr yn cael eu derbyn ar ôl mis Mawrth y flwyddyn honno.

[79] Mae'n bosibl bod rhywfaint o ofal plant wedi'i gyllido drwy ffynonellau eraill e.e. yr Adran Gwaith a Phensiynau yn achos hawlwyr budd-daliadau a cholegau addysg bellach yn achos y rheini sy'n dilyn cyrsiau hyfforddi, ond nid oedd cofnodion ynghylch unrhyw gymorth o'r fath ar gael i'r tîm ymchwil

gellid bod wedi barnu eu bod yn nes at y farchnad lafur (y rheini sydd â gwell cymwysterau ac sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnodau byrrach) yn fwy tebygol o gael cymorth at ofal plant, gan gynnwys cymorth 'mewn gwaith' wrth iddynt bontio i waith.

6.11 I ryw raddau, mae hyn yn debygol o adlewyrchu'r niferoedd isel sydd wedi manteisio ar y cyfleoedd gwirfoddoli ac addysg a hyfforddiant (gan fod y rhai sy'n manteisio ar gyfleoedd gwirfoddoli neu hyfforddi yn aml angen cymorth gyda gofal plant i'w galluogi i wneud hynny), ond gallai hefyd fod yn sgil amharodrwydd y rheini sydd bellaf o'r farchnad lafur i ymwneud â gofal plant ffurfiol. Yn yr un modd, efallai ei fod yn rhannol yn sgil y ffaith bod cynghorwyr yn helpu rhieni i ddod o hyd i ofal plant am ddim, er enghraifft drwy roi gwybod iddynt am y Cynnig Gofal Plant.

*Y targedau ar gyfer deilliannau*

6.12 Prif nod PaCE yw helpu rhieni di-waith i symud i waith neu hunangyflogaeth, ac mae'r perfformiad yn hyn o beth yn dal yn well na'r disgwyl o dan y ddwy flaenoriaeth. Gwelwyd y perfformiad calonogol hwn er gwaethaf effaith andwyol y pandemig COVID-19, ac yn enwedig yn ystod y cyfnodau clo. Serch hynny, ac er i rywfaint o dir gael ei ennill wrth sicrhau deilliannau swyddi ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu llacio yn 2021, mae'n debygol bod PaCE wedi colli tua 170 o ddeilliannau swyddi yn sgil y pandemig.

6.13 Mae'n rhy gynnar i wneud sylwadau am effaith y pandemig COVID-19 ar hirhoedledd deilliannau swyddi, ond mae'n galonogol bod mwyafrif yr unigolion a gafodd eu cyfweld ac a oedd wedi symud i mewn i waith yn ystod gwaith maes blaenorol yn dal mewn gwaith yn 2021, hyd yn oed os oedd hynny wedi golygu newid swyddi.

6.14 Mae'r dadansoddiad amlamryweb yn dangos bod y rheini a oedd â phrofiad mwy diweddar o waith wedi gwneud yn well nag eraill wrth symud i mewn i waith, ac felly hefyd y rheini yn eu tridegau a siaradwyr Cymraeg. Serch hynny, roedd y perfformiad o ran deilliannau swyddi ymhlith rhai is-grwpiau sydd o dan anfantais yn y farchnad swyddi yn is na chyfartaledd y rhaglen, gan gynnwys ymhlith unigolion o gymunedau ethnig lleiafrifol, unigolion sydd â chyflyrau iechyd neu anableddau sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio,

cyfranogwyr sydd â llai o gymwysterau, ac unigolion a oedd wedi bod allan o'r farchnad lafur am fwy na phum mlynedd.

6.15 Byddai hyn yn awgrymu bod y perfformiad cryf a welwyd o ran deilliannau swyddi i'w briodoli'n rhannol, o leiaf, i gyfansoddiad sylfaen gleientiaid PaCE, gyda chyfran uwch nag y byddid wedi'i ddisgwyl o gyfranogwyr ym mhen 'parod am waith' y sbectrwm anweithgarwch economaidd.

6.16 O ran rôl gwahanol elfennau PaCE wrth sicrhau deilliannau swyddi, byddai ein dadansoddiad amlamryweb yn awgrymu bod help i dalu am gostau gofal plant, a chymorth 'mewn gwaith' yn benodol, yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf, er mai cyfran gymharol fechan o gyfranogwyr a fanteisiodd ar hyn. Roedd yn amlwg hefyd bod ennill cymwysterau a magu profiad gwaith drwy wirfoddoli wedi cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd unigolion wrth iddynt geisio dod o hyd i waith. Gellid dadlau bod y ffaith nad oes llawer wedi manteisio ar y cyfleoedd hynny yn wendid yn y rhaglen.

6.17 Er bod yr elfennau gwahanol hyn yn PaCE yn amlwg yn gwneud gwahaniaeth i gyfleoedd unigolion o symud i mewn i waith, mae llwyddiant y rhaglen wedi'i seilio ar y dull holistig o weithio, lle bydd cymorth ymarferol (fel cyngor am chwilio am swyddi, cymorth ariannol at ofal plant, cyfleoedd i gael hyfforddiant neu gyfleoedd i wirfoddoli) yn rhan o becyn integredig law yn llaw ag elfennau 'meddalach' y gwasanaeth, fel y cymorth emosiynol a'r anogaeth a roddir gan gynghorwyr PaCE. Yn ei hanfod, mae rhaglen PaCE yn ei chyfanrwydd yn cael mwy o effaith na rhannau unigol y rhaglen.

6.18 Er bod y perfformiad o ran deilliannau swyddi wedi bod yn galonogol, mae'n nodedig bod tuedd i gyfranogwyr symud i mewn i waith ar lefel cymharol isel, a'r gwaith hwnnw'n talu cyflogau isel. Er bod y cyn-gyfranogwyr ar y cyfan yn fodlon â'u swyddi a'u henillion, roedd y rhan fwyaf yn dibynnu ar fudd-daliadau'r wladwriaeth yn ychwanegol at eu hincwm, ac mae'r risg yn dal i fodoli y byddant yn parhau i fyw mewn tlodi er eu bod mewn gwaith.

*<u>Themâu trawsbynciol</u>*

6.19 Fel gweithrediad a ariennir gan ESF, disgwylir i PaCE gyfrannu at y tair thema drawsbynciol, sef cyfle cyfartal a phrif ffrydio rhywedd; datblygu cynaliadwy; a threchu thlodi ac allgáu cymdeithasol. Mae PaCE yn ei hanfod yn bodoli i fynd i'r afael â'r cyntaf a trydedd o'r themâu trawsbynciol (sy'n aml yn rhyng-gysylltiedig) yn yr ystyr ei fod yn anelu'n benodol at gefnogi pobl sy'n economaidd anweithgar neu'n ddi-waith yn yr hirdymor ac at bobl ifanc sy'n NEET i ymgysylltu â'r farchnad lafur ac, felly, symud allan o dlodi. O ystyried pwrpas sylfaenol PaCE, mae'r cam hwn a chamau blaenorol y gwerthusiad hwn wedi ystyried yn fanwl y cynnydd a wnaed tuag at fynd i'r afael ag agweddau o'r themâu trawsbynciol hyn (a'r dangosyddion lefel achos cysylltiedig a fabwysiadwyd ar gyfer y rhaglen).

6.20 Roedd yn amlwg o'n hymchwil desg a'n gwaith maes bod themâu trawsbynciol wedi'u hymgorffori yn y ffordd y mae PaCE yn cael ei ddarparu. Er enghraifft:

- mae deunyddiau hyrwyddo yn cynnwys delweddau o unigolion o gymunedau lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys posteri, tudalennau gwe a thudalen Facebook Rhianta, Rhowch Amser Iddo
- mae deunydd hyrwyddo yn cael ei gynhyrchu'n ddwyieithog
- mae deunyddiau hyrwyddo wedi'u datblygu i dargedu grwpiau difreintiedig penodol fel Sipsiwn, Roma a Theithwyr a dynion
- penodwyd hyrwyddwr thema trawsbynciol
- derbyniodd cynghorwyr PaCE hyfforddiant/briffio ar faterion fel amrywiaeth ac anabledd (gan gynnwys gan yr hyrwyddwr themâu trawsbynciol) trwy gyfarfodydd tîm/briffio a thrwy raglenni hyfforddi staff yr Adran Gwaith a Phensiynau
- mae cysylltiadau wedi'u meithrin gyda thimau anabledd yn y Ganolfan Byd Gwaith a chydag arweinwyr anabledd o fewn timau Cymunedau am Waith mae cynghorwyr wedi datblygu cysylltiadau â sefydliadau partner sy'n cefnogi, er enghraifft, pobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig a phobl sy'n wynebu heriau iechyd meddwl.

6.21 Yn galonogol, mae ein hymchwil wedi amlygu bod PaCE, i raddau helaeth, wedi cyrraedd y grwpiau a fwriadwyd ac wedi rhoi cymorth perthnasol iddynt. Er enghraifft:

- mae mwyafrif llethol y cyfranogwyr PaCE wedi bod yn fenywod[80]
- mae mwyafrif y cyfranogwyr o aelwydydd un oedolyn, gyda'r rhan fwyaf yn dibynnu ar y Credyd Cynhwysol neu fudd-daliadau lles eraill
- mae gan y mwyafrif o'r cyfranogwyr sgiliau isel/ dim neu cymwysterau lefel isel ac, felly, maent mewn mwy o berygl o dlodi
- roedd siaradwyr Cymraeg yn cynrychioli cyfran gynrychiadol yn fras o gyfranogwyr PaCE[81]
- y gefnogaeth a ddarparwyd gan ymgynghorwyr fu prif gynhaliaeth y rhaglen ac mae'r cyfranogwyr yn ei gwerthfawrogi'n fawr[82] [83]
- mae PaCE wedi darparu cymorth i ganfod a thalu costau gofal plant[84] [85]
- mae'r rhaglen wedi gweld rhywfaint o lwyddiant cyfyngedig wrth gefnogi menywod i rolau anhraddodiadol[86] [87].

6.22 Fodd bynnag, nid yw'r rhaglen wedi cyrraedd grwpiau eraill yn y niferoedd a ragwelwyd, nac wedi darparu mathau penodol o gymorth i'r graddau y disgwylwyd, er enghraifft:

- roedd cyfran is o gyfranogwyr yn dod o gymunedau lleiafrifoedd ethnig nag sy'n wir ar draws poblogaeth Cymru gyfan[88]
- roedd cyfranogwyr â chyflyrau iechyd neu anableddau sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio yn gyfran lai o gyfranogwyr PaCE na'r boblogaeth ehangach o ofalwyr economaidd anweithgar[89]

---

[80] Dangosydd lefel achos: Mesurau gweithredu cadarnhaol - menywod

[81] Dangosydd lefel achos: Gweithgarwch i gefnogi siaradwyr y Gymraeg

[82] Gweler, er enghraifft, yr astudiaeth achos a nodir yn Adroddiad Cam 2: Gwerthuso Profiad a Chanlyniadau, t.38

[83] Dangosydd lefel achos: Gweithgarwch mentora/eiriolaeth

[84] Gweler, er enghraifft, yr astudiaethau achos a nodir yn Adroddiad Cam 1: Gwerthuso Prosesau ac Allbynnau, t.48 ac Adroddiad Cam 2: Gwerthuso Profiad a Chanlyniadau, t.35

[85] Dangosydd lefel achos: Darparu gofal plant

[86] Gweler, er enghraifft, yr astudiaethau achos a nodir yn Adroddiad Cam 1: Gwerthuso Prosesau ac Allbynnau, t.81 ac Adroddiad Cam 2: Gwerthuso Profiad a Chanlyniadau, t.44

[87] Dangosydd lefel achos: Herio gwahanu galwedigaethol

[88] Dangosydd lefel achos: Mesur gweithredu cadarnhaol – pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig

[89] Dangosydd lefel achos: Mesur gweithredu cadarnhaol – pobl anabl

- mae'r ddau grŵp hyn wedi bod yn llai tebygol o symud ymlaen i waith
- defnyddiwyd llai o'r Gymraeg fel cyfrwng darparu gwasanaethau nag y gellid ei ddisgwyl[90]
- nifer fach o gyfranogwyr sydd wedi manteisio ar gyfleoedd gwirfoddoli[91].

6.23 Mae'n anoddach dweud y rhoddwyd sylw i ddatblygu cynllun teithio sefydliadol a mentrau trafnidiaeth gynaliadwy, er bod cynghorwyr PaCE yn gyffredinol yn gweithio o swyddfeydd y Ganolfan Byd Gwaith a lleoliadau cymunedol, ac felly'n lleihau'r galw ar gyfranogwyr i deithio pellteroedd sylweddol. Mae'n werth nodi hefyd bod pandemig COVID-19 wedi arwain at fwy o ddefnydd o Teams ar gyfer cyfathrebu a bydd hyn, heb os, wedi lleihau'r teithio a wnaethpwyd gan staff y rhaglen. Yn yr un modd, arweiniodd y pandemig at fwy o ddefnydd o ddysgu ar-lein a dysgu cyfunol, eto'n lleihau'r angen i gyfranogwyr a/neu diwtoriaid cwrs deithio.

6.24 Wrth fynd i'r afael â'r themâu trawsbynciol hyn, mae PaCE hefyd yn cyfrannu at wireddu agweddau ar nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru. Er enghraifft:

- mae wedi cefnogi cyfranogwyr i ennill y cymwysterau a'r sgiliau sydd eu hangen i sicrhau cyflogaeth, er nad yw ennill cymwysterau wedi bod yn nodwedd mor amlwg o'r rhaglen ag a ragwelwyd yn wreiddiol[92] [93]
- mae wedi cefnogi 2,885 o unigolion i gael gwaith: er bod y rhan fwyaf yn parhau i ddibynnu ar fudd-daliadau'r wladwriaeth i ychwanegu at yr incwm maent yn ei ennill, roedd unigolion yn well eu byd mewn gwaith[94] [95]
- mae wedi helpu i roi mwy o ymdeimlad o ddiben a boddhad i rai cyfranogwyr ac wedi gwella iechyd meddwl rhai cyfranogwyr[96] [97].

---

[90] Dangosydd lefel achos: Gweithgarwch i gefnogi siaradwyr y Gymraeg

[91] Dangosydd lefel achos: Cefnogi prosiectau ar gyfer gwirfoddolwyr

[92] Cymru lewyrchus

[93] Cymru sy'n fwy cyfartal

[94] Cymru lewyrchus

[95] Cymru gydnerth

[96] Trafodir hyn yn Adroddiad Cam 1: Gwerthuso Prosesau ac Allbynnau, t.95

[97] Cymru iachach

**Yr ardaloedd lle bu PaCE yn fwyaf llwyddiannus ac yn lleiaf llwyddiannus**

6.25 Mae'r cysylltiadau wedi bod yn gryfach yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd nag yn Nwyrain Cymru. Serch hynny, ceir amrywiadau sylweddol o ran nifer y cyfranogwyr sy'n ymuno â'r rhaglen mewn gwahanol ardaloedd awdurdodau lleol. Er y gellir priodoli'r gwahaniaethau hyn yn rhannol i ba bryd y lansiwyd y rhaglen mewn gwahanol ardaloedd, mae'n debygol bod yr effaith honno wedi pylu dros amser. Mae'n ymddangos bod y perfformiad wedi bod yn gryfach wrth gysylltu â chyfranogwyr yn ardaloedd Sir Gâr a Rhondda Cynon Taf, ac efallai y gellid dysgu gwersi o'r ardaloedd hyn. Mae'r cysylltiadau yn dal yn wannach yng Nghaerffili a Chasnewydd.

6.26 Nid yw perfformiad cysylltiadau cryf wastad yn golygu bod y perfformiad yn gryf wrth sicrhau deilliannau swyddi, fodd bynnag. Yn Sir Benfro, er enghraifft, mae'r perfformiad wrth sicrhau deilliannau swyddi wedi bod o dan y lefelau targed er gwaethaf y ffaith bod perfformiad cysylltiadau wedi bod yn gryf. Yn Sir Fynwy a Gwynedd, ar y llaw arall, lle na fu'r perfformiad cysylltiadau cystal, mae'r perfformiad wrth sicrhau deilliannau swyddi wedi bod yn well na'r disgwyl o gryn dipyn, hyd yn oed pan roddir ystyriaeth i nodweddion y cyfranogwyr.

**Yr ychwanegedd a'r difuddiant sy'n gysylltiedig â PaCE**

6.27 Rydym wedi ceisio llunio cymariaethau rhwng nodweddion a llwybrau cyflogaeth cyfranogwyr PaCE a'r boblogaeth ehangach a fyddai wedi bod yn gymwys i gael cymorth gan PaCE. Mae hyn wedi golygu cymharu data gweinyddol PaCE â data am unigolion cymaradwy o'rAPS a'r LFS. Er bod cyfyngiadau i'r dull hwn o weithio (e.e. gwahaniaethau yn lefelau'r manylion sydd ar gael drwy'r APS a'r LFS a maint bychan y samplau sydd ar gael o Gymru yn yr LFS), mae'r dadansoddiad yn rhoi awgrym o gyrhaeddiad y rhaglen a'r gwahaniaeth a wnaed i lwybrau cyflogaeth unigolion (ychwanegedd) drwy gymryd rhan yn PaCE. Mae'r dull hwn hefyd yn fodd o amcangyfrif i ba raddau y byddai unigolion wedi symud i mewn i waith pe na baent wedi cymryd rhan yn PaCE (difuddiant).

6.28 O ran cyrhaeddiad y rhaglen, fe wnaeth tua chwech y cant o'r unigolion a allai fod yn gymwys yng Nghymru ymuno â PaCE bob blwyddyn, cyn y pandemig. Mae'r lefel hon yn cyfateb yn fras i'r targed o ran pobl yn ymuno â'r rhaglen (sef 94 o gyfranogwyr bob mis), yn ôl y diwygiad diweddaraf i dargedau'r rhaglen, ond mae'n sylweddol is na'r lefelau ymuno a awgrymwyd yn y targedau gwreiddiol a'r targedau cyntaf a ddiwygiwyd. Ac ystyried effeithiau'r pandemig, bydd angen i'r nifer sy'n ymuno gynyddu tua 124 y mis os yw'r rhaglen i gyrraedd cyfanswm nifer y cyfranogwyr yr anelir ato erbyn mis Mawrth 2023. Er y bydd hyn yn galw am gynnydd nodedig yn y lefelau ymuno presennol, mae'n bosibl trwy gyrraedd y lefelau a welwyd yn y flwyddyn cyn dyfodiad COVID-19.

6.29 Mae dadansoddi'r APS yn dangos bod y cyfraddau pontio uchaf i waith i'w disgwyl ymhlith unigolion sy'n dymuno gweithio ac sy'n chwilio am waith. Gellir disgwyl cyfraddau pontio is ymhlith y rheini nad ydynt yn chwilio am waith oherwydd cyfrifoldebau gofal plant, a gellir disgwyl y cyfraddau isaf ymhlith y rheini nad ydynt yn dymuno gweithio. Mae'r dadansoddiad hefyd yn dangos bod y rheini sydd â'r lefelau uchaf o gyrhaeddiad addysgol a'r rheini sydd â phrofiad diweddar o waith yn fwy tebygol o bontio i waith.

6.30 Pan roddir ystyriaeth i agweddau at waith ymhlith y cyfranogwyr a gyfrannodd at ein gwaith maes, byddai'n ymddangos bod PaCE wedi golygu bod 26 y cant yn fwy o gyfranogwyr Blaenoriaeth 1 wedi cael gwaith nag a fyddai wedi cael gwaith fel arall, a bod 30 y cant yn fwy o gyfranogwyr Blaenoriaeth 3 wedi gwneud hynny. Rydym yn amcangyfrif bod 1,567 yn fwy o bobl wedi symud i mewn i waith o ganlyniad i gymryd rhan yn PaCE nag a fyddai wedi gwneud hynny fel arall.

**Costau'r rhaglen a gwerth am arian**

*Costau*

6.23 Er gwaethaf y ffaith bod rhai amrywiadau rhwng pedair ffrwd y rhaglen, roedd cyfanswm costau'r rhaglen fwy neu lai'n cyd-fynd â'r disgwyliadau diwygiedig hyd at fis Medi 2021. Ac ystyried mai costau staff yw swmp gwariant y rhaglen, nid yw hyn gyfan gwbl annisgwyl, ond mae costau eraill y rhaglen wedi bod yn llai rhagweladwy dros oes y rhaglen. Ar y cychwyn, roedd y

costau gofal plant yn is na'r lefelau y cyllidebwyd ar eu cyfer, ond maent wedi bod yn uwch na'r disgwyl ers 2018, er bod llai nag un rhan o bump y cyfranogwyr wedi cael cymorth ariannol at ofal plant. Mae costau hyfforddiant i gyfranogwyr a mân gostau wedi bod yn is na'r hyn a ddisgwyliwyd yn wreiddiol, a gostyngodd y rhain ymhellach yn sgil effeithiau'r pandemig COVID-19. Yn sgil dyrannu cyllid ychwanegol i Gronfa Cymorth Ariannol yr Adran Gwaith a Phensiynau, fe ysgafnhaodd hyn y pwysau ar gyllidebau PaCE hefyd.

6.24 Erbyn mis Medi 2021, roedd cyfanswm y costau yn cynrychioli tua 69 y cant o'r gyllideb derfynol, a hynny tua 76 y cant o'r ffordd drwy oes y rhaglen.

*Gwerth am arian*

6.25 O'r dechrau'n deg, cydnabuwyd na fyddai'n realistig asesu'r adenillion ar fuddsoddiad y trysorlys a roddir gan PaCE, ac y byddai unrhyw asesiad o'r gwerth ychwanegol wedi'i gyfyngu i gymharu costau prif ddangosyddion allbynnau a deilliannau PaCE â rhai rhaglenni cyflogadwyedd eraill. Serch hynny, prin iawn yw'r gwerthusiadau o ymyriadau ym maes cyflogadwyedd sy'n gwneud y math hwn o ddadansoddi, ac mae'r cyfleoedd i gymharu, gan hynny, yn gyfyngedig. At hynny, ceir gwahaniaethau ym mhwyslais, natur a maint ymyriadau ym maes cyflogadwyedd, gyda'r lefel o gymorth a gynigir at ofal plant yn nodwedd unigryw yn PaCE. Mae angen cofio hefyd i'r pandemig COVID-19 effeithio'n ddifrifol ar y broses o roi PaCE ar waith.

6.26 Gan dderbyn y cafeatau hyn, mae'r costau fesul cyfranogwr wedi bod yn weddol debyg i'r disgwyliadau diwygiedig o dan y ddwy flaenoriaeth, ond ychydig yn uwch na'r meincnodau gwreiddiol a osodwyd ac yn uwch na'r hyn sy'n cael ei awgrymu'n addas yn ôl gwerthusiadau costau rhaglenni eraill. Er ei bod yn bosibl y bydd y gost fesul cyfranogwr yn gostwng fymryn wrth i lefel cysylltiadau ddychwelyd i lefelau mwy normal ar ôl y pandemig, mae'n debygol y bydd y gost fesul cyfranogwr o dan PaCE yn dal yn uchel. Mae'r costau gofal plant ychwanegol sy'n gysylltiedig â PaCE yn egluro'r gwahaniaeth hwn i ryw raddau, ond mae'n fwy tebygol o fod yn sgil cymhareb cyfranogwyr i gynghorwyr isel, sy'n gysylltiedig â'r ffaith bod llai o gyfranogwyr wedi ymuno â'r rhaglen na'r disgwyl, gan gynnwys o ganlyniad i'r pandemig.

Mae’r costau disgwyliedig fesul cyfranogwr wedi cynyddu’n gyffredinol o ganlyniad i ymestyn y rhaglen, a hynny wedi golygu cynnydd yn y gyllideb sy’n anghymesur â’r cynnydd yn y targedau a osodwyd ar gyfer cysylltiadau.

6.27 Yn gyffredinol, mae’r costau fesul pob deilliant swydd a gyflawnwyd hefyd wedi cyd-fynd â’r disgwyliadau diwygiedig, ond maent yn is o lawer na’r meincnodau a osodwyd yn wreiddiol ar gyfer PaCE. Yn sicr, mae modd priodoli hyn i lwyddiant PaCE wrth sicrhau bod cyfranogwyr yn symud i mewn i waith.

6.28 O dan y lefel arwynebol, serch hynny, mae’r costau yn Nwyrain Cymru yn uwch o lawer na’r rheini yng Ngorllewin Cymru a’r Cymoedd, sy’n adlewyrchu perfformiad gwannach y rhanbarth hwnnw wrth sicrhau deilliannau swyddi. Er bod y costau fesul deilliant swydd yng Ngorllewin Cymru a’r Cymoedd yn cyd-fynd â’r ystod y gellid ei ddisgwyl yn ôl gwerthusiadau o raglenni eraill, mae’r costau yn Nwyrain Cymru yn uwch o lawer.

6.29 Drwyddi draw, felly, mae’r darlun yn gymysg wrth asesu’r gwerth am arian a roddir gan PaCE. Mae’n ymddangos ar yr olwg gyntaf yn rhaglen fwy costus o lawer na rhaglenni eraill o ran yr allbynnau (y cyfranogwyr wnaeth ymuno â’r rhaglen) a fymryn yn fwy costus o ran deilliannau swyddi, gyda’r darlun yn Nwyrain Cymru o bosibl yn achosi rhywfaint o bryder. Wrth i’r rhaglen symud i gyfnod mwy normal cyn dirwyn i ben, fodd bynnag, mae’n debygol y bydd niferoedd y deilliannau swyddi yn cynyddu ymhellach mewn cymhariaeth â niferoedd y cyfranogwyr, ac yn sgil hynny, bydd y gost derfynol fesul deilliant swydd yn gostwng.

6.30 Er nad oedd hi erioed yn fwriad i gynnal dadansoddiad o gostau a buddion PaCE, dylid nodi mai pobl gymharol ifanc yw cyfranogwyr PaCE (canolrif eu hoedran yw 29) a chan dybio y bydd y rheini sy’n cyflawni deilliannau swyddi yn aros mewn gwaith, dylai’r manteision i’r unigolion hyn ac i’r trysorlys fod yn arwyddocaol dros gyfnod o amser. At hynny, gellid dadlau bod pwyslais PaCE ar symud rhieni di-waith i waith yn helpu i wella cyfleoedd bywyd eu plant ac yn atal diweithdra sy’n para o’r naill genhedlaeth i’r llall.

## Atodiad 1: Cysylltiadauyn ôl detholiad o nodweddion personol (%)

| | Blaenoriaeth 1 | | | Blaenoriaeth 3 | | | Cyfans wm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | Dwyrain Cymru | Cyfans wm | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | Dwyrain Cymru | Cyfans wm | |
| **Rhywedd** | | | | | | | |
| Benyw | 93.1 | 95.3 | 93.6 | 97.5 | 98.8 | 97.8 | 94.6 |
| Gwryw | 6.9 | 4.8 | 6.4 | 2.5 | 1.2 | 2.2 | 5.4 |
| **Unig Riant** | | | | | | | |
| Ydy | 18.6 | 17.4 | 18.3 | 19.2 | 12.4 | 17.7 | 18.2 |
| Nag ydy | 81.4 | 82.6 | 81.7 | 80.8 | 87.6 | 82.3 | 81.8 |
| **Band Oedran** | | | | | | | |
| 16-20 oed | | | | 9.8 | 12.7 | 10.5 | 2.5 |
| 20-25 oed | | | | 90.2 | 87.3 | 89.5 | 21.2 |
| 25-30 oed | 38.9 | 35.0 | 37.9 | | | | 28.9 |
| 30-35 oed | 30.1 | 30.5 | 30.2 | | | | 23.1 |
| 35-40 oed | 18.3 | 18.9 | 18.4 | | | | 14.1 |
| 40-45 oed | 8.2 | 10.5 | 8.7 | | | | 6.7 |
| 45-50 oed | 3.5 | 4.0 | 3.7 | | | | 2.8 |
| 50+ oed | 1.1 | 1.1 | 1.1 | | | | 0.8 |
| **Cefndir Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig** | | | | | | | |
| Oes | 97.5 | 93.5 | 96.5 | 98.9 | 96.8 | 98.5 | 97.0 |
| Nag oes | 2.5 | 6.5 | 3.5 | 1.1 | 3.2 | 1.6 | 3.0 |
| **Cyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio** | | | | | | | |
| Oes | 84.0 | 89.6 | 85.4 | 89.3 | 92.5 | 90.0 | 86.5 |
| Nag oes | 16.0 | 10.4 | 14.6 | 10.7 | 7.5 | 10.0 | 13.5 |
| **Lefel Cymwysterau Presennol** | | | | | | | |
| Dim | 7.4 | 6.6 | 7.2 | 7.2 | 9.3 | 7.6 | 7.3 |
| < Lefel 2 | 16.3 | 22.4 | 17.8 | 23.0 | 31.5 | 24.9 | 19.5 |
| Lefel 2 | 42.1 | 39.6 | 41.5 | 51.2 | 45.1 | 49.8 | 43.5 |
| Lefel 3 | 21.5 | 18.3 | 20.7 | 15.5 | 11.9 | 14.7 | 19.3 |
| Lefel 4+ | 12.7 | 13.1 | 12.8 | 3.1 | 2.3 | 2.9 | 10.5 |
| **Siaradwr Cymraeg** | | | | | | | |
| Nag ydy | 80.0 | 94.3 | 83.5 | 77.3 | 91.9 | 80.6 | 82.8 |
| Ydy | 20.0 | 5.7 | 16.5 | 22.7 | 8.1 | 19.4 | 17.2 |
| **Hyd y cyfnod yn anghyflogedig** | | | | | | | |
| Llai na blwyddyn | 28.9 | 23.3 | 27.5 | 23.9 | 19.4 | 22.9 | 26.4 |
| 1-5 mlynedd | 41.2 | 48.4 | 43.0 | 59.6 | 65.6 | 60.9 | 47.2 |
| 5 mlynedd neu ragor | 29.9 | 28.3 | 29.5 | 16.5 | 15.0 | 16.1 | 26.3 |
| Cyfanswm | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 |
| Poblogaeth | 3,751 | 1,241 | 4,992 | 1,203 | 346 | 1,549 | 6,541 |

Ffynhonnell: Cronfa ddata'r cyfranogwyr ar 31 Hydref 2021

## Atodiad 2: Cael gofal plant yn ôl detholiad o nodweddion personol (%)

| | Blaenoriaeth 1 | | | Blaenoriaeth 3 | | | Cyfans wm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | Dwyrain Cymru | Cyfans wm | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | Dwyrain Cymru | Cyfans wm | |
| **Rhywedd** | | | | | | | |
| Benyw | 18.2 | 23.5 | 19.5 | 16.5 | 21.6 | 17.7 | 19.1 |
| Gwryw | 6.6 | 22 | 9.4 | 10 | 0 | 8.8 | 9.4 |
| **Unig Riant** | | | | | | | |
| Nag ydy | 24.2 | 30.6 | 25.7 | 19.5 | 25.6 | 20.4 | 24.5 |
| Ydy | 15.8 | 22 | 17.3 | 15.6 | 20.8 | 16.9 | 17.2 |
| **Band Oedran** | | | | | | | |
| 16-20 oed | | | | 17.8 | 25 | 19.8 | 19.8 |
| 20-25 oed | | | | 16.2 | 20.9 | 17.2 | 17.2 |
| 25-30 oed | 18.8 | 23.3 | 19.8 | | | | 19.8 |
| 30-35 oed | 18.1 | 26.1 | 20.1 | | | | 20.1 |
| 35-40 oed | 17.8 | 23 | 19.1 | | | | 19.1 |
| 40-45 oed | 11.4 | 18.5 | 13.5 | | | | 13.5 |
| 45-50 oed | 10.6 | 20 | 13.2 | | | | 13.2 |
| 50+ oed | 4.9 | 23.1 | 9.3 | | | | 9.3 |
| **Cefndir Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig** | | | | | | | |
| Nag oes | 17.1 | 24 | 18.7 | 16.4 | 21.5 | 17.5 | 18.4 |
| Oes | 28 | 16 | 22.4 | 15.4 | 18.2 | 16.7 | 21.7 |
| **Cyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio** | | | | | | | |
| Nag oes | 17.9 | 23 | 19.2 | 15.3 | 20.9 | 16.6 | 18.6 |
| Oes | 14.5 | 27.1 | 16.7 | 25.6 | 26.9 | 25.8 | 18.3 |
| **Lefel Cymwysterau Presennol** | | | | | | | |
| Dim | 13.7 | 23.2 | 15.8 | 9.3 | 25 | 13.6 | 15.3 |
| < Lefel 2 | 13.4 | 17.3 | 14.6 | 14.8 | 17.4 | 15.5 | 14.9 |
| Lefel 2 | 16.5 | 23 | 18 | 15.9 | 20.5 | 16.8 | 17.7 |
| Lefel 3 | 21.1 | 28.5 | 22.8 | 22.3 | 30.6 | 23.8 | 23 |
| **Siaradwr Cymraeg** | | | | | | | |
| Nag ydy | 17 | 23.2 | 18.8 | 16.2 | 20.8 | 17.4 | 18.5 |
| Ydy | 18.6 | 26.8 | 19.3 | 16.8 | 28.6 | 17.9 | 19 |
| **Hyd y cyfnod yn anghyflogedig** | | | | | | | |
| Llai na blwyddyn | 18.5 | 23.2 | 19.4 | 18.1 | 26.9 | 19.7 | 19.5 |
| 1-5 mlynedd | 19.6 | 26.5 | 21.5 | 17.2 | 21.6 | 18.2 | 20.5 |
| 5 mlynedd neu ragor | 13.2 | 18.5 | 14.5 | 11.1 | 13.5 | 11.6 | 14 |
| Cyfanswm | 17.4 | 23.4 | 18.9 | 16.4 | 21.4 | 17.5 | 18.5 |
| Poblogaeth | 3,751 | 1,241 | 4,992 | 1,203 | 346 | 1,549 | 6,541 |

Ffynhonnell: Cronfa ddata'r cyfranogwyr ar 31 Hydref 2021

## Atodiad 3: Deilliannau cyflogaeth yn ôl detholiad o nodweddion personol (%)

| | Blaenoriaeth 1 | | | Blaenoriaeth 3 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | Dwyrain Cymru | Cyfanswm | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | Dwyrain Cymru | Cyfanswm | Cyfanswm |
| **Rhywedd** | | | | | | | |
| Benyw | 45.3 | 44.4 | 45.1 | 41.7 | 36.5 | 40.5 | 44.0 |
| Gwryw | 49.4 | 39.0 | 47.5 | 36.7 | 25.0 | 35.3 | 46.3 |
| **Unig Riant** | | | | | | | |
| Nag ydy | 43.9 | 50.5 | 45.5 | 42.0 | 44.2 | 42.3 | 44.7 |
| Ydy | 46.0 | 42.8 | 45.2 | 41.5 | 35.3 | 40.0 | 44.0 |
| **Band Oedran** | | | | | | | |
| 16-20 oed | | | | 36.4 | 40.9 | 37.7 | 37.7 |
| 20-25 oed | | | | 42.1 | 35.8 | 40.7 | 40.7 |
| 25-30 oed | 44.7 | 44.9 | 44.7 | | | | 44.7 |
| 30-35 oed | 46.9 | 43.0 | 46.0 | | | | 46.0 |
| 35-40 oed | 47.6 | 46.8 | 47.4 | | | | 47.4 |
| 40-45 oed | 42.5 | 40.8 | 42.0 | | | | 42.0 |
| 45-50 oed | 43.2 | 42.0 | 42.9 | | | | 42.9 |
| 50+ oed | 41.5 | 46.2 | 42.6 | | | | 42.6 |
| **Cefndir Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig** | | | | | | | |
| Nag oes | 45.6 | 44.8 | 45.4 | 41.5 | 37.0 | 40.6 | 44.2 |
| Oes | 47.3 | 34.6 | 41.4 | 46.2 | 18.2 | 33.3 | 40.4 |
| **Cyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio** | | | | | | | |
| Nag oes | 48.2 | 46.0 | 47.6 | 41.7 | 37.2 | 40.7 | 45.9 |
| Oes | 32.0 | 28.7 | 31.4 | 40.3 | 26.9 | 38.1 | 32.6 |
| **Lefel Cymwysterau Presennol** | | | | | | | |
| Dim | 40.3 | 41.5 | 40.6 | 29.1 | 28.1 | 28.8 | 37.7 |
| < Lefel 2 | 39.0 | 38.1 | 38.7 | 31.0 | 33.9 | 31.9 | 36.6 |
| Lefel 2 | 42.3 | 44.4 | 42.8 | 44.0 | 37.8 | 42.7 | 42.8 |
| Lefel 3+ | 54.1 | 48.7 | 52.8 | 52.7 | 42.9 | 50.9 | 52.5 |
| **Siaradwr Cymraeg** | | | | | | | |
| Nag ydy | 44.1 | 43.7 | 44.0 | 39.9 | 36.5 | 39.0 | 42.8 |
| Ydy | 51.7 | 52.1 | 51.7 | 47.3 | 35.7 | 46.2 | 50.2 |
| **Hyd y cyfnod yn anghyflogedig** | | | | | | | |
| Llai na blwyddyn | 56.5 | 54.7 | 56.1 | 56.6 | 35.8 | 52.7 | 55.4 |
| 2-5 mlynedd | 44.2 | 42.4 | 43.7 | 38.5 | 35.2 | 37.7 | 41.9 |
| 5 mlynedd neu ragor | 37.1 | 38.5 | 37.4 | 30.8 | 42.3 | 33.2 | 36.8 |
| Cyfanswm y | 45.6 | 44.2 | 45.3 | 41.6 | 36.4 | 40.4 | 44.1 |
| Boblogaeth | 3,751 | 1,241 | 4,992 | 1,203 | 346 | 1,549 | 6,541 |

Ffynhonnell: Cronfa ddata'r cyfranogwyr ar 31 Hydref 2021

## Atodiad 4: Deilliannau cyflogaeth yn ôl detholiad o nodweddion rhaglen (%)

| | Blaenoriaeth | | Ardal y Rhaglen | | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | Blaenoriaeth 1 | Blaenoriaeth 3 | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | Dwyrain Cymru | |
| **Cyflawni Ardystiad yn Gysylltiedig â Gwaith** | | | | | |
| Naddo | 46.5 | 41.1 | 46.3 | 42.0 | 45.2 |
| Do | 48.0 | 44.2 | 45.7 | 53.6 | 47.2 |
| **Ennill Cymhwyster** | | | | | |
| Naddo | 45.2 | 40.2 | 44.7 | 42.0 | 44.0 |
| Do | 45.4 | 44.6 | 43.3 | 48.7 | 45.3 |
| **Cwblhau Cyfle Gwirfoddoli** | | | | | |
| Naddo | 44.5 | 39.9 | 43.9 | 41.6 | 43.4 |
| Do | 57.2 | 49.4 | 56.7 | 52.8 | 55.5 |
| **Pob Gofal Plant** | | | | | |
| Naddo | 42.3 | 38.4 | 42.3 | 38.1 | 41.3 |
| Do | 58.1 | 49.8 | 55.9 | 57.0 | 56.2 |
| **Gofal Plant 'Mewn Gwaith'** | | | | | |
| Naddo | 42.4 | 38.0 | 42.0 | 39.2 | 41.4 |
| Do | 90.0 | 84.8 | 88.4 | 90.3 | 88.9 |
| **Gofal Plant Arall** | | | | | |
| Naddo | 45.6 | 41.1 | 45.2 | 42.2 | 44.5 |
| Do | 43.1 | 35.4 | 40.2 | 43.9 | 41.4 |
| Cyfanswm | 45.3 | 40.4 | 46.2 | 43.1 | 45.4 |
| y Boblogaeth | 4,992 | 1,549 | 4,954 | 1,587 | 6,541 |

Ffynhonnell: Cronfa ddata'r cyfranogwyr ar 31 Hydref 2021

## Atodiad 5: Data'r APS

Tabl A4.1: Arsylwadau yn Sampl yr APS

| | Prif Sampl yr LFS | | | Sampl Estynedig | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwlad | Ton 1 | Ton 5 | Cyfanswm | Bl 1 | Bl 2 | Bl 3 | Bl 4 | Cyfanswm |
| Lloegr | 540,975 | 404,414 | 945,389 | 244,986 | 193,792 | 176,052 | 162,813 | 777,643 |
| Cymru | 31,809 | 24,130 | 55,939 | 63,232 | 54,087 | 50,153 | 46,742 | 214,214 |
| Yr Alban | 55,543 | 40,663 | 96,206 | 66,399 | 55,004 | 50,906 | 48,116 | 220,425 |
| Cyfanswm | 628,327 | 469,207 | 1097534 | 374,617 | 302,883 | 277,111 | 257,671 | 1,212,282 |

Tabl A4.2: Y Blynyddoedd yn Bresennol yn Sampl yr APS (unigolion)

| | Prif Sampl yr LFS | | | | Sampl Estynedig | | | Cyfan swm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Lloegr | Cymru | Yr Alban | Cyfans wm | Lloegr | Cymru | Yr Alban | |
| Y Blynyddoedd yn Bresennol | | | | | | | | |
| 1 | 409905 | 23958 | 42020 | 475883 | 178427 | 44312 | 46388 | 2691 27 |
| 2 | 269924 | 16111 | 27293 | 313328 | 97078 | 26310 | 27088 | 1504 76 |
| 3 | | | | | 62525 | 18002 | 18596 | 9912 3 |
| 4 | | | | | 56547 | 16393 | 16535 | 8947 5 |
| Cyfanswm | 679,829 | 40,069 | 69,313 | 789,211 | 394,577 | 105,01 7 | 108,607 | 608,2 01 |

Tabl A4.3: Unigolion yn Sampl yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth sy'n Cynrychioli Sylfaen Gleientiaid Bosibl PaCE

| | Prif Sampl yr LFS | | | | Sampl Estynedig | | | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Lloegr | Cymru | Yr Alban | Cyfanswm | Lloegr | Cymru | Yr Alban | |
| Y Blynyddoedd yn Bresennol | | | | | | | | |
| 1 | 18695 | 995 | 1555 | 21245 | 10795 | 2397 | 1963 | 15155 |
| 2 | 12274 | 654 | 984 | 13912 | 5279 | 1202 | 893 | 7374 |
| 3 | | | | | 2915 | 646 | 520 | 4081 |
| 4 | | | | | 1742 | 374 | 324 | 2440 |
| Cyfanswm | 30,969 | 1,649 | 2,539 | 35,157 | 20,731 | 4,619 | 3,700 | 29,050 |

## Atodiad 6: Cyfrifiadau gwaelodol y dangosyddion gwerth am arian

### Blaenoriaeth 1

| | | West Wales and Valleys | | | | East Wales | | | | All Wales | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Original Profile 2015-20 | Revised Profile 2015-2023 | Revised Pofile 2015-Sep 2021 | Actual to Sep 2021 | Original Profile 2015-20 | Revised Profile 2015-2023 | Revised Pofile 2015-Sep 2021 | Actual to Sep 2021 | Original Profile 2015-20 | Revised Profile 2015-2023 | Revised Pofile 2015-Sep 2021 | Actual to Sep 2021 |
| **Output/outcomes** | | | | | | | | | | | | | |
| 1 | Participants | 4,309 | 4,500 | 3,644 | 3,751 | 2,457 | 2,241 | 1,350 | 1,241 | 6,766 | 6,741 | 4,994 | 4,992 |
| 2 | Outcome: entering employment including self-employment upon leaving | 862 | 1,874 | 1,550 | 1,711 | 491 | 970 | 574 | 548 | 1,353 | 2,844 | 2,124 | 2,259 |
| 3 | Outcome: engaged in job search upon leaving | 1,077 | | | | 614 | | | | 1,691 | | | *0* |
| 4 | Outcome: gaining a qualification or work relevant certification upon leaving | 1,077 | 675 | 503 | *602* | 614 | 405 | 203 | *270* | 1,691 | 1,080 | 706 | *872* |
| 5 | Outcome: increasing employability through completing work experience placement or volunteering opportunity | 1,293 | | | | 737 | | | | 2,030 | | | *0* |
| | | | | | | | | | | | | | |
| **Costs** | | | | | | | | | | | | | |
| | Total operation cost | £6,709,701 | £12,426,048 | £8,636,131 | £8,813,547 | £4,074,421 | £6,702,473 | £4,536,661 | £4,613,805 | £10,784,122 | 19,128,521 | £13,172,792 | £13,427,352 |
| | | | | | | | | | | | | | |
| **Value for Money Indicators** | | | | | | | | | | | | | |
| | Cost per participant | £1,557.14 | £2,761.34 | £2,369.96 | £2,349.65 | £1,658.29 | £2,990.84 | £3,360.49 | £3,717.81 | £1,593.87 | £2,837.64 | £2,637.72 | £2,689.77 |
| | Cost per job outcome | £7,783.88 | £6,630.76 | £5,571.70 | £5,151.11 | £8,298.21 | £6,909.77 | £7,903.59 | £8,419.35 | £7,970.53 | £6,725.92 | £6,201.88 | £5,943.94 |

## Blaenoriaeth 3

| | | West Wales and Valleys | | | | East Wales | | | | All Wales | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Original Profile 2015-20 | Revised Profile 2015-2023 | Revised Pofile 2015-Sep 2021 | Actual to Sep 2021 | Original Profile 2015-20 | Revised Profile 2015-2023 | Revised Pofile 2015-Sep 2021 | Actual to Sep 2021 | Original Profile 2015-20 | Revised Profile 2015-2023 | Revised Pofile 2015-Sep 2021 | Actual to Sep 2021 |
| **Output/outcomes** | | | | | | | | | | | | | |
| 1 | Participants | 945 | 1,542 | 1,211 | 1,203 | 567 | 494 | 348 | 346 | 1,512 | 2,036 | 1,559 | 1,549 |
| 2 | Outcome: gaining qualifications upon leaving | 236 | 96 | 42 | 47 | 142 | 49 | 24 | 18 | 378 | 145 | 66 | 65 |
| 3 | Outcome: in education or training upon leaving | 284 | 35 | 16 | 15 | 170 | 22 | 11 | 11 | 454 | 57 | 27 | 26 |
| 4 | Outcome: entering employment upon leaving | 189 | 587 | 458 | 500 | 113 | 226 | 135 | 126 | 302 | 813 | 593 | 626 |
| | Outcome: entering employment, education or training upon leaving | 473 | 622 | 474 | 515 | 283 | 248 | 146 | 137 | 756 | 870 | 620 | 652 |
| | | | | | | | | | | | | | |
| **Costs** | | | | | | | | | | | | | |
| | Total operation cost | £1,765,582 | £3,382,310 | £2,378,319 | £2,360,852 | £950,698 | £1,672,423 | £1,107,406 | £1,152,856 | £2,716,280 | £5,054,733 | £3,485,725 | £3,513,708 |
| | | | | | | | | | | | | | |
| **Value for Money Indicators** | | | | | | | | | | | | | |
| | Cost per participant | £1,868.34 | £2,193.46 | £1,963.93 | £1,962.47 | £1,677 | £3,385 | £3,182.20 | £3,331.95 | £1,796 | £2,483 | £2,235.87 | £2,268.37 |
| | Cost per job outcome | £9,341.70 | £5,762.03 | £5,192.84 | £4,721.70 | £8,413 | £7,400 | £8,203.01 | £9,149.65 | £8,994 | £6,217 | £5,878.12 | £5,612.95 |
| | Cost per progression outcome | £3,732.73 | £5,437.80 | £5,017.55 | £4,584.18 | £3,359 | £6,744 | £7,584.97 | £8,415.01 | £3,593 | £5,810 | £5,622.14 | £5,389.12 |

**Atodiad 7: Dangosyddion Lefel Achos a Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

**Dangosyddion Lefel Achos ar gyfer pob un o'r pedwar gweithrediad PaCE**

| | |
|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Prif-ffrydio Rhyw** | Mesurau gweithredu cadarnhaol i fenywod |
| | Mesurau gweithredu cadarnhaol i bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig |
| | Mesurau gweithredu cadarnhaol i bobl anabl |
| | Gweithgareddau sy'n herio gwahanu galwedigaethol |
| | Gweithgarwch i gefnogi siaradwyr Cymraeg |
| | Darparu gofal plant |
| **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol** | Gweithgarwch mentora ac eirioli |
| | Cefnogi prosiectau ar gyfer gwirfoddolwyr |
| | Gweithgarwch Cyflog Cyfartal |
| **Datblygu cynaliadwy** | Datblygu Cynllun Teithio Sefydliadol a mentrau trafnidiaeth gynaliadwy |
| **Themâu Trawsbynciol Cyffredinol** | Datblygu eiriolwyr Themâu Trawsbynciol effeithiol |
| | Datblygu pecynnau hyfforddi ar Themâu Trawsbynciol. |

**Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

| |
|---|
| Cymru lewyrchus |
| Cymru gydnerth |
| Cymru sy’n fwy cyfartal |
| Cymru iachach |
| Cymru o gymunedau cydlynus |
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu |
| Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang |

# LLYFRYDDIAETH


Centre for Economic and Social Inclusion (2013), South West Workways Project Evaluation Final Report

CGGC (2020), Gwerthusiad Cronfa Cynhwysiant Gweithredol CGGC: Adroddiad Terfynol Cam 1 a 2

Llywodraeth Cymru (2011), Gwerthusiad o raglen Gweithredu Diswyddiadau (ReAct): adroddiad interim

Llywodraeth Cymru (2016), Dadansoddiad Cyfunol o Arolygon Ymadawyr ESF 2009-2014

Llywodraeth Cymru (2016), Gwerthusiad o'r prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth: gwerthuso'r broses

Llywodraeth Cymru (2018), Gwerthusiad o Raglen Esgyn: Adroddiad Gwerthuso Terfynol

Llywodraeth Cymru (2018), Gwerthusiad o'r prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth: gwerthuso ar y broses a'r allbynnau

Llywodraeth Cymru (2018), Gwerthusiad o Raglen Esgyn: Adroddiad Cam 3: Effeithiolrwydd ac Effeithlonrwydd Rhaglen Esgyn

Llywodraeth Cymru (2018), Gwerthusiad o Gymunedau am Waith: Cam 3: Adroddiad ar Ganlyniadau ac Effeithiau sy’n dod i’r Amlwg

Llywodraeth Cymru (2019), Adolygiad Canol Rhaglen o’r Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd

Llywodraeth Cymru (2020) Gwerthusiad o’r Gwasanaeth Di-Waith: Adroddiad Terfynol

Llywodraeth Cymru (2019), Gwerthusiad o Gymorth yn y Gwaith: Yr Adroddiad Terfynol

Llywodraeth Cymru (2016) Combined Analysis of the 2009-2013 ESF Leavers Surveys

Llywodraeth Cymru (2020), Gwerthusiad o'r prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth: profiadau a deilliannau

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (2017), Ex Post Evaluation 2007-13 Structural Funds in Wales

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (2017) Wales Ex Post Evaluation Priority Review paper: Increasing employment and tackling inactivity: ESF